# Agenda - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 17 Hydref 2024

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Naomi Stocks**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddPlant@senedd.cymru

# Hybrid

## Rhag-gyfarfod preifat

(09.15 - 09.30)

## Cyfarfod cyhoeddus

(09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) - sesiwn dystiolaeth 13

(09.30 - 10.30) (Tudalennau 1 - 43)

Dona Lewis, Prif Weithredwr, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Meinir Ebbsworth, Cyfarwyddwr Strategol, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr, Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Rebecca Williams, Uwch-reolwr Sgiliau Iaith a Chynllunio Gweithlu, Coleg Cymraeg Cenedlaethol

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil

Papur 1 Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Papur 2 Coleg Cymraeg Cenedlaethol

## Egwyl

(10.30 - 10.45)

## 3 Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) – sesiwn dystiolaeth 14

(10.45 – 11.30) (Tudalennau 44 – 51)

Rhian Edwards, Cyfarwyddwr Gweithredol Polisi, Medr (Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil)

**Dogfennau atodol:**

Papur 3 Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr)

## 4 Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) – sesiwn dystiolaeth 15

(11.35 – 12.35) (Tudalennau 52 – 57)

Jonathan Morgan, Pennaeth a Phrif Weithredwr Coleg y Cymoedd yn cynrychioli ColegauCymru

Amanda Wilkinson, Cyfarwyddwr, Prifysgolion Cymru [ar Zoom]

Lisa Mytton, Cyfarwyddwr Strategol, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru [ar Zoom]

**Dogfennau atodol:**

Papur 4 ColegauCymru

Papur 5 Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (Saesneg yn unig)

## 5 Papurau i'w nodi

(12.35)

### 5.1 Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)

(Tudalennau 58 – 59)

**Dogfennau atodol:**

Gwybodaeth ychwanegol gan Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 02 Hydref 2024 (Saesneg yn unig)

### 5.2 Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)

(Tudalen 60)

**Dogfennau atodol:**

Gwybodaeth ychwanegol gan Mudiad Meithrin yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 26 Medi 2024

### 5.3 Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)

(Tudalen 61)

**Dogfennau atodol:**

Gwybodaeth ychwanegol gan Gymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 02 Hydref 2024 (Saesneg yn unig)

**5.4 Gwybodaeth gan Randdeiliaid**

(Tudalennau 62 - 63)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip gan y Gymdeithas Genedlaethol i Bobl Fyddar (Saesneg yn unig)

**5.5 Gwybodaeth gan Randdeiliaid**

(Tudalennau 64 - 65)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

**5.6 Gwybodaeth gan Randdeiliaid**

(Tudalennau 66 - 69)

**Dogfennau atodol:**

Nodyn briffio gan Brifysgolion Cymru ar gyfranogiad Cymru mewn addysg uwch (Saesneg yn unig)

**5.7 A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?**

(Tudalennau 70 - 109)

**Dogfennau atodol:**

Ymateb i adroddiad y Pwyllgor gan Lywodraeth Cymru

**5.8 Anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu pobl ifanc yn yr ystâd cyfiawnder ieuenctid**

(Tudalennau 110 - 112)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a’r Prif Chwip gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

**5.9 Plant a phobl ifanc sydd ar yr ymylon**

(Tudalennau 113 - 114)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan NYAS Cymru (Saesneg yn unig)

**5.10 Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)**

(Tudalennau 115 - 117)

**Dogfennau atodol:**

Gwybodaeth ychwanegol gan Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 2 Hydref 2024 (Saesneg yn unig)

**5.11 Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)**

(Tudalennau 118 - 119)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg

## Cyfarfod preifat

(12.35)

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(12.35)

## 7 Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) - trafod y dystiolaeth

(12.35 - 12.55)

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**WLE 17**
**Ymateb gan: Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol**
**Response from: The National Centre for Learning Welsh**

---

## 1. Cefndir

1.1 Sefydlwyd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn 2016 yn dilyn proses dendro gan Lywodraeth Cymru. Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant enillodd y cytundeb i sefydlu'r Ganolfan. Hyd y cytundeb gwreiddiol oedd pum mlynedd. Cafodd y cytundeb ei ymestyn am bum mlynedd arall yn 2021.

1.2 Nod y Ganolfan yw creu siaradwyr Cymraeg sy'n mwynhau defnyddio'r iaith, drwy ddarparu strategaeth a gwasanaethau Dysgu Cymraeg cenedlaethol. Ers ei sefydlu mae'r Ganolfan wedi trawsnewid y sector Dysgu Cymraeg. Mae'r niferoedd sy'n dysgu Cymraeg wedi cynyddu o **33%**, ac yn 2022-2023 cwblhaodd **16,905** o bobl ei chyrsiau. Mae cyrsiau wyneb-yn-wyneb a rhithiol gyda thiwtor ar gael, yn ogystal â chyrsiau hunan-astudio ar-lein. Mae cynlluniau hefyd ar gyfer grwpiau penodol megis teuluoedd, gweithleoedd a phobl ifanc. Rydym hefyd yn gweithio gyda nifer o sectorau penodol ac wedi datblygu rhaglenni Dysgu Cymraeg sydd wedi eu teilwra, er enghraifft ar gyfer Addysg a Gofal Blynyddoedd Cynnar, Iechyd a Gofal, Addysg Bellach / Addysg Uwch, Awdurdodau Lleol a Chwaraeon. Yn ddiweddar, mae'r Ganolfan wedi derbyn cyfrifoldebau i ddarparu rhaglen genedlaethol ar gyfer y Gweithlu Addysg. Mae gan y Ganolfan hefyd raglen o gyrsiau Codi Hyder a Defnyddio er mwyn cynorthwyo siaradwyr di-hyder neu anfoddog i ddefnyddio eu Cymraeg.

1.3 Un o ddyletswyddau cyntaf y Ganolfan oedd datblygu cwricwlwm Dysgu Cymraeg. Mae'r cwricwlwm wedi ei seilio ar Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer ieithoedd (CEFR). Mae'r CEFR yn sail i gwricwlwm y Ganolfan ac felly yn cael ei ddefnyddio ar draws ei chynlluniau a'i chyrsiau amrywiol. Mae'r cwricwlwm yn cynnwys trosolygon sydd yn dangos cynnydd yn y pedair sgìl (siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu) ar draws y lefelau o A1 i C1. Gellir eu defnyddio ar y cyd â'r trosolygon ffwythiannol a'r cystrawennau gramadegol. Wrth i ddysgwyr wneud cynnydd, byddant yn dysgu defnyddio'r iaith (siarad ac ysgrifennu) mewn nifer gynyddol o gyd-destunau, gan symud o'r cyfarwydd (A1) i amrediad eang o sefyllfaoedd cyfarwydd ac anghyfarwydd (B2), gallu ymgymryd â thasgau gwrando a darllen o gymhlethdod cynyddol, gan symud o iaith seml mewn cyd-destunau cyfarwydd (A1) i iaith fwy cymhleth a haniaethol o lawer mewn amrediad eang o arddulliau a chyd-destunau (B2). Byddant hefyd yn gallu manteisio ar gronfa gynyddol o ran geirfa, arddulliau a chyweiriau (ffurfiol ac anffurfiol); gramadeg a chystrawen a nodweddion ynganu. Byddant hefyd yn dod i ddefnyddio'r iaith â mwy o hyder a dyfnder.

1.4 Mae'r Ganolfan hefyd wedi arwain y gweithlu Dysgu Cymraeg o 700 i weithredu'r cwricwlwm drwy gyflwyno adnoddau a hyfforddiant i gyflwyno cyrsiau ar hyd y lefelau o A1 i C1.

1.5 Mae dysgwyr yn canmol darpariaeth y Ganolfan - dywedodd 99% eu bod yn mwynhau dysgu Cymraeg (holiadur Dweud Eich Dweud 2023-2024, 4,803 o ymatebwyr).

1.6 Yn Awst 2021 cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad cyflym o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Nododd yr adroddiad bod y Ganolfan yn cael ei :

*'... chydnabod fel corff sy'n cydgysylltu, cynllunio, darparu a datblygu darpariaeth Dysgu Cymraeg ar lefel genedlaethol... Yn ystod ail gam ei bodolaeth, bydd angen i'r rôl hon, fel*



Llywodraeth Cymru Welsh Government
CYMRAEG Dysgu Learn

*sefydliad allweddol a strategol sy'n ganolog i'r broses o gaffael y Gymraeg, gael ei datblygu a'i chryfhau.*

1.7 Mae'r Ganolfan wedi ei sefydlu bellach ers wyth mlynedd ac wedi profi ei harbenigedd o ran dysgu Cymraeg.  Mae'r sector Dysgu Cymraeg yn cael ei arolygu gan Estyn, gyda'r Ganolfan yn derbyn arolwg bob tair blynedd.  Nododd Estyn yn Adroddiad Arolwg y Ganolfan ym mis Ebrill 2024

'*Mae'r Ganolfan yn ganolog i fentrau i normaleiddio defnydd o'r iaith'*

'*Mae arweinwyr yn hyderus i addasu ac esblygu unrhyw agwedd o'r gwasanaeth gan weithredu'n greadigol i arloesi'n barhaus…sy'n arwain at gynllunio ieithyddol ffyniannus ym mhob agwedd o'r gwaith'*

*'Mae perfformiad llwyddiannus y Ganolfan...yn cyfrannu'n gadarn at gyflawni targedau strategaeth Cymraeg 2050:Miliwn o siaradwyr'*

1.8 Mae Estyn yn argymell bod y Ganolfan yn parhau i ymestyn a rhannu arbenigedd y sector Dysgu Cymraeg, ac yn parhau i arloesi trwy hwyluso gweithgareddau sy'n integreiddio siaradwyr newydd yn eu cymunedau ac yn eu gwaith.

## 2. Egwyddorion cyffredinol Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) a'r angen am ddeddfwriaeth i gyflawni'r bwriad polisi a nodir

2.1 Mae'r Ganolfan yn croesawu ac yn cefnogi Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru).  Mae'n cytuno bod angen rhaglen uchelgeisiol o newid sy'n gofyn am weithredu ar sawl lefel o ran y Gymraeg mewn addysg er mwyn sicrhau bod y Gymraeg y perthyn i ni i gyd. Rydym o'r farn bod cydnabod bod cyfleoedd Dysgu Cymraeg (gydol oes) yn cynnwys cwmpas gwaith presennol y Ganolfan yn holl bwysig.

2.2 Rydym o'r farn bod sefydlu corff statudol newydd i arwain ar ddysgu Cymraeg (gydol oes) yn ateb hir-dymor sy'n cynnig sefydlogrwydd i'r sector. Mae hyn yn wahanol i'r drefn flaenorol o ddilyn proses dyrannu grant am dymor cyfyngedig.  Bydd Bil y Gymraeg ac Addysg newydd yn rhoi cyfle teg i bob plentyn yng Nghymru ddod yn siaradwr Cymraeg, beth bynnag bo'u cefndir a pha bynnag ysgol y maent yn ei mynychu. Rydym o'r farn bod llwyddiannau'r Ganolfan wrth gyflwyno un llwybr dysgu clir i ddysgwyr wedi gosod y sail i'r Athrofa adeiladu ar y gwaith hwn wrth gefnogi y Bil Addysg a'r Gymraeg.

2.3 Rydym yn llwyr gefnogol i gynnwys y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn y gyfraith. Credwn y bydd pennu targedau ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ac yn gymdeithasol yn rhoi ffocws pendant ac yn fodd o fesur effeithlonrwydd a chyrhaeddiad y gwaith.  Mae gwaith y Ganolfan o ran Dysgu Cymraeg yn y gymuned, mewn gweithleoedd ac mewn teuluoedd yn rhan annatod o hyn ac rydym o'r farn bod angen parhau â'r gwaith hwn fel rhan o strategaeth dysgu (gydol oes) yr Athrofa.

2.4 Mae'r Ganolfan yn croesawu'r nod o greu continwwm sgiliau ar gyfer y Gymraeg sydd wedi'i seilio ar y CEFR, yn union fel y mae'r Ganolfan wedi'i wneud ar gyfer oedolion. Mae hyn wedi cefnogi a hwyluso taith oedolion sy'n dysgu'r Gymraeg, gan gynnwys mewn gweithleoedd, a byddai'n dda ymestyn hyn ar gyfer dysgwyr o bob oed. Credwn fod gan y Ganolfan yr arbenigedd gweithredol yn y maes hwn i weithio gyda'r Llywodraeth wrth greu

continwwm clir a di-dor a fydd yn rhan annatod o waith yr Athrofa ac yn hollbwysig i lwyddiant y Bil ac i gynhyrchu mwy o siaradwyr Cymraeg. Credwn bod y CEFR yn cynnig fframwaith addas ar gyfer dysgu Cymraeg (gydol oes) ac y byddai modd cymhwyso a theilwra elfennau o'r CEFR i blant oed cynradd ymlaen.

2.5 Mae'r Ganolfan yn cefnogi'r deilliant ieithyddol bod pob disgybl yn gadael addysg statudol yn gallu siarad Cymraeg yn hyderus. Mae'r Ganolfan yn llwyr gefnogol o'r egwyddor o ddilyniant mewn sgiliau a darpariaeth ar gyfer disgyblion. Mae'r Ganolfan wedi datblygu rhaglen Dysgu Cymraeg ar gyfer pobl 16-25 oed, gan wneud hynny ar hyd y continwwm (o A1 i C2). Mae'n cydweithio â'r sector addysg drydyddol er mwyn sicrhau bod y cyfleoedd hyn ar gael i bobl ifanc mewn addysg bellach, addysg uwch a phrentisiaethau. Ers 2017 mae'r Ganolfan hefyd wedi arwain rhaglen uwch sgilio'r gweithlu Addysg Bellach ac Addysg Uwch, fel rhan o'i chynllun Cymraeg Gwaith.

2.6 Credwn fod rôl yr Athrofa yn hanfodol, er mwyn sicrhau bod arbenigedd Dysgu Cymraeg ar hyd y continwwm yn rhan greiddiol o'r arlwy sydd ar gael i bobl ifanc a hefyd er mwyn sicrhau sgiliau Cymraeg allweddol wrth iddynt gael mynediad i'r farchnad lafur. Credwn bydd arbenigedd yr Athrofa o ddysgu Cymraeg yn allweddol i arwain ar y gwaith hwn, ond bydd angen gwneud hynny mewn cydweithrediad a thrafodaeth â sefydliadau megis Medr a'r Coleg Cymraeg er mwyn sicrhau cydweithio strategol. Rydym o'r farn bod angen corff annibynnol sydd ag arbenigedd penodol o ran caffael a dysgu iaith ac sydd hefyd yn gynllunwyr ieithyddol i arwain y gwaith Dysgu Cymraeg (gydol oes) yn llwyddiannus.

2.7 Mae Cynllun Cymraeg Gwaith y Ganolfan, sydd wedi datblygu partneriaeth yn ddiweddar gyda Chomisiynydd y Gymraeg o ran y Cynnig Cymraeg, yn darparu gwasanaethau i uwch sgilio gweithluoedd mewn nifer o sectorau amrywiol, gan wneud hynny ar hyd y continwwm (o A1 i C2). Mae'r Ganolfan yn cynllunio'n strategol i ddatblygu gweithluoedd i ddefnyddio mwy o'r Gymraeg, sydd yn ei dro yn eu galluogi i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

2.8 Un o brif amcanion rhaglen Cymraeg Gwaith y Ganolfan yw cefnogi safonau'r Gymraeg a chynyddu gallu cyflogwyr i gynyddu defnydd o'r Gymraeg. Erbyn hyn mae Cymraeg Gwaith wedi gweithio gyda dros 2,000 o gyflogwyr ac wedi datblygu rhaglenni Dysgu Cymraeg a Chodi Hyder a Defnyddio pwysig gyda sectorau allweddol gan gynnwys Iechyd a Gofal. Mae'r Ganolfan felly yn croesawu'r ddyletswydd i adolygu safonau'r Gymraeg.

2.9 Mae'r Ganolfan wedi datblygu cynlluniau arwyddocaol gyda Mudiad Meithrin a Cwlwm i gefnogi sgiliau Cymraeg y gweithlu addysg a gofal blynyddoedd cynnar. Credwn fod parhad i'r gwaith hwn o fewn yr Athrofa yn greiddiol, er mwyn sicrhau bod y continwwm yn weithredol ar gyfer pob unigolyn o'r crud i'r bedd.

2.10 Mae'r Ganolfan yn cefnogi'r bwriad o greu dolen gyswllt rhwng targedau cenedlaethol a thargedau lleol y Gymraeg mewn addysg. Mae'n croesawu'r nod o greu dolen gyswllt rhwng y targed o filiwn o siaradwyr a Chynlluniau Gweithredu Cymraeg mewn Addysg yr awdurdodau lleol. Mae'r Ganolfan eisoes yn cydweithio ag Awdurdodau Lleol i ddarparu cyrsiau Dysgu Cymraeg mewn ysgolion ble mae twf yn y ddarpariaeth wedi'i gynllunio yn lleol. Mae hyn yn digwydd fel rhan o waith y rhaglen Dysgu Cymraeg Gweithlu Addysg.


Llywodraeth Cymru
Welsh Government
CYMRAEG
Dysgu
Learn

2.11 Mae'r Ganolfan o'r farn bod cydweithio'n effeithiol ag ystod o bartneriaid yn hanfodol er mwyn creu gwell dilyniant, profiad a deilliannau i'r dysgwyr wrth iddynt ddod yn siaradwyr. Rydym o'r farn bod gan yr Athrofa le penodol i arwain ar nifer o'r trafodaethau partneriaethol, ac mae gwaith y Ganolfan yn y maes hwn yn sail arbennig i ddatblygu ar hynny ymhellach.

Mae Estyn wedi adnabod gwaith partneriaethol y Ganolfan fel cryfder:

'*un o rinweddau Y Ganolfan yw'r modd mae'n cydweithio i gynllunio'r ddarpariaeth mewn cydweithrediad arloesol ag ystod o bartneriaid gwerthfawr*'. Adroddiad Arolwg 2024

## 3. Unrhyw rwystrau posibl i weithredu darpariaethau'r Bil ac a yw'r Bil yn eu hystyried (gan gynnwys cychwyn a Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig)

3.1 Mae pwysigrwydd sicrhau Gweithlu Addysg sydd yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol o ran y Gymraeg yn hanfodol i lwyddiant y Bil. Yn 2024 mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, drwy gydweithio ag Adran Addysg Llywodraeth Cymru, wedi cyhoeddi rhaglen Dysgu Cymraeg Gweithlu Addysg, a bydd yn ymestyn y rhaglen yn 2025 i gynnwys y cyrsiau sabothol presennol. Mae'r rhaglen yn cyd-fynd â Chynllun Gweithlu Cymraeg mewn Addysg Llywodraeth Cymru. Erbyn i'r Athrofa gael ei sefydlu, felly, bydd y Ganolfan wedi gweithredu, gwerthuso a thyfu'r rhaglen hon a chredwn gall y profiad a'r arbenigedd hwn fod yn sail synhwyrol i'r Athrofa barhau i arwain ar y gwaith. Rydym hefyd o'r farn fod gan yr Athrofa gyfraniad pwysig i'w wneud tuag at ddatblygiad y gweithlu cyfrwng Cymraeg, a hynny er mwyn sicrhau mai un continwwm sydd yn cael ei weithredu, a hynny'n gyson ym mhob ysgol.

3.2 Mae'r Ganolfan wedi gweithio'n agos â Darparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon, gan ddarparu adnodd cyson i'w cynorthwyo i gynnwys 35 awr o hyfforddiant dysgu Cymraeg fel rhan o'r cwrs, a hynny ar hyd y continwwm (o A1 i C2). Mae'r gwaith hwn yn caniatáu datblygiad pellach i'r gweithlu addysg o fewn rhaglen dysgu Cymraeg Gweithlu Addysg y Ganolfan, ac i wneud hynny drwy barhau ar hyd y continwwm o fewn eu lleoliad gwaith. Credwn fod y cydweithio hyn yn sail i ddatblygiad pellach yn yr Athrofa i integreiddio mwy o ddarpariaeth dysgu Cymraeg, gan gynnwys cyfleoedd dwys, fel rhan annatod o hyfforddi fel athro yng Nghymru ac i sicrhau parhad llyfn i raglen datblygiad proffesiynol y Gweithlu Addysg. Bydd Gweithlu Addysg cymwys o ran y Gymraeg yn allweddol wrth sicrhau llwyddiant y Bil, yn ogystal â gwireddu amcanion Cwricwlwm i Gymru a'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol.

3.3 Byddem yn gefnogol i'r Bil ymhelaethu ymhellach ar ddyletswyddau'r Athrofa gyda'r gwaith o ddatblygu'r Gweithlu Addysg, gan adeiladu ar y gwaith cychwynnol sydd wedi dechrau gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae hefyd yn bwysig cydnabod bod sicrhau amser teilwng i'r Gweithlu Addysg ddatblygu eu sgiliau yn hanfodol, ac felly mae angen mwy o eglurder ar y dull o gyllido'r Awdurdodau Lleol ar gyfer yr amser rhyddhau. Credwn bod angen sicrhau eglurder ynghylch cyfraniad yr Athrofa i ddarparu'r arbenigedd dysgu iaith ar hyd y continwwm wrth hyfforddi gweithlu addysg y dyfodol hefyd.

## 4. Priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth

4.1 Rydym o'r farn bod y Bil yn cynnwys digon o sylw i'r hyn fydd mewn is-ddeddfwriaeth ac y bydd yr is-ddeddfwriaethau yn eu tro yn rhoi mwy o fanylder a chyfeiriadau priodol fydd yn cynorthwyo wrth sicrhau llwyddiant y Bil.

4.2 Rydym yn benodol yn gefnogol i'r is-ddeddfwriaeth sy'n rhoi pŵer i roi swyddogaethau ychwanegol i'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae sicrhau disgrifiad dyletswyddau'r Athrofa yn hollbwysig, ac mae hefyd yn bwysig sicrhau bod y sefydliad yn gallu addasu, esblygu ac ymateb i'r hyn sydd ei angen wrth weithredu'r Bil.

4.3 Rydym hefyd o'r farn bod Llywodraethiant effeithiol yn allweddol i'r Athrofa ac rydym yn gefnogol o briodoldeb gallu amrywio aelodaeth ac is-bwyllgorau'r sefydliad.

## 5. A oes canlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil

5.1 Rydym yn llwyr gefnogol i amcan y Bil o ran codi safonau o fewn ysgolion cyfrwng Saesneg, ac i gefnogi symud ar hyd continwwm ieithyddol. Mae dealltwriaeth o gontinwwm yn y cyd-destun hwn yn hollbwysig. Mae'n bwysig sicrhau cefnogaeth gyson ar gyfer *pob* ysgol a *phob* disgybl gan gynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg.

5.2 Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi ei sefydlu ers 2016 ac yn cael ei chydnabod fel sefydliad sy'n gweithredu'n llwyddiannus ac i ansawdd uchel. Mae'n bwysig bod sefydlu'r Athrofa yn adeiladu ar y llwyddiannau hyn ac yn caniatáu parhad i waith sector sy'n gweithredu mor llwyddiannus. Mae'r sector Dysgu Cymraeg yn cyflogi oddeutu 700 gyda'r mwyafrif o'r rhain yn diwtoriaid ac yn ystod 2023-24 roedd 16,905 o ddysgwyr wedi cwblhau 29,485 o weithgareddau dysgu Cymraeg. Mae angen sicrhau nad yw sefydlu'r Athrofa yn ansefydlogi'r gwaith sydd wedi digwydd yn ystod (Cam 1 a 2) bodolaeth y Ganolfan a bod y Llywodraeth yn manteisio ar arbenigedd a rhagoriaethau'r sector wrth sefydlu'r Athrofa. Rydym o'r farn wrth weithredu yn y modd hyn bod yr Athrofa yn cynnig sefydlogrwydd i'r sector Dysgu Cymraeg ac yn caniatáu cynllunio strategol hir-dymor ar gyfer dysgu Cymraeg (gydol oes).

5.3 Gall aneglurder o ran dyletswyddau cyrff sydd ynghlwm â'r Bill, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, arwain at oedi a dyblygu gwaith. Er hyn, credwn fod sefydlu Athrofa fel corff sydd â dyletswyddau penodol ac sy'n cael ei gydnabod fel corff sy'n arwain ar holl elfennau dysgu Cymraeg (gydol oes) yn fodd o ddiwallu hyn. Bydd gweithio partneriaethol llwyddiannus yn allweddol i sicrhau effeithlonrwydd hyn.

## 6. Goblygiadau ariannol y Bil (fel y'u nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol)

6.1 Credwn fod gwaith presennol y Ganolfan yn parhau yn hollbwysig ar gyfer sicrhau twf y Gymraeg a chyrraedd targedau 2050. Credwn fod angen sicrwydd y bydd rôl yr Athrofa i'r dyfodol yn parhau i roi ffocws clir a theilwng ar y gwaith hwn yn ogystal â'r cyfrifoldebau eraill fydd yn ffurfio rhan o'i swyddogaethau. Yn sgil hynny, felly, mae angen ystyried bod cyllideb yr Athrofa yn caniatáu gallu darparu cyfleoedd dysgu Cymraeg (gydol oes) ar yr un raddfa â'r Ganolfan ar hyn o bryd ac yn caniatáu ymestyn y gwaith i gefnogi'r Bil.

6.3 Statws presennol y Ganolfan yw Cwmni Cyfyngedig dan warant.  Nod presennol y Ganolfan yw creu siaradwyr Cymraeg sy'n mwynhau defnyddio'r iaith, trwy ddarparu strategaeth a gwasanaethau dysgu Cymraeg cenedlaethol.  Mae strwythur presennol y Ganolfan yn cynnwys gwasanaethau corfforaethol e.e cyllid, data, TG ynghyd â chyfarwyddiaethau sy'n arbenigo mewn dysgu ac addysgu, marchnata a chyfathrebu, a datblygu sgiliau Cymraeg gweithluoedd, gan gynnwys y sector Addysg Statudol ac ôl-16.

6.4 Yng nghyd-destun ystyriaeth ariannol costau sefydlu'r Athrofa, mae'n bwysig cydnabod rhestr swyddogaethau cyfredol y Ganolfan a'i chymharu â rhestr swyddogaethau yr Athrofa.

| **Swyddogaethau yr Athrofa** | **Swyddogaethau presennol y Ganolfan** |
|---|---|
| (a) rhoi cyfeiriad ac arweiniad strategol i ddarparwyr dysgu Cymraeg; | Mae'r Ganolfan wedi sefydlu 10 darparwr Dysgu Cymraeg, sy'n arbenigwyr caffael a dysgu iaith. Maen nhw'n darparu gwasanaethau dysgu Cymraeg ar ran y Ganolfan i:<br>(i) Oedolion yn y gymuned neu'n rhithiol<br>(ii) Pobl ifanc mewn addysg drydyddol ac ysgolion<br>(iii) Pobl ifanc 16-18 oed<br>(iv) Gweithluoedd<br>(v) Teuluoedd |
| (b) darparu, neu hwyluso darpariaeth, deunyddiau dysgu Cymraeg; | Mae'r Ganolfan wedi creu Cwricwlwm Dysgu Cymraeg wedi ei seilio ar y CEFR gan ddatblygu adnoddau dysgu ac addysgu i'w cefnogi ar bob lefel o A1-C2. |
| (c) cynllunio ar gyfer datblygu'r gweithlu addysg at ddiben gwella dulliau addysgu'r Gymraeg; | Ers 2024 mae'r Ganolfan wedi datblygu rhaglen dysgu Cymraeg Gweithlu Addysg, a fydd yn ymestyn yn 2025 i gynnwys y ddarpariaeth Sabothol.  Mae'r rhaglen yn cynnwys darpariaeth amrywiol ar gyfer y gweithlu addysg er mwyn gwella dulliau addysgu'r Gymraeg. Ar hyn o bryd cyrhaeddiad y rhaglen ym mlwyddyn academaidd 2024-25 yw oddeutu 2000 o ymarferwyr. Rhagwelwn y bydd angen tyfu'r rhaglen hon yn sylweddol i gefnogi amcanion y Bil. |
| (d) gwneud trefniadau i ddarparu cyfleoedd i ddysgu Cymraeg | Mae'r Ganolfan yn dyfarnu ac yn rheoli cytundebau gyda 10 darparwr craidd a rhai darparwyr ychwanegol er mwyn sicrhau cyfleoedd o ansawdd i ddysgu Cymraeg. |

| | |
|---|---|
| (i) i'r gweithlu addysg,<br><br>(ii) yn y gweithle, a | Ers 2024 mae'r Ganolfan yn arwain rhaglen dysgu Cymraeg Gweithlu Addysg.<br><br>Ers 2017 mae'r Ganolfan yn arwain rhaglen Cymraeg Gwaith sy'n darparu cyfleoedd dysgu Cymraeg yn y gweithle. |
| (iii) i bobl sydd dros oedran ysgol gorfodol; | Ers 2023 mae'r Ganolfan yn arwain rhaglen Ymlaen gyda'r Dysgu sy'n rhoi cyfleoedd penodol i bobl ifanc 16-25 oed ddysgu Cymraeg. Mae dysgu Cymraeg i oedolion yn y gymuned ac yn rhithiol yn rhan sylweddol o waith y Ganolfan. |
| (e) gwneud trefniadau i wella lefelau gallu yn y Gymraeg—<br>(i) ymysg y gweithlu addysg,<br><br>(ii) yn y gweithle, a<br><br>(iii) ymysg dysgwyr sydd dros oedran ysgol gorfodol; | Rhaglen dysgu Cymraeg Gweithlu Addysg<br><br>Rhaglen Cymraeg Gwaith<br><br>Rhaglen Ymlaen gyda'r Dysgu Pobl Ifanc 16-25 oed<br>Dysgu Cymraeg i oedolion yn y gymuned ac yn rhithiol |
| (f) dylunio a datblygu darpariaeth dysgu Cymraeg i ddysgwyr sydd dros oedran ysgol gorfodol, neu hwyluso gwaith dylunio a datblygu o'r fath; | Mae'r Ganolfan yn dylunio a datblygu darpariaeth dysgu Cymraeg gan weithio mewn partneriaeth i deilwra a chyd-destunoli. |
| (g) datblygu a chynnal cwricwlwm cenedlaethol dysgu Cymraeg ar gyfer dysgwyr sydd dros oedran ysgol gorfodol; | Mae'r Ganolfan wedi datblygu ac mae'n cynnal cwricwlwm Dysgu Cymraeg. Mae'r cwricwlwm yn tynnu ar amryw o gwricwla eraill mewn gwahanol gyd-destunau, ac mae'n alinio â Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer ieithoedd (CEFR). Mae hefyd yn arwain y gweithlu Dysgu Cymraeg o 700 i weithredu'r cwricwlwm drwy gyflwyno adnoddau a hyfforddiant. |
| (h) casglu a chyhoeddi data, o leiaf unwaith bob 12 mis, ar ddysgwyr Cymraeg sydd dros oedran ysgol gorfodol. | Mae'r Ganolfan yn gyhoeddwr data statudol ac wedi sefydlu strwythurau data cadarn i gydymffurfio â'r cod ymarfer a chyhoeddi data yn flynyddol. Mae data'r Ganolfan yn |

| | |
|---|---|
| | cynnwys dysgwyr ôl-16 sy'n dysgu Cymraeg, ac mae'n sail i holl waith cynllunio'r Ganolfan. |

Credwn o ystyried strwythur a chyllid presennol y Ganolfan, mae ymestyn ymhellach y rhaglen waith ar gyfer y Gweithlu Addysg fydd y gost ychwanegol fwyaf o ran swyddogaethau'r Athrofa.

6.5 Mae sicrhau cyllid digonol i gynllunio a darparu hyfforddiant ieithyddol i'r gweithlu addysg ar raddfa lawer mwy na mae'r Ganolfan yn gallu ei wneud ar hyn o bryd yn allweddol. Mae'r memorandwm esboniadol yn cyfeirio at symud adnoddau o rannau eraill o'r system. Mae'r Ganolfan wedi profi hyn wrth ddenu cyllid ychwanegol o adrannau polisi amrywiol Llywodraeth Cymru, ac mae felly'n ymwybodol bod gweithredu yn y modd hwn yn bosib. Er hynny, mae angen sicrwydd wrth sefydlu'r Athrofa ar yr union gyllideb a fydd yn caniatáu rhaglen o'r raddfa gywir ar gyfer ymestyn y rhaglen dysgu Cymraeg Gweithlu Addysg.

Mae'r Ganolfan yn ddiolchgar am y cyfle i fod yn rhan o'r broses ymgynghori. Mae'n gyffrous am y posibiliadau o barhau i esblygu ei gwaith fel rhan o'r Athrofa. Mae'r Ganolfan yn gefnogol o egwyddorion ac uchelgais y Bil Addysg a'r Gymraeg er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn perthyn i bawb.

**Dona Lewis**
**Prif Weithredwr**
**Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol**

**Arolwg Estyn Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol Ebrill 2024**
**Adolygiad Cyflym 2021**
**Adroddiad Blynyddol 2023-24 Y Ganolfa Dysgu Cymraeg Genedlaethol**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government
CYMRAEG
Dysgu
Learn

**Cyflwynwyd yr ymateb hwn i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)**

**This response was submitted to the Children, Young People and Education Committee on the Welsh Language and Education (Wales) Bill**

**WLE 16**
**Ymateb gan: Coleg Cymraeg Cenedlaethol**
**Response from: Coleg Cymraeg Cenedlaethol**

---

# Tystiolaeth Ysgrifenedig

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (y Coleg) yn croesawu'r cyfle hwn i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig ac i ddod gerbron y Pwyllgor i roi tystiolaeth lafar ar 17 Hydref fel rhan o'r broses craffu ar Fil y Gymraeg ac Addysg (Cymru).

Mae'r Coleg Cymraeg yn creu ac yn hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi ac astudio yn y Gymraeg drwy weithio gyda cholegau addysg bellach, ysgolion, prifysgolion, darparwyr prentisiaethau a chyflogwyr. Ryn ni'n ysbrydoli ac yn annog pawb i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg.

Nod y Coleg yw adeiladu system addysg a hyfforddiant Cymraeg a dwyieithog sy'n agored i bawb ac i ddatblygu gweithluoedd dwyieithog, gan gynnwys y gweithlu addysg ei hun.

1. **Egwyddorion cyffredinol Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) a'r angen am ddeddfwriaeth i gyflawni'r bwriad polisi a nodir.**

1.1. Mae'r Coleg yn croesawu egwyddorion cyffredinol y Bil ac o'r farn bod deddfu'n hanfodol i gyflawni'r bwriadau polisi. Deddfu yn y modd hwn fydd yn sicrhau bod y bwriadau polisi'n flaenoriaeth i'r holl randdeiliaid perthnasol, ac yn gosod sail ar gyfer y math o gydweithio fydd yn angenrheidiol i sicrhau llwyddiant. Tu hwnt i'r ddeddfwriaeth, bydd angen sicrhau cyllid digonol a dulliau o gydweithio sy'n ennyn brwdfrydedd ac ewyllys da.

1.2. **Rhan 1: Hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg:** Croesawn yn fawr bod y Bil yn gosod nifer o elfennau o Strategaeth y Gymraeg ar sail statudol, gan gynnwys y targed o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050, a'r gofyniad i bennu targedau ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ac yn gymdeithasol. Rydym o'r farn y bydd rhoi sail statudol i'r darpariaethau hyn yn yriant sylweddol ac anhepgor ar gyfer gweithredu ar lefel leol a chenedlaethol. Yn yr un modd croesawn yr egwyddor o bennu targedau ar gyfer cynyddu'r ddarpariaeth o addysg Gymraeg a chynyddu nifer y bobl sy'n dysgu Cymraeg, a'r pwyslais a roddir ar drosglwyddiad y Gymraeg. Cytunwn fod pennu meini prawf i fesur cynnydd, yn ogystal â gosod trefniadau adrodd clir yn eu lle, yn angenrheidiol.

1.3. Cytuna'r Coleg yn gryf â'r rôl gryfach a bennir yn y Bil i Gomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â Strategaeth y Gymraeg. Cefnogwn yn ogystal y gofyniad i adolygu Safonau'r Gymraeg er mwyn harneisio potensial eu grym sylweddol at ddiben cyflawni nodau polisi'r Bil, ac yn arbennig felly ar sail y Cod arfaethedig i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg.

1.4. **Rhan 2: Disgrifio gallu yn y Gymraeg:** Gwelwn botensial aruthrol i'r bwriad arloesol o greu Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg wedi'i seilio ar y Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd (CEFR). Mae'r Coleg o'r farn y byddai cod o'r fath yn creu cysondeb fyddai'n gosod sail gadarn ar gyfer cynllunio ieithyddol ar draws sectorau gan gynnwys addysg statudol, ôl-orfodol a gweithluoedd, ac yn hwyluso cynllunio a chydweithio strategol i wireddu amcanion y Bil a Strategaeth y Gymraeg.

1.5. **Rhan 3: Addysg Gymraeg:** Gan fod y sector addysg i ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol yn gwbl ganolog i dwf yn nifer y siaradwyr ac i gynyddu'r defnydd o'r iaith – oddi fewn i'r sector ac ymhell tu hwnt - croesawn y ffaith fod y Bil yn rhoi sail statudol ar gyfer mecanweithiau i gynllunio a mesur cynnydd yn y sector. Cytunwn gyda'r egwyddor o ddynodi categori iaith i bob ysgol, a bod hynny'n rhoi sail ar gyfer gofynion cynllunio statudol ar lefel ysgol (cynlluniau cyflawni) ac ar lefel awdurdod lleol (cynlluniau strategol lleol, yn Rhan 4) gan gynnwys y gofyniad i ddarparu ac annog y galw am addysg drochi hwyr. Er ein bod ni'n cefnogi egwyddorion cyffredinol y Rhan hon o'r Bil, mae gennym rai sylwadau mwy penodol islaw yn adran 3 ac adrannau 4.3-4.4.

1.6. **Rhan 4: Cynllunio Addysg a Dysgu Cymraeg:** Cytuna'r Coleg â'r gofyniad i Weinidogion Cymru lunio Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg fel cerbyd ar gyfer cynllunio a sicrhau cynnydd dros amser, gan gynnwys trwy osod targedau ar gyrff eraill a monitro cyflawniad yn erbyn y targedau hynny, ac adrodd yn gyhoeddus arnynt.

1.7. Fodd bynnag, mae un mater o egwyddor gyffredinol sy'n destun pryder sylweddol i'r Coleg sy'n ymwneud â chwmpas y Fframwaith Cenedlaethol.

1.8. Ar hyn o bryd, cyfeiriadau anuniongyrchol a geir yn Rhan 4 y Bil at addysg drydyddol yng nghyd-destun y Fframwaith Cenedlaethol:

- 23(3)(e)(ii) a 28(2)(d)(ii) mewn perthynas ag annog dilyniant o ran addysgu Cymraeg ac addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer disgyblion o oedran ysgol gorfodol
- 23(4)(c) mewn perthynas â 'dysgu Cymraeg' yn y sector; rydym yn dehongli 'dysgu Cymraeg' fel dysgu sgiliau ieithyddol Cymraeg, ac nid addysg drwy gyfrwng y Gymraeg

1.9. Nid oes cyfeiriad uniongyrchol felly yn y Bil ar hyn o bryd at addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn perthynas â'r Fframwaith Cenedlaethol. Mae Estyn, yn eu tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor, wedi dweud "Ar wahân i'r dyletswydd i ymgysylltu â Medr ar y fframwaith, nid oes digon o eglurdeb sut mae'r fframwaith a'r dyletswyddau eraill yn y Bil yn cyd-fynd gyda dyletswyddau Medr..." [1].

1.10. Deallwn mai bwriad polisi Llywodraeth Cymru yw bod addysg drydyddol yn dod dan gwmpas y Fframwaith Cenedlaethol. Byddai'r Coleg yn croesawu'r bwriad polisi

---

[1] https://busnes.senedd.cymru/documents/s153928/Papur%206%20Estyn.pdf

hwn, ond nid yw Rhan 4 y Bil, na'r Memorandwm Esboniadol, yn darparu'n glir ar gyfer hynny ar hyn o bryd. Yn sgil hynny, rydym o'r farn bod cyfle hollbwysig yn cael ei golli i sicrhau fframwaith cynllunio a gweithredu strategol cyfannol a fyddai'n hwyluso llwybrau dilyniant i ddysgwyr.

1.11. Byddai ymestyn y diffiniad o 'addysg Gymraeg' yn adran 35 i gynnwys addysg drydyddol yn sicrhau bod y bwriad polisi, a'r cyfrifoldebau a disgwyliadau dilynol, yn gwbl glir.

1.12. O gadarnhau bod addysg drydyddol o fewn cwmpas y Fframwaith Cenedlaethol, byddai'n synhwyrol i ychwanegu'r Coleg at y rhestr o gyrff y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â nhw wrth lunio neu ddiwygio'r Fframwaith, yn adran 26(1).

1.13. Ymhellach i hynny, mae adran 23(3)(e)(ii) yn cyfeirio'n benodol at 'annog dilyniant'. Ni fydd anogaeth o'r fath yn ddigonol yn ei hun, heb fodolaeth llwybrau dilyniant addas. Gallai'r Bil wneud darpariaeth i leihau'r risg o ddiffyg llwybrau dilyniant trwy addasu'r cymal i gyfeirio at 'annog **a chynnal** dilyniant'. Mae'r Coleg o'r farn y byddai hynny'n debygol o arwain at gynllunio strategol fyddai'n canolbwyntio ar sicrhau llwybrau dilyniant priodol.

1.14. **Rhan 5: Yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol:** Cytuna'r Coleg ag egwyddorion sylfaenol y Rhan hon o'r Bil.

1.15. Byddai datrys y mater rydym wedi'i godi ynghylch y diffiniad o 'addysg Gymraeg' yn Rhan 4 y Bil yn osgoi unrhyw amwysedd posib ynghylch cylchoedd gwaith ac yn gosod sail ar gyfer cydweithio effeithiol rhwng Medr, y Coleg a'r Athrofa.

2. **Oes unrhyw rwystrau posibl i weithredu darpariaethau'r Bil ac a yw'r Bil yn eu hystyried?**

2.1. Gwela'r Coleg y potensial i gryfhau'r Bil mewn ffordd fyddai'n helpu i osgoi rhai rhwystrau amlwg, a chynyddu'r tebygolrwydd o wireddu'r amcanion polisi.

2.2. **Y gweithlu addysg:** Wrth ymateb i'r Papur Gwyn, nododd y Coleg (a nifer sylweddol o randdeiliaid allweddol eraill) ei bryderon ynghylch y graddau y mae uchelgais clodwiw y Bil yn ddibynnol ar sicrhau gweithlu addysg digonol. Gwyddom gymaint o her yw hynny ar hyn o bryd, ac er mwyn gwireddu'r uchelgais, bydd angen cyflenwad mwy fyth.

2.3. Rydym yn cydnabod y rôl bwysig mae'r Bil yn ei roi i'r Athrofa mewn perthynas â 'datblygu'r gweithlu addysg at ddiben gwella dulliau addysgu'r Gymraeg' a 'darparu cyfleoedd i ddysgu Cymraeg i'r gweithlu addysg'. Mae hynny'n gwbl hanfodol, ond nid yw'n ddigon ynddo'i hun; mae materion ehangach sydd angen ystyriaeth.

2.4. Mae'r Coleg yn ategu barn Comisiynydd y Gymraeg yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor "y gellid mynegi'r flaenoriaeth hon yn gliriach drwy osod dyletswydd yn y Bil ar

Weinidogion Cymru i lunio a chyhoeddi Cynllun Gweithlu Addysg Gymraeg fel rhan o'r Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg a Dysgu Cymraeg."[2]

**3. Priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth**

3.1. Mae gennym bryder ynghylch un maes penodol, sef categorïau iaith ysgolion. Amlinella'r Bil y tri chategori iaith arfaethedig [9(2)], gan roi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i 'bennu'r swm o addysg Gymraeg a ddarperir ar gyfer pob categori iaith, gan gynnwys isafswm o ddarpariaeth addysg Gymraeg' [10(1)].

3.2. Mae'r Coleg yn cytuno mai'r lle priodol ar gyfer manylder y categorïau yw mewn rheoliadau, ac rydym yn cydnabod bod y Bil yn gwneud rhai darpariaethau ynghylch y categorïau a fydd yn helpu i siapio gwaith y Gweinidogion wrth lunio'r rheoliadau (e.e. gosod 'nodau dysgu' Cymraeg fesul categori).

3.3. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod y pŵer i wneud rheoliadau yn y maes hwn yn rhy benagored.

3.4. Yn gyntaf, awgrymwn fod angen datgan yn glir ar wyneb y Bil bod y 'swm o ddarpariaeth addysg Gymraeg sydd i'w ddarparu yn yr ysgol' yn berthnasol i bob disgybl o fewn yr ystod berthnasol (disgyblion o oedran ysgol gorfodol, o fewn blynyddoedd ysgol perthnasol, ac, mewn ysgolion dwy ffrwd, o fewn y ffrwd a ddynodir i'r categori iaith dan sylw). Mae angen osgoi bod modd i'r 'swm o ddarpariaeth addysg Gymraeg' fod yn gyfartaledd ar draws carfannau o fewn yr ysgol ble mae rhai â swm uwch o ddarpariaeth, ac eraill â swm is. Os oes symiau gwahanol o ddarpariaeth ar gyfer gwahanol garfannau o fewn yr ysgol, bydd angen eu dynodi dan gategorïau gwahanol.

3.5. Yn ail, byddai risg i amcanion polisi'r Bil petai'r rheoliadau'n methu â diffinio'n ddigon clir, mewn perthynas â'r categori 'Prif Iaith – Cymraeg', yr hyn sy'n cyfateb ar hyn o bryd i gategori 3P ble mae disgyblion yn dilyn o leiaf 90% o'r meysydd dysgu a phrofiad a gweithgareddau ysgol y tu allan i'r dosbarth yn y Gymraeg. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod rôl hanfodol addysg 'cyfrwng Cymraeg' ar gyfer cynhyrchu siaradwyr Cymraeg, o bob cefndir, sy'n hyderus i ddefnyddio'r iaith mewn amryw o gyd-destunau (gan gynnwys llwybrau dilyniant trwy addysg drydyddol i weithluoedd).

3.6. Ni fyddem am weld diffyg eglurder ar wyneb y Bil yn arwain at reoliadau a allai ganiatáu gwanhau'r diffiniad o addysg cyfrwng Cymraeg, a allai yn ei dro danseilio gallu'r system addysg i gyrraedd y targedau a osodir drwy'r Fframwaith Cenedlaethol.

**4. A oes canlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil?**

4.1. Mae'r Coleg yn bryderus am ganlyniadau anfwriadol posib mewn tri maes:

- Addysg drydyddol

---

[2] https://busnes.senedd.cymru/documents/s153711/Papur%201%20Comisiynydd%20y%20Gymraeg.pdf

- Gwarchod addysg cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion
- Y Gymraeg fel pwnc academaidd

4.2. **Addysg drydyddol:** Gallai'r aneglurder rydym wedi'i amlygu uchod (1.8-1.11) ynghylch diffiniad a pherthnasedd y sector drydyddol yn Rhan 4 y Bil arwain at ganlyniadau anfwriadol megis amwysedd a chamddealltwriaeth ynghylch cyfrifoldebau, a cholli cyfleoedd i sicrhau cynllunio strategol cyfannol fyddai'n gosod y sail ar gyfer llwybrau dilyniant i ddysgwyr.

4.3. **Gwarchod addysg cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion:** Mae bwriad y Bil i symud holl ysgolion Cymru ar hyd continwwm ieithyddol yn glir ac i'w groesawu'n fawr; dyma'r unig ffordd o sicrhau y caiff pob disgybl yng Nghymru y cyfle i ddod yn ddefnyddiwr Cymraeg annibynnol neu hyfedr, dros amser.

4.4. Fodd bynnag mae gennym bryder y gallai'r diffyg gwahaniaethu mewn rhai mannau yn y Bil rhwng 'addysg cyfrwng Cymraeg' ac 'addysgu'r Gymraeg' (fel 'ail iaith') arwain at ddiffyg ffocws ar warchod a chynyddu 'addysg cyfrwng Cymraeg', sydd mor hanfodol ar gyfer gwireddu amcanion strategaeth Cymraeg 2050, a'r Bil ei hun. Rhaid i'r Bil fod yn gwbl glir yn hyn o beth er mwyn rhoi'r sail i'r Fframwaith osod targedau clir, diamwys. Byddai unrhyw leihad yn nifer y disgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn peryglu llwybrau dilyniant trwy addysg drydyddol ac i weithluoedd dwyieithog yn y pen draw.

4.5. **Y Gymraeg fel pwnc academaidd:** elfen arall o'r Bil a allai arwain at ganlyniadau anfwriadol, ac at golli cyfleoedd pwysig, yn sgil diffyg eglurder, yw mewn perthynas â'r Gymraeg fel pwnc academaidd (e.e. TGAU, Safon Uwch, gradd yn y Gymraeg).

4.6. Mae'r Coleg o'r farn bod angen sylw penodol yn y Bil, ac oddi fewn i'r Fframwaith Cenedlaethol, i'r Gymraeg fel pwnc academaidd, yn enwedig ar gyfer dysgwyr sydd tu hwnt i oedran ysgol gorfodol, ac nad yw hynny'n bosib ar hyn o bryd, am nad oes modd ei wahaniaethu oddi wrth y categorïau a restrir yn 23(1)(a)-(c).

4.7. Mae astudio'r Gymraeg fel pwnc yn angenrheidiol ond yn annigonol i greu defnyddwyr Cymraeg annibynnol (B2). Rhaid atgyfnerthu astudio'r Gymraeg fel pwnc gyda phrofiadau dysgu cyfrwng Cymraeg mewn meysydd dysgu eraill. Byddai gwahaniaethu yn y Fframwaith rhwng addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg yn y Gymraeg fel pwnc yn caniatáu creu liferi a mesuryddion er mwyn sicrhau bod y 'swm o addysg Gymraeg a ddarperir' mewn ysgol yn ddigon dwfn ac eang i greu defnyddwyr sy'n gallu defnyddio'r iaith tu hwnt i'r dosbarth Cymraeg.

4.8. Er bod y Gymraeg yn rhan fandadol o'r cwricwlwm ar gyfer pob blwyddyn ysgol yn y cyfnod statudol gan gynnwys Blynyddoedd 10 ac 11, mae patrwm y ddarpariaeth ôl-16 yn eithriadol o fregus. Gwyddom y gall fod yn heriol darbwyllo dysgwyr i astudio'r pwnc, a hynny am amryw o resymau; ond hyd yn oed pan mae grŵp o ddysgwyr yn awyddus i wneud, nid yw'r ddarpariaeth o reidrwydd ar gael.

4.9. Addysg yn y Gymraeg fel pwnc academaidd yw'r prif fodd o greu defnyddwyr hyfedr (C1 a C2). Yn ymarferol, dim ond drwy ddiogelu a hybu Safon Uwch Cymraeg (Iaith Gyntaf ac Ail Iaith) mae creu gweithluoedd sylweddol sydd â sgiliau uwch (C1 neu C2) yn y Gymraeg, yn enwedig athrawon all ddysgu Cymraeg neu drwy gyfrwng y Gymraeg a thiwtoriaid Cymraeg. Mae cynyddu'r gweithluoedd hyn yn allweddol er mwyn cyflawni amcanion y Bil.

4.10. Rydym o'r farn y gallai bod manteision sylweddol felly i gyfeirio at y Gymraeg fel pwnc academaidd fel un o'r categorïau yn adran 23(1) fel y meysydd y bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw iddynt yn y Fframwaith Cenedlaethol, yng nghyd-destun strategaeth y Gymraeg.

# Eitem 3

**Cyflwynwyd yr ymateb hwn i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)**

**This response was submitted to the Children, Young People and Education Committee on the Welsh Language and Education (Wales) Bill**

**WLE 18**
**Ymateb gan: Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr)**
**Response from: Commission for Tertiary Education and Research (Medr)**

## Ymateb Medr i'r ymgynghoriad

### 1. Medr – pwy ydym ni

1.1 Daeth y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr), fel y'i cyflwynwyd gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (y Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil), yn weithredol ar 1 Awst 2024. Mae Medr yn gyfrifol am gyllido a rheoleiddio darparwyr addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru. Rydym yn cyllido ac yn rheoleiddio darparwyr prentisiaethau, Colegau addysg bellach, awdurdodau lleol a Phrifysgolion, gan oruchwylio dysgu oedolion yn y gymuned, prentisiaethau, addysg bellach, addysg uwch a darpariaeth chweched dosbarth a gynhelir gan awdurdodau lleol.

1.2 Wrth gyflawni ein dyletswyddau cyllido a rheoleiddio, rhaid i ni ystyried un ar ddeg o ddyletswyddau strategol a nodir yn y Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

- Hybu dysgu gydol oes
- Hybu cyfle cyfartal
- Annog cyfranogiad mewn addysg drydyddol
- Hybu gwelliant parhaus mewn addysg drydyddol
- Hybu gwaith ymchwil ac arloesi
- Hybu cydlafurio a chydlynu mewn addysg drydyddol ac ymchwil
- Cyfrannu at economi gynaliadwy ac arloesol
- Hybu addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg
- Hybu cenhadaeth ddinesig
- Hybu golwg fyd-eang
- Hybu cydlafurio rhwng darparwyr addysg drydyddol ac undebau llafur

1.3 Ar hyn o bryd rydym yn ymgynghori ynghylch ein cynllun strategol drafft[1]. Mae'r cynllun yn disgrifio ein nodau strategol, sy'n ystyried y dyletswyddau strategol uchod. Un o'r nodau strategol yr ydym yn ymgynghori yn eu cylch yw "**Hybu mwy o ddefnydd o'r Gymraeg, gan gynyddu'r galw am a chyfranogiad mewn dysgu ac asesu trwy gyfrwng y Gymraeg".** Wrth gyflawni mewn perthynas â'r nod strategol hwn, a ategir gan ein hysgogiadau cyllido a rheoleiddio newydd, rydym yn ymrwymedig i gwrdd â'r uchelgeisiau polisi y mae Bil y Gymraeg ac Addysg yn amcanu at eu galluogi. Rhywbeth sy'n ganolog i gyrraedd ein nod strategol yw'r ymrwymiad, gan weithio gyda

[1] Mae hwn i'w gael ar ein gwefan Cynllun Strategol Medr 2024

rhanddeiliaid eraill, i ddatblygu cynllun cenedlaethol ar gyfer addysg drydyddol, gan ymateb i'r flaenoriaeth strategol ganlynol gan Lywodraeth Cymru[2]:

"Datblygu cynllun i gynyddu a gwella'r ddarpariaeth addysg ac asesu cyfrwng Cymraeg yn y system drydyddol gyfan, a'i hyrwyddo, gan gydnabod rôl y Coleg Cymraeg Cenedlaethol fel y person dynodedig o dan Adran 9 o Ddeddf 2022 a Cymwysterau Cymru fel y rheoleiddiwr cymwysterau annibynnol. Mae hyn yn rhan allweddol o'r llwybr di-dor i ddysgwyr at yr addysg drydyddol o'u dewis".

## 2. Trosolwg

2.1 Rydym yn cefnogi'r uchelgeisiau beiddgar a nodir gan y Llywodraeth yn Cymraeg 2050 i gyrraedd y targed i greu miliwn o siaradwyr. Mae gan addysg, yn ei chyfanrwydd (addysg y blynyddoedd cynnar, orfodol a thrydyddol), rôl arwyddocaol o ran cynorthwyo'r Llywodraeth i gyrraedd y targed hwn a sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu a bod cymunedau Cymraeg yn cael eu cefnogi a'u cryfhau.

2.2 Mae'r Bil, fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, yn mynd gryn dipyn o'r ffordd i alluogi uchelgais Llywodraeth Cymru yn Cymraeg 2050, ond ein barn ni yw y gellir gwneud rhai gwelliannau cyffredinol yn y meysydd lefel uchel a nodir isod. Dylai'r gwelliannau hyn sicrhau bod y Bil yn darparu mwy o eglurder ynghylch rolau gwahanol sefydliadau, yn enwedig gan adlewyrchu rôl Medr a sut y mae'r Bil yn ffitio yn y system addysg drydyddol ehangach. Bydd defnyddio diffiniadau mwy eglur sy'n adlewyrchu'r gwahaniaethau rhwng dysgu Cymraeg, Cymraeg fel pwnc ynddo'i hun, a dysgu a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog yn helpu i ddarparu eglurder a chyfeiriad defnyddiol ar gyfer yr holl randdeiliaid. Mae angen bod yn gliriach hefyd ynglŷn â goblygiadau ariannol y newid sy'n ofynnol, yn enwedig mewn perthynas â'r gweithlu a chost y ddarpariaeth.

Eglurder ynghylch rolau sefydliadau

2.3 Rydym yn deall mai'r bwriad polisi yw adlewyrchu trefniadau cyfredol ac, yng nghyd-destun addysg drydyddol, canolbwyntio ar gynyddu nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg a gwella gallu pobl i siarad Cymraeg. Fodd bynnag, ein barn ni yw nad yw rolau rhai sefydliadau yn y sector addysg drydyddol, yn enwedig Medr a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, wedi'u disgrifio'n glir yn y Bil nac yn y memorandwm esboniadol. Er ein bod yn cydnabod mai cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw gosod polisi lefel uchel, mae diffyg cyfeiriad eglur at rôl Medr yn creu peth amwysedd o ran sut y bydd y fframwaith cenedlaethol yn cael ei ddatblygu. Hefyd, bydd eglurder ynghylch rôl yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol newydd yn cael ei gryfhau trwy gyfeirio at sut y bydd yn gweithredu mewn addysg drydyddol ochr yn ochr â Medr a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

[2] Fel a nodir ar wefan Llywodraeth Cymru
Datganiad o flaenoriaethau strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil ac arloesi [HTML] | LLYW.CYMRU

2.4 Gwneir y sylwadau hyn yng nghyd-destun sicrhau cydlyniant ac eglurder i'r rhai sy'n gweithredu yn y system addysg drydyddol. Sefydlwyd Medr yn dilyn argymhellion yn Adolygiad Hazelkorn[3], a amlygodd y potensial i wella cydlyniant ar draws y sector addysg drydyddol yng Nghymru. Gallai'r Bil, fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, gael ei wella trwy gynnwys mwy o ffocws ar fanteision ymarferol cydlyniant yn y sector trydyddol, gan gynnwys darpariaeth Gymraeg, i ddysgwyr. Gallai'r newidiadau a gynigir yn y Bil hwn arwain at fwy o alwadau ar ddarparwyr addysg drydyddol ac, oni bai ei fod yn cael ei ddeall a'i ystyried yn iawn yng nghyd-destun y system gyfan, gallai hyn gael effaith negyddol ar gyrraedd y nodau datganedig, neu ar y deilliannau ar gyfer y dysgwr.

<u>Angen am ddiffiniadau mwy eglur</u>

2.5 Gellid gwneud gwelliannau pellach hefyd trwy ddatrys peth o'r amwysedd yn yr iaith a ddefnyddir drwy'r Bil i gyd. Rydym yn cydnabod bod angen i Medru roi mwy o sylw i'r iaith y mae'n ei defnyddio yn y maes hwn hefyd. O'n safbwynt ni, mae'r amwysedd hwnnw'n cael ei amlygu'n bennaf drwy'r Bil wrth gyfeirio at y mathau o ddysgu a allai berthyn i'r diffiniad o ddysgu Cymraeg, Cymraeg fel pwnc ynddo'i hun, a dysgu a gyflwynir trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Hefyd, mae angen iddo fod yn glir lle gall fod angen term sy'n cwmpasu popeth. Mae cynyddu niferoedd y bobl sy'n dysgu sgiliau Cymraeg, yn astudio Cymraeg fel pwnc ynddo'i hun, ac yn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn hollbwysig i greu miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Dylai datrys yr amwysedd hwn, ochr yn ochr â disgrifiadau pellach o sefydliadau eraill a'u rolau a'u cyfrifoldebau yn y maes polisi hwn, helpu i wneud y trefniadau'n fwy eglur.

2.6 Yn y maes hwn, rydym ni'n meddwl bod gan y Bil gyfle i wella eglurder y diffiniadau a ddefnyddir ar gyfer y sector cyfan. Mae'n debygol mai'r termau a'r diffiniadau a ddefnyddir yn y Bil hwn fydd yr iaith a fabwysiedir ar gyfer yr holl sefydliadau hynny y mae'n effeithio arnynt, wrth iddynt geisio dangos eu bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Os yw'r termau a'r diffiniadau yn y ddeddfwriaeth yn eglur ac yn adnabyddadwy, yna gall fod yn haws i sefydliadau sy'n allweddol i gyflawni'r trawsnewid hwn gyfleu'r newid yn effeithiol a gwireddu ein huchelgeisiau cyfunol. Rydym ni'n meddwl y dylai diffiniadau gwell a mwy eglur, y gellir eu deall yn eang, gael eu datblygu trwy drafodaethau rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol wrth i'r Bil hwn ddatblygu.

<u>Eglurder ynghylch adnoddau</u>

2.7 I wireddu dyheadau Llywodraeth Cymru yn Cymraeg 2050, rydym yn cydnabod y newid sylweddol sy'n ofynnol ar draws y Llywodraeth, cyrff cyhoeddus, sefydliadau addysg a chymdeithas yn ei chyfanrwydd. Mae hyn

[3] Mae hwn i'w gael yma ar wefan Llywodraeth Cymru https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/tuag-at-2030-fframwaith-ar-gyfer-datblygu-system-addysg-ol-orfodol-or-radd-flaenaf-i-gymru.pdf

yn galw am gydweithio ac arweinyddiaeth gref yr ydym ni, yn Medr, yn ymrwymedig i'w darparu yn y sector addysg drydyddol. Fodd bynnag, mae angen i ni i gyd gydnabod y bydd diwygio sylfaenol a chynyddu perfformiad yn sylweddol yn gryn her gyda'r cyfyngiadau ariannol cyfredol a chyllidebau sy'n gryn her. Bydd yn rhaid wrth sgyrsiau gonest, tryloyw i dargedu cyllid lle gall yr uchelgeisiau hyn gael eu gwireddu'n fwyaf effeithiol, gan ystyried heriau eraill y mae'n rhaid i ni, ar draws y system addysg yng Nghymru, fynd i'r afael â hwy ar frys, gan gynnwys gwella cyfranogiad, tegwch a lleihau anfantais gymdeithasol ledled Cymru.

2.8 Rhaid i ni i gyd fod yn ymwybodol mai dim ond gan weithlu â digon o adnoddau ac wedi'i uwchsgilio'n ddigonol ar draws y system addysg gyfan yng Nghymru y gall y diwygiadau hyn gael eu cyflawni. Mae hynny hefyd yn cynnwys bod â digon o gapasiti ar gyfer ymchwil trwy gyfrwng y Gymraeg, sy'n hollbwysig i gefnogi gweithlu gwybodus sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Nid yw'r gofynion o ran y gweithlu i gyflawni'r newid hwn yn cael eu cydnabod ddigon yn y Bil o ran y goblygiadau ariannol. Wrth graffu ar y Bil yn ystod gwahanol gyfnodau proses y Senedd, mae angen cydnabod hyn.

## 3. Egwyddorion Cyffredinol Bil y Gymraeg ac Addysg

Rhan Un – Hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg

3.1 Fel yr ydym wedi dweud, rydym yn cefnogi'r Bil, ac yn cydnabod y rhesymeg polisi dros gynnwys y targed ar gyfer miliwn o siaradwyr ar sylfaen statudol, ochr yn ochr â gosod rhai targedau mwy penodol yn Adran 1 o'r Bil. Wrth i ni gymryd camau ar y cyd i wireddu uchelgais y strategaeth, mae angen sicrhau nad yw'r deilliannau polisi bwriadedig yn cael eu gweld o safbwynt targedau yn unig. Bydd angen dull mwy cynnil i daro cydbwysedd rhwng monitro cynnydd i gyrraedd y targedau ar y naill law a chymorth parhaus i'r rhai sy'n cymryd pob cam rhesymol i gyrraedd targedau ond a hwythau'n peidio â'u cyrraedd o bosibl ar y llaw arall. Os oes bwriad i osod targedau ar gyfer darparwyr addysg drydyddol yna Medr, gan ddefnyddio'i ysgogiadau rheoleiddio a chyllido, ddylai osod y targedau hyn.

3.2 Rydym yn cydnabod, gyda deddfwriaeth mor arwyddocaol, bod angen rhoi mesurau priodol ar waith i alluogi Comisiynydd y Gymraeg i ddefnyddio'i bwerau i gefnogi uchelgais y Bil. Mae'r diwygiadau i safonau a gynigir yn y Bil i'w gweld yn gymesur i'r perwyl hwnnw. Mae'n bwysig cydnabod hefyd, serch hynny, nad Safonau eu hunain yw'r unig erfyn i gynorthwyo'r Comisiynydd i gyflawni'r bwriad polisi yn y Bil hwn. Mae'r camau diweddar gan y Comisiynydd i ddatblygu dull cyd-reoleiddio a phennu deilliannau rheoleiddiol, yr ydym yn eu cefnogi, yn un enghraifft o hyn.

Rhan Dau – Disgrifio Gallu yn y Gymraeg

3.3 Bydd sefydlu'r cysyniad o wahanol fathau o ddefnyddwyr y Gymraeg yn ddatblygiad arwyddocaol i ddarparwyr addysg drydyddol, wrth iddynt gynnwys lefelau cyfeirio cyffredin yn eu rhaglenni astudio a'u polisïau recriwtio eu hunain. Byddwn yn gweithio gyda darparwyr addysg drydyddol, a phartneriaid

allweddol eraill, i archwilio'r ffordd fwyaf effeithiol i lefelau cyfeirio cyffredin gael eu defnyddio ar draws addysg drydyddol yng Nghymru. Byddwn hefyd yn gweithio gyda chyrff cyhoeddus eraill i wneud y lefelau hynny'n rhan o'n polisïau recriwtio.

Rhan Tri – Addysg Gymraeg

3.4 Rydym yn cefnogi'r mesurau a gymerir yn Rhan Tri o'r Bil. Fodd bynnag, rydym yn teimlo nad oes digon o gydnabyddiaeth i'n rôl gynllunio mewn addysg drydyddol ac fel cyllidwr darpariaeth chweched dosbarth mewn ysgolion. Mae chweched dosbarth mewn ysgolion yn hollbwysig i ddarparu addysg Gymraeg a sicrhau bod yr iaith yn ffynnu. Fodd bynnag, ni ellir gwahanu'r lleoliadau chweched dosbarth hynny oddi wrth swyddogaeth ysgol ar y cyfan ac mae defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar ysgolion lle mae darpariaeth addysg Gymraeg yn y cwestiwn, sef y dull cywir, heb gydnabod dyletswyddau Medr mewn perthynas â darpariaeth chweched dosbarth yn creu risg o gynyddu anghydlyniant. I liniaru hyn, rydym ni'n argymell bod y memorandwm esboniadol yn amlygu pan fo ysgol, sydd â chweched dosbarth, yn paratoi cynllun cyflawni addysg Gymraeg, bod rhaid iddi ystyried gofynion rheoleiddiol Medr, yn enwedig fel a nodir yn y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr.

Rhan Pedwar – Fframwaith Cenedlaethol

3.5 Mae gan Medr rôl cynllunio strategol fel cyllidwr a rheoleiddiwr addysg drydyddol yng Nghymru. Mae dyletswydd arnom i gyflawni ein cyfrifoldebau deddfwriaethol, a nodir i raddau helaeth yn y Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil, ac i ystyried blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn ein cynllun strategol. Rhan o'n rôl yw sicrhau, pan ydym yn nodi trefniadau cyllido a rheoleiddio ar gyfer addysg drydyddol, ein bod yn gwneud hynny gydag ymwybyddiaeth o drefniadau y mae Llywodraeth Cymru'n eu rhoi ar waith ar gyfer addysg orfodol. Mae hyn yn hollbwysig i alluogi dysgwyr i gamu ymlaen o addysg orfodol i addysg drydyddol. Mae dod â'r trefniadau ar gyfer addysg orfodol a dysgu Cymraeg ynghyd mewn un fframwaith yn rhoi'r cyfle i Medr ddatblygu cynllun cenedlaethol ategol ar gyfer addysg drydyddol lle mae ganddo oruchwyliaeth glir ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg a Chymraeg fel pwnc. Fodd bynnag, er ein bod yn deall mai bwriad y fframwaith yw cwmpasu rôl dysgu Cymraeg mewn addysg drydyddol yn unig, rydym yn teimlo y gellid cryfhau'r Bil i sicrhau eglurder. Wrth i ni fwrw ymlaen â'n hymrwymiad strategol i ddatblygu cynllun cenedlaethol, rydym mewn deialog weithredol gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i weithio trwy unrhyw gyd-ddibyniaethau â'r fframwaith cenedlaethol arfaethedig.

3.6 Er bod y Bil yn diffinio sut y mae'r fframwaith yn ystyried addysg orfodol, nid yw'n datgan yn benodol sut y bydd y fframwaith yn ystyried addysg drydyddol, yn enwedig o ystyried na ddarperir diffiniad eglur ar gyfer dysgu Cymraeg. Mae'r diffyg diffiniad a diffyg cydnabyddiaeth benodol i rôl Medr yn y memorandwm esboniadol yn golygu y gellid darllen cyfeiriadau at y sector addysg drydyddol fel rhai sy'n awgrymu bod y fframwaith yn cwmpasu addysg cyfrwng Cymraeg a phynciau Cymraeg mewn addysg drydyddol nid dim ond

darpariaeth ‘dysgu Cymraeg’. Mae gan hyn yn arbennig y potensial i greu dryswch ac anghydlyniant yn y sector addysg drydyddol yng nghyd-destun y cyfeiriadau at addysg uwch fel a nodir yn adrannau 23 (3) a (4) y Bil, ac o ystyried bod Llywodraeth Cymru wedi pennu blaenoriaeth strategol i Medr ddatblygu cynllun i gynyddu a gwella'r ddarpariaeth addysg ac asesu cyfrwng Cymraeg yn y system drydyddol gyfan, a'i hyrwyddo. Ein hargymhelliad ni fyddai, yn y memorandwm esboniadol, bod rôl Medr yn cael ei disgrifio’n glir mewn perthynas â Chymraeg fel pwnc a darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg drydyddol a’i gwneud yn glir nad yw o fewn cwmpas fframwaith Llywodraeth Cymru. Bydd yr ychwanegiadau hyn yn darparu eglurder ynghylch y cyd-destun y bydd y fframwaith cenedlaethol hwn yn cael ei ddatblygu ynddo, a sut y bydd yn cael ei ddatblygu. Bydd hyn yn rhoi sicrwydd ynghylch y rolau a’r cyfrifoldebau i Medr, Llywodraeth Cymru, y sector addysg drydyddol a phartneriaid allweddol eraill megis y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fel y corff dynodedig i roi cyngor i Medr i hybu addysg drydyddol trwy gyfrwng y Gymraeg).

3.7 Gan gydnabod rôl Medr, dylai’r Bil gael ei ddiwygio hefyd i adlewyrchu, pan fo awdurdod lleol yn paratoi cynllun strategol Cymraeg mewn addysg, ei fod yn ymgynghori â Medr, a’i fod hefyd yn ystyried unrhyw gynigion ar gyfer ailstrwythuro darpariaeth chweched dosbarth yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

3.8 Rydym yn croesawu’r gofyniad y dylai cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg lleol gynnwys sefydliadau addysg bellach fel ymgyngoreion statudol. Dylai hyn hefyd gynnwys darparwyr addysg drydyddol eraill, gan gynnwys sefydliadau addysg uwch lleol, gan gyd-fynd ag ysgogydd mwy eglur y Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil ar gyfer mwy o gydweithio ar draws addysg yng Nghymru. Mae angen i brosesau cynllunio a rhannu gwybodaeth gael eu cydgysylltu'n well ar bob lefel yn y system addysg, gan gynnwys rhwng darparwyr addysg orfodol a thrydyddol, fel bod llwybrau mwy eglur yn cael eu datblygu ar draws addysg yng Nghymru gyda hynny’n cael ei oleuo gan sgiliau Cymraeg dysgwyr. Bydd hyn yn galluogi darparwyr addysg drydyddol nid yn unig i gynyddu a gwella addysg drydyddol ac ymchwil trwy gyfrwng y Gymraeg, a Chymraeg fel pwnc, ond hefyd i roi anogaeth i hybu’r Gymraeg yn fwy ar draws profiad trydyddol ehangach dysgwyr. Dylai’r ddarpariaeth yn y sector addysg drydyddol adeiladu ar sgiliau iaith a hyder ieithyddol presennol dysgwyr, yn ogystal â chreu siaradwyr Cymraeg newydd. Bydd yr angen hwn yn goleuo sut yr ydym yn cyflawni ymrwymiadau ein cynllun strategol ac yn datblygu ein system rheoleiddio a chyllido newydd.

<u>Rhan Pump – Yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol</u>

3.9 Rydym ni o’r farn bod y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn rhanddeiliad pwysig ac rydym yn trafod gyda hi sut y gallwn, ar y cyd, ddarparu eglurder i’r sector addysg drydyddol. Yn y dyfodol, byddwn yn trin yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol (yr Athrofa) yn yr un modd. Byddwn yn cydweithio’n agos i sicrhau: nad oes dyblygu rhwng ein cyllid ni a’i dyraniadau hi; nad oes baich gweinyddol ychwanegol ar ddarparwyr rhwng ein ceisiadau ni a cheisiadau’r Athrofa am ddata; bod gwybodaeth yn cael ei rhannu i alluogi

Medr a’r Athrofa i wneud penderfyniadau a oleuir gan dystiolaeth; a bod darparwyr addysg drydyddol yn gweithio gyda’r Athrofa i gynorthwyo dysgwyr i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.

3.10 Yn yr un cyd-destun â’n sylwadau uchod, ac o ystyried y cyfeiriadau at addysg drydyddol yn y rhan hon o’r Bil, mae’r diffyg cyfeiriad at rôl Medr a rôl y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ochr yn ochr â diffyg diffiniadau pellach ar gyfer dysgu Cymraeg a darparwyr dysgu Cymraeg, yn creu potensial pellach ar gyfer amwysedd. Rydym yn deall bod y Bil, fel y’i drafftiwyd, yn cyfeirio at ddysgu Cymraeg yn y rhan hon o’r Bil dim ond fel dysgu i wella sgiliau Cymraeg yn y sector addysg drydyddol. Ein hargymhelliad ni yw y byddai rhoi diffiniadau clir i egluro hyn mewn deddfwriaeth a rolau Medr, yr Athrofa a’r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn y memorandwm esboniadol, yn darparu cyd-destun defnyddiol i fframio’r dyletswyddau statudol newydd ar gyfer yr Athrofa.

3.11 Mae gennym ddyletswyddau cyffredinol yn adran 52 a 53 y Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil mewn perthynas ag ansawdd addysg drydyddol. Byddai cyflwyno’r Athrofa’n dod â hi o fewn cwmpas rhai o bwerau Medr ar gyfer ansawdd. Mae angen i eglurder o ran sut y bydd Llywodraeth Cymru, yr Athrofa, Medr ac Estyn (a fydd yn arolygu’r ddarpariaeth a gynigir gan yr Athrofa) yn gweithredu yn y cyd-destun hwnnw gael ei ystyried yn briodol. Rydym yn bwriadu trafod hyn ymhellach gyda phob parti i sicrhau bod trefniadau digon eglur ar gyfer yr holl sefydliadau o ran rolau a chyfrifoldebau, ac i sicrhau cydlyniant ar draws y sector addysg drydyddol gan alluogi deilliannau da ar gyfer dysgwyr.

3.12 Hefyd, mae angen i’r cynigion ar gyfer darparu pwerau i’r Athrofa mewn perthynas â chyfle cyfartal, gwella’n barhaus, a phennu fframweithiau ansawdd gael eu hystyried yn y cyd-destun bod y canolfannau sy’n cyflwyno’r ddarpariaeth ar gyfer dysgu Cymraeg yn rhan o ddarparwyr addysg drydyddol ehangach sy’n ddarostyngedig i ofynion Medr ar gyfer yr un materion. Ceir risg gyda’r Bil, fel y mae wedi’i ddrafftio, y gallai fod baich ychwanegol ar ddarparwyr os nad yw’r gofynion a osodir gan yr Athrofa a Medr yn cyd-fynd â’i gilydd. Mae Medr wedi’i nodi ar hyn o bryd fel ymgynghorai statudol pan fo’r Athrofa’n datblygu ei chynllun strategol, ond byddem hefyd yn disgwyl i’r Athrofa ystyried y gofynion a bennir gan Medr ar gyfer darparwyr addysg drydyddol wrth gyflawni eu dyletswyddau yn adrannau 39 a 40 y Bil. Gellid cyflawni hyn trwy roi dyletswydd mewn deddfwriaeth ar yr Athrofa, neu drwy ddisgwyliadau ynghylch ffyrdd o weithio, yn y memorandwm esboniadol.

3.13 Gallai fod gwelliannau i’r Bil hefyd trwy sicrhau bod ymgysylltu â dysgwyr yn ddyletswydd i’r Athrofa, gan ystyried y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr ehangach y bydd Medr yn ei ddatblygu i gyflawni’r dyletswyddau yn y Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil. Bydd hyn yn unol â’r egwyddor bod dysgwyr yn ganolog i’r system addysg drydyddol yng Nghymru.

## 4. Unrhyw rwystrau posibl i weithredu darpariaethau'r Bil ac a yw'r Bil yn eu hystyried (gan gynnwys cychwyn a Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig)

4.1 Nid oes unrhyw sylwadau gennym ar y mater hwn.

**5. Priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y nodir ym Mhennod 5 o Ran 1 o'r Memorandwm Esboniadol)**

5.1 Mae pwerau priodol yn cael eu cynnig i sicrhau bod y Senedd yn trafod newidiadau sylweddol a wneir trwy reoliadau. Fel a nodwyd uchod, byddai rhai o'r meysydd a allai fod o fewn cwmpas y rheoliadau'n croestorri rôl Medr ond dylai'r gwelliannau a awgrymir fynd i'r afael â hyn.

**6. Goblygiadau ariannol y Bil (fel y'u nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol).**

6.1 Fel yr ydym wedi'i nodi yn ein trosolwg, bydd angen buddsoddiad sylweddol i roi'r Bil ar waith yn llawn. Mae hyn yn cynnwys cydnabod cost gymharol uchel rhoi darpariaeth cyfrwng Cymraeg lle mae'r ddarpariaeth yn Saesneg gan mwyaf a lle mae angen buddsoddiad sylweddol i gynnal a thyfu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

6.2 Ceir hefyd heriau sylweddol mewn perthynas â bod â niferoedd digonol o staff addysgu sydd â'r sgiliau i ddarparu addysg a hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg. Ar hyn o bryd mae darparwyr addysg gychwynnol athrawon yn ei chael hi'n anodd recriwtio i'w niferoedd hyfforddeion cyfredol, sy'n dwyn goblygiadau ar gyfer argaeledd staff addysgu yn y dyfodol, y byddai'n eithriadol o anodd darparu mwy o addysg cyfrwng Cymraeg a honno'n ehangach ei hystod hebddynt.

6.3 Mae darparwyr addysg drydyddol dan bwysau ariannol sylweddol yn y cyd-destun cyfredol, a bydd cyflawni twf mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg heb adnoddau ychwanegol yn her eithriadol, ac mae'n risg i gyflawni'r Bil hwn ac i gyrraedd y targedau a nodir yn Cymraeg 2050.

**Cyflwynwyd yr ymateb hwn i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)**
**This response was submitted to the Children, Young People and Education Committee on the Welsh Language and Education (Wales) Bill**

**WLE 20**
**Ymateb gan: ColegauCymru**
**Response from: CollegesWales**

---

**Tystiolaeth ColegauCymru ar Fil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)**

Mae ColegauCymru yn elusen addysg; rydym yn hyrwyddo budd cyhoeddus addysg a dysgu ôl-orfodol. Fel y sefydliad sy'n cynrychioli holl golegau Cymru, rydym mewn sefyllfa dda i allu amlinellu i'r Pwyllgor farn y sector addysg bellach ar Fil y Gymraeg ac Addysg (Cymru).

Mae ColegauCymru yn cefnogi prif nod y Bil, sef sicrhau bod pob disgybl yn cyrraedd diwedd oedran ysgol orfodol fel defnyddwyr annibynnol y Gymraeg, er y byddem yn croesawu rhywfaint o eglurder ar ystod o bwyntiau a nodir yn y llythyr hwn. Mae'r ymateb wedi'i strwythuro ar sail Cylch Gorchwyl yr ymchwiliad.

**Hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg**
Mae'r Bil yn gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ac, er ein bod yn edmygu ac yn cefnogi uchelgais y Bil, mae ehangu addysg Gymraeg ar bob lefel yn ganolog i'w lwyddiant. Mae llwyddiant y Bil yn dibynnu ar recriwtio a datblygu athrawon, rhaglenni hygyrch a chymorth i deuluoedd di-Gymraeg, a bydd angen buddsoddiad gan y llywodraeth ar bob un ohonynt. Gallai fod angen gweithgareddau ymgysylltu cymunedol sylweddol i sicrhau lefel uchel o ymrwymiad, yn enwedig mewn ardaloedd â niferoedd is o siaradwyr Cymraeg. Mae magu hyder yn sgiliau iaith Gymraeg dysgwyr yn hanfodol i'w dilyniant i'r cam nesaf o'u dysgu neu waith drwy gyfrwng y Gymraeg a dylid annog hyn yn ffurfiol (er enghraifft, drwy'r cwricwlwm), ac yn anffurfiol (er enghraifft, drwy weithgareddau allgyrsiol).

**Disgrifio gallu yn y Gymraeg**
Cred ColegauCymru y bydd integreiddio hyfedredd yn y Gymraeg gyda'r Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd (CEFR) yn helpu i sicrhau cysondeb a hygrededd. Byddai'r safoni hwn yn caniatáu ar gyfer cymariaethau clir rhwng y Gymraeg ac ieithoedd eraill. Ymhellach, cytunwn fod datblygu Cod wedi'i deilwra ar gyfer hyfedredd yn y Gymraeg yn darparu canllawiau manwl penodol i'r Gymraeg, gan roi sylw i'w chyd-destun ieithyddol a diwylliannol unigryw. Wrth i feincnodau gael eu datblygu a'u sefydlu, mae'n bwysig rhoi sylw dyledus i asesu, gan sicrhau bod asesiadau'n deg, yn gynhwysol ac yn hygyrch i fyfyrwyr o ystod amrywiol o gefndiroedd.

**Addysg Gymraeg**
Er ein bod yn cydnabod amrywiaeth o agweddau cadarnhaol, gan gynnwys strwythurau clir ar gyfer atebolrwydd am gyflwyno addysg Gymraeg yn seiliedig ar ddosbarthiad, a gwella cynhwysiant a mynediad ehangach at ddysgu Cymraeg, mae sawl pryder posibl. Mae llwyddiant y Bil yn dibynnu ar: y gweithlu - o ran recriwtio, hyfforddi ac adnoddau; yn ogystal ag amserlenni gweithredu, yn enwedig mewn ardaloedd ymhle mae'r nifer y siaradwyr Saesneg yn uwch.

Uned 7 Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais, Caerdydd CF15 7AB
www.colegau.cymru helo@colegaucymru.ac.uk Ff: 029 2052 2500
Cwmni Cofrestredig Rhif 2832103 Elusen Gofrestredig Rhif 1060182

Unit 7 Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais, Cardiff CF15 7AB
www.colleges.wales hello@collegeswales.ac.uk T: 029 2052 2500
Registered Company No 2832103 Registered Charity Number: 1060182

Byddem yn croesawu sicrhau bod mwy o gymwysterau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, gan dybio bod cyllid ar gael i gefnogi'r gweithlu i'w darparu. Mae angen datblygu system gydlynol a chysylltiedig o gymwysterau sy'n hyblyg ac yn cael eu gwerthfawrogi gan ddysgwyr a chyflogwyr fel ei gilydd. Byddai hyn hefyd yn golygu cael y gweithlu yn ei le gyda sgiliau Cymraeg digonol i gyflwyno ac asesu'r cymwysterau hyn.

Rhaid rhoi sylw dyledus i oblygiadau'r newidiadau arfaethedig ar y sector addysg bellach. Os disgwylir i darged B2 gael ei gyrraedd ar lefel TGAU, beth yw'r disgwyliad ar golegau addysg bellach o ran cefnogi'r dysgwyr hynny nad oeddent wedi llwyddo i gyrraedd lefel B2? O ystyried y newidiadau i'r strwythurau TGAU, gallai hyn fod yn heriol i'w gyflawni. Yn y cyd-destun hwn mae'n werth nodi goblygiadau'r newidiadau diweddar i gymwysterau TGAU Mathemateg a Saesneg. Mae'n bwysig bod unrhyw oblygiadau i ddysgwyr sy'n ailsefyll TGAU Cymraeg mewn addysg ôl-16 yn cael eu hystyried yn ofalus ac yn llawn, o ran y ddeddfwriaeth a hefyd o ran datblygu cymwysterau dilynol.

**Cynllunio addysg a dysgu Cymraeg**

Rydym yn croesawu'r ymagwedd sy'n rhychwantu pob cyfnod bywyd - o feithrinfa i oedolaeth, gan sicrhau bod addysg Gymraeg yn hygyrch i bob oedran. Bydd hybu ac ehangu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar bob lefel yn helpu i gynyddu rhuglder a defnydd ymhlith dysgwyr, sy'n hanfodol ar gyfer twf yr iaith. Croesewir cynnwys addysg oedolion mewn gweithleoedd a chymunedau, er mwyn cefnogi cymdeithas Gymraeg fwy cynhwysol. Wedi dweud hynny, mae'r gweithlu'n bryder yma - mae denu a hyfforddi digon o ymarferwyr sy'n hyfedr yn y Gymraeg, yn enwedig mewn ardaloedd llai Cymraeg eu hiaith, yn bryder. Mae cyfnodau adolygu pum mlynedd y fframwaith yn darparu strwythur i'w groesawu, er efallai y bydd angen mwy o hyblygrwydd ar y fframwaith i fynd i'r afael â heriau wrth iddynt godi, heb aros am y cyfnod adolygu ffurfiol. Mae angen cynllunio strwythuredig i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth Gymraeg ac i sicrhau twf hirdymor. Rydym yn cydnabod bod cynllunio hirdymor yn gofyn am ymrwymiad ariannol parhaus, ond mae'n hollbwysig bod y sector yn gallu cynllunio ar gyfer y tymor hir.

**Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol**

Er bod gan yr Athrofa nodau clir, gan gynnwys arweinyddiaeth mewn addysg Gymraeg, datblygu deunyddiau, a chynllunio datblygiad y gweithlu, byddai ColegauCymru yn croesawu mwy o eglurder ar ddiffiniadau mewn perthynas â'r sector trydyddol er mwyn osgoi unrhyw ddryswch posibl. Ar hyn o bryd, mae dysgu Cymraeg yn y sector trydyddol (cyfrifoldeb y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol / yr Athrofa arfaethedig) wedi'i ddiffinio'n weddol dda, ond datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sector trydyddol (cyfrifoldeb Medr a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol) yn llai pendant, ac felly o bosibl yn agored i ddehongliad. Mae cydgysylltu clir gyda chyrff ac asiantaethau Cymraeg ac addysg luosog gyfredol yn hanfodol er mwyn osgoi dyblygu a sicrhau ymagwedd unedig. Bydd gweithrediad effeithiol yr Athrofa yn dibynnu ar gyllid ac adnoddau digonol, a dylai fod yn addasadwy i newidiadau ac adborth er mwyn parhau i fod yn effeithiol wrth i addysg Gymraeg ddatblygu.

**Rhwystrau i weithrediad y Bil**

Mae gweithredu'r Bil yn llwyddiannus yn dibynnu yn y pen draw ar adnoddau - mae denu a chadw staff sy'n siarad Cymraeg yn hollbwysig. Mae datblygu'r gweithlu yn hollbwysig, a rhaid inni geisio diogelu'r cyfleoedd sy'n bodoli ar hyn o bryd i staff ddysgu Cymraeg, yn ogystal â chreu rhai newydd. Mae ColegauCymru yn llwyr gydnabod y wasgfa heriol ar y gyllideb



Uned 7 Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais, Caerdydd CF15 7AB
www.colegau.cymru helo@colegaucymru.ac.uk Ff: 029 2052 2500
Cwmni Cofrestredig Rhif 2832103 Elusen Gofrestredig Rhif 1060182

Unit 7 Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais, Cardiff CF15 7AB
www.colleges.wales hello@collegeswales.ac.uk T: 029 2052 2500
Registered Company No 2832103 Registered Charity Number: 1060182

gyhoeddus, ond rhaid cynyddu cyfanswm yr ariannu. Dim ond gydag adnoddau digonol yn eu lle y gall y Bil hwn gyflawni ei uchelgeisiau.

**Goblygiadau ariannol**

Os yw Cymru am gyrraedd ei tharged o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae angen buddsoddiad sylweddol mewn addysg, ac yn benodol recriwtio a datblygu athrawon. Mae hyn yn cynnwys nid yn unig recriwtio staff newydd sy'n siarad Cymraeg, ond hefyd uwchsgilio staff presennol. Rydym wedi gweld llwyddiant y mentrau hyn ar draws y sector addysg bellach. Er enghraifft, mae Coleg Gwent, gyda chefnogaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, wedi cynyddu dysgwyr dwyieithog mewn meysydd allweddol fel gofal plant a gofal iechyd o 7% i 52% dros y pum mlynedd diwethaf. Mae'n dangos pwysigrwydd buddsoddiad parhaus a chynlluniedig mewn datblygiad proffesiynol i wella ansawdd ac argaeledd darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Bydd angen ehangu rhaglenni hyfforddi a mentrau datblygiad proffesiynol, a allai olygu bod angen buddsoddiad sylweddol gan y llywodraeth. Gall hefyd olygu bod angen cymhellion i ddenu staff addysgu sy'n siarad Cymraeg i ardaloedd lle mae lefelau isel o ddefnydd o'r Gymraeg.

Os ydym am gyrraedd y targed miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae'n hanfodol mabwysiadu dull system addysg gyfan. Mae'r sector addysg bellach gyda'i gysylltiadau sefydledig â chyflogwyr, yn hollbwysig i lwyddiant targedau Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru ac, felly, rhaid ystyried sicrhau trefniadau pontio cadarn ar gyfer y garfan newydd o ddysgwyr o ganlyniad i'r newidiadau i addysg ysgol orfodol a alluogir gan Fil y Gymraeg ac Addysg (Cymru). Mae buddsoddiad parhaus yn y gweithlu addysg bellach ac adnoddau ar gyfer y cwricwlwm ôl-16 yn hanfodol i gynnal y momentwm o ran hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg y tu hwnt i ôl-16. Mae'r newidiadau yn y dirwedd addysg yn gyfle inni ailgynllunio llwybrau dysgu, fel bod gennym gwricwlwm cydlynol sy'n galluogi dilyniant cadarnhaol i ddysgwyr - pa bynnag lwybr y maent yn dewis ei ddilyn drwy ein system. Rhaid i'r gwaith o gefnogi'r llwybrau hyn gael ei ategu gan hawl sylfaenol i wybodaeth, cyngor ac arweiniad o ansawdd uchel ac annibynnol, yn enwedig ar y pwyntiau pontio allweddol. Byddai'r cyngor a'r arweiniad hwn yn helpu i gefnogi dysgwyr sy'n trosglwyddo o ddarpariaeth cyn-16 i ddarpariaeth ôl-16, gan gynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio'n ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Edrychwn ymlaen at ddarparu tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar 17 Hydref 2024. Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Gyda dymuniadau gorau,

Uned 7 Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais, Caerdydd CF15 7AB
www.colegau.cymru helo@colegaucymru.ac.uk Ff: 029 2052 2500
Cwmni Cofrestredig Rhif 2832103 Elusen Gofrestredig Rhif 1060182

Unit 7 Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais, Cardiff CF15 7AB
www.colleges.wales hello@collegeswales.ac.uk T: 029 2052 2500
Registered Company No 2832103 Registered Charity Number: 1060182

**Cyflwynwyd yr ymateb hwn i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)**

**This response was submitted to the Children, Young People and Education Committee on the Welsh Language and Education (Wales) Bill**

**WLE 15**
**Ymateb gan: Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru**
**Response from: National Training Federation for Wales (NTfW)**

As key stakeholders in the skills development and vocational education landscape in Wales, we at NTFW, welcome the opportunity to respond to the proposed bill aimed at promoting the Welsh language. We fully recognise the importance of achieving the target of one million Welsh speakers by 2050 and the broader role the Welsh language plays in shaping the cultural and professional identity of the nation.

In particular, the bill's provisions that relate to the statutory basis for Welsh language education, language standards, and the classification of Welsh language users have direct implications for our work. We are committed to aligning our apprenticeship programs with the Welsh Government's goals, but we also believe the following considerations are crucial to ensuring the successful integration of Welsh language requirements into the apprenticeship system:

**Integration of Welsh Language in Apprenticeship Programs**

Welsh Language Learning Opportunities: The bill should explicitly address how Welsh language learning will be integrated into apprenticeship programs. Apprenticeships are already tightly structured to provide vocational skills, and adding Welsh language training must be carefully managed to ensure it does not disrupt the core vocational learning outcomes. Incidental Welsh is used in the provider setting and with staff as well as learners undertaking a Welsh language and Culture unit within their induction. This will need to be considered with the support of Medr as the strategic driver for Post 16 education in Wales as they develop their strategic plan and policies.

Tailored Language Support: It will be important to provide tailored Welsh language training that corresponds to the needs and proficiency levels of apprentices, especially for apprentices in sectors where bilingualism may be essential i.e., Health and Social Care.

**Impact on Apprenticeship Providers and Employers**

Resources for Training Providers: The bill should make provisions for additional resources, both financial and educational, for apprenticeship providers to implement Welsh language training effectively. This could include funding for bilingual training materials, Welsh language assessors, and support staff. Providers have received consistent support from colleagues at Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Our ask would be that this support continues to help strengthen the use of the Welsh language in the Post 16 sectors.

Employer Readiness: Apprenticeships are often a collaboration between training providers and employers. Many small and medium-sized enterprises (SMEs) may not have the capacity to support Welsh language education on top of their existing commitments. There should be guidance and incentives for employers to support Welsh language development within their apprenticeship programs.

**Flexibility in Implementation**

Sector-Specific Considerations: Not all sectors have the same language needs, so the bill should allow flexibility in how Welsh language goals are applied across industries. For example, apprenticeships in healthcare or public services may have different Welsh language requirements compared to apprenticeships in engineering or IT. The bill should consider sector-specific Welsh language benchmarks to ensure that the language goals are meaningful and relevant.

Phased Approach: We recommend a phased approach to implementing the Welsh language learning goals in apprenticeships. This would allow providers and employers time to build capacity and adjust their programs to include Welsh language learning effectively, without compromising the quality of vocational training.

**Collaboration with the National Welsh Language Learning Institute**

Partnerships for Welsh Language Learning: The establishment of the National Welsh Language Learning Institute ('yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol') presents an opportunity for apprenticeship providers to collaborate in the delivery of Welsh language training. We suggest the bill outlines clear mechanisms for how the Institute will work with apprenticeship providers to create accessible Welsh language programs that complement apprentices' vocational education, we suggest this is undertaken with Coleg Cymraeg Cenedlaethol as they already provide support, training, resources and work closely with providers.

**Monitoring and Accountability**

While the bill seeks to create a chain of accountability between linguistic planning at school, local authority, and national levels, it should also include specific provisions for how Welsh language goals will be monitored within apprenticeships. This could involve regular reviews of how Welsh language training is incorporated into apprenticeship frameworks, and how it contributes to the overall linguistic goals of Wales.

**Codes and data**

The design of a code of Welsh language ability would be welcomed as there is much confusion in this field. Questions arise as to how WBL learners would classify themselves e.g., through questionnaire, online test, structured tests?

The adoption of a CEFR type code could potentially clarify the position of learners in the 'non-fluent' category which is extremely varied.

**Conclusion**

We believe the bill represents a significant step toward the revitalisation of the Welsh language, and we are committed to playing our part in this national endeavour. However, we urge the Welsh Government to ensure that the specific needs and challenges faced by apprenticeship providers and employers are addressed within the legislative framework. By working collaboratively and ensuring adequate resources and flexibility, we can help apprentices acquire both the vocational and linguistic skills they need to thrive in a bilingual Wales.

We look forward to continuing dialogue on this important issue and working together to meet the goals of this bill.

**Additional Information from the Association of School and College Leaders (ASCL) Cymru following the evidence session on 02 October 2024**

**The Welsh Government wants to establish a "clear line of accountability" at a national, local and school level for the planning of Welsh language education. Do you agree with what the Welsh Government wants to achieve and to what extent do you believe the Bill does this?**

- ASCL Cymru agrees with the intent of the Bill but not with the ability of our system to address it at this time.
- Accountability without a workforce , the basic resource to deliver the outcomes required, is not appropriate
- One of the enabling objectives of CfW is the establishment of a new and clearly defined data and information ecosystem to support the establishment of a collaborative school improvement system. Additional "add on " accountability could distract form this
- Findings from a Welsh Government commissioned research report (https://www.gov.wales/research-exploring-new-information-system-schools ) states that ….' Prior to the introduction of the CfW, there was also a disproportionate focus on learner attainment ..in the school system, which created unintended consequences including fostering a culture in which the use of quantitative data was skewed towards scrutiny and accountability.'
- ASCL believes that setting a broad numerical target linked to acquisition of the Welsh language and prioritising educational strategies and resources in this area may have an unintended consequence of distracting from urgent priority areas and impede the essential progress required. It is essential that current priority lies within the main policy drivers in Wales, namely, closing the attainment gap by tackling poverty and poor standards in literacy and numeracy, increasing curriculum engagement to improve attendance and behaviour and support for ALN.
- Welsh Government is currently moving towards a self-improving system based upon collaboration between schools, local authorities and Welsh government following the middle tier review led by Professor Dylan Jones (Review of roles and responsibilities of education partners in Wales and delivery of school improvement arrangements: letter to the minister [HTML] | GOV.WALES). It has been proposed that this is focused upon a culture of collaborative improvement and collective responsibility in raising standards driven by professional agency and effective collaboration. ASCL believes that the Welsh Government intent to establish 'a clear line of accountability' conflicts with these professional principles and will have the unintended consequence of

placing pressure on schools to prioritise Welsh language acquisition above it’s other critical national drivers.

**How effective do you believe the system of Welsh in Education Strategic Plans has been to date? What, if any, involvement do school leaders have in local authorities’ planning and improvement of the provision of Welsh language education?**

Not aware of involvement of school leaders. Aware that this has existed for some time but not aware of any collaborative input from school leaders consistently across LA's.

**Gwybodaeth ychwanegol gan y Mudiad Meithrin o'r cyfarfod ar 26 Medi 2024 ar eithrio ysgolion preifat yn y Bil.**

Diolch am eich e-bost, dyma gynnwys sylwadau ychwanegol i'ch sylw.

I ymhelaethu ar yr ateb roddwyd, gallem edrych ar esiampl Gwynedd ble mae pob darpariaeth addysg statudol yn Gymraeg (yn y cynradd). Ceir weithiau un plentyn y flwyddyn fydd yn gadael Cylch Meithrin i fynd i ysgol breifat yn y Sir.  Yn wir, mae data'r blynyddoedd diwethaf yn dangos cyfradd dilyniant o 100% i addysg Gymraeg yng Ngwynedd.  Awgryma hyn nad yw polisi addysg yr Awdurdod Lleol wedi cyfrannu at shifft i'r sector breifat.  Nid oes gennym fynediad at ddata plant sy'n mynd i feithrinfeydd preifat neu at warchodwyr plant ond byddai canran sylweddol yn mynd i ysgolion statudol.

**Additional Information from the National Association of Head Teachers (NAHT) Cymru following the evidence session on 02 October 2024**

**•The Welsh Government wants to establish a "clear line of accountability" at a national, local and school level for the planning of Welsh language education. Do you agree with what the Welsh Government wants to achieve and to what extent do you believe the Bill does this?**

NAHT's view is that a "clear line of accountability" for Welsh language education is crucial for ensuring the successful implementation of the bill. Accountability at national, local, and school levels enables a coordinated and transparent approach to planning and delivering Welsh-medium education. It ensures that each layer of governance is responsible for its part in expanding the language's use, growth, and sustainability. At the national level, clear accountability can drive effective policy and resourcing, ensuring that Welsh education is prioritized in budgetary decisions. However, For school leaders there would be a concern that an accountability framework, introduces unnecessary workload and results in unintended consequences

It would appear that the Welsh Language Bill supports this intention by setting out statutory responsibilities for different levels of government and institutions. It strengthens the legal framework surrounding the promotion and use of Welsh, with mechanisms for monitoring and evaluating progress. However, while the Bill establishes these responsibilities, the challenge lies in its practical enforcement and the provision of adequate resources, ensuring that accountability translates into real, measurable outcomes for Welsh language education.

**•How effective do you believe the system of Welsh in Education Strategic Plans has been to date? What, if any, involvement do school leaders have in local authorities' planning and improvement of the provision of Welsh language education?**

NAHT has seen some good examples of this. For example, in Caerphilly there has been some real successful because the WESP has been driven from early years up. Strong links with sustainable community and childcare/non maintained setting have also been key. The LA has hit its targets in reception and now is looking to build on these successes. The WESP is regularly reviewed via the LA's SMT and headteachers attend on a rolling programme. Headteachers also engage through the WESP forum which includes a range of stakeholders. There are very ambitious targets and strong political support.

Dear Lynne Neagle MS, Cabinet Secretary for Education and Jane Hutt MS, Cabinet Secretary for Social Justice,

We are writing to you to express our dismay, despair and disappointment at the devastating news that development of the Made for Wales British Sign Language (BSL) GCSE has been suspended due to “practical challenges”.

There has long been strong support for developing a made-for-Wales BSL GCSE – and, until yesterday’s announcement was published, we were absolutely delighted that BSL users in Wales would have the opportunity to achieve a GCSE in their own, legally recognised language, just as they can with English and Welsh. In addition to eradicating the inequality of opportunity, the development of the GCSE is a real chance to celebrate deaf culture and history in classrooms and create a more inclusive education system.

Indeed, Qualifications Wales has previously acknowledged a wide range of reasons why a made-for-Wales BSL GCSE is needed, including;

- Raising the profile of BSL in Wales to enable a more inclusive society.
- Giving more young people the opportunity to learn BSL. BSL has been visible on prime-time television programmes which has raised its profile generally and the visibility of positive role models could lead to more people wishing to learn BSL.
- Giving schools time to build capacity to deliver BSL at the higher levels of the progression steps.
- Helping to build a critical mass of BSL users and those who can understand BSL in the workforce of the future.

On 1 October, only a few days ago, the Cabinet Secretary for Social Justice said: "I think it is really important that we look at what we are doing in Wales. You know that Welsh Government is making provisions to promote and facilitate the use of BSL and its tactile forms in Wales, and we do think that a more collaborative, inclusive approach will be effective if we can have a positive impact on the BSL signing community of Wales." Yet, less than 24 hours later, the announcement suspending development of the GCSE has delivered the exact opposite.

To be clear, we consider this decision to be a step backwards for equality, inclusivity, and for the BSL community of Wales.

The promises to develop a BSL GCSE, like the campaign calling for its establishment, span years. You will be aware that in October 2018 the-then Petitions Committee called for the creation of the GCSE, a call that the Welsh Government agreed to in principle at the time. Communication between the government and Qualifications Wales on this, by our records, goes back to at least 2017. Deaf children and their hearing peers have long been looking forward to having the opportunity to study the GCSE. To receive this news, only a few short months after being told that the GCSE would be delayed, is heartbreaking for them. Given the amount of time and dedication from yourselves, Qualifications Wales and other external organisations, that has already gone into the establishment of the GCSE, it is our strong belief that this effort should not be wasted by scrapping the plans to launch the GCSE.

We're also deeply concerned about the message this sends to the people of Wales on the Welsh Government's commitment to support the deaf community and BSL, given it is also the government's intention to reject the upcoming BSL (Wales) Bill. Despite the Cabinet Secretary for Social Justice's laudable comments on the floor of the Senedd highlighting the government's support of the language, the rejection of the GCSE and the Bill combined sends completely the opposite message.

In terms of the skills suite qualifications, it is our belief that this is not a sufficient replacement for the GCSE to facilitate wider use of BSL and to build that critical mass of BSL users for the future. The proposed BSL GCSE would have covered elements of deaf awareness, and deaf culture, which we know to be incredibly important context for students studying BSL. Additionally, a GCSE qualification would have unquestionable legitimacy in terms of progression into further and higher education, whereas we are unsure if this new qualification will hold that same standard. In short, the GCSE has the potential to greatly strengthen deaf children's opportunities in terms of post-16 education progression and consequently, their opportunities in later life.

We are keen to work with you to discuss the practical challenges to which Qualifications Wales has referred, and to demonstrate to you how the GCSE could be made a reality. We firmly believe that we can overcome these challenges and ensure the made-for-Wales BSL GCSE becomes a reality for those students in Wales who are so looking forward to taking the course.

We look forward to hearing from you and to meeting you to discuss this further at your earliest convenience.

Yours sincerely,

Susan Daniels OBE
Chief Executive Officer
National Deaf Children's Society

Lindsay Foster
Executive Director
Signature

**CC:**
David Jones OBE DL, Chair of Qualifications Wales
Dawn Bowden MS, Minister for Children and Social Care
Jack Sargeant MS, Minister for Culture, Skills and Social Partnership
Tom Giffard MS, Shadow Minister for Education
Cefin Campbell MS, Plaid Cymru Spokesperson for Education
Mark Isherwood MS, Chair of the Cross Party Groups for Deaf Issues and Disability
Buffy Williams MS, Chair of the Children, Young People and Education Committee
Jenny Rathbone MS, Chair of the Equality and Social Justice Committee

Eitem 5.5

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

—

**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Lynne Neagle AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

10 Hydref 2024

**Gofalwyr ifanc**

Annwyl Lynne,

Ar 23 Medi cyfarfûm â chynrychiolwyr yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr i siarad am y materion sy'n wynebu gofalwyr ifanc yng Nghymru. Buom yn trafod data'r cyfrifiad, sy'n dangos bod tua 8,000 o ofalwyr rhwng 5 a 17 oed yng Nghymru, ac effaith gwasanaethau addysg ar fywydau'r plant hyn.

Trafodwyd adroddiad diweddar yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr, 'Carers and classes: the education gap for young carers', sy'n canfod, yn Lloegr:

- Yn 2022/23, collodd gofalwyr ifanc fwy na mis o'u haddysg ar gyfartaledd (23 diwrnod o'r ysgol), o'i gymharu â 14 diwrnod ar gyfer disgyblion eraill.
- Roedd bron i hanner (46 y cant) y gofalwyr ifanc yn yr ysgol uwchradd yn Lloegr yn absennol yn gyson yn 2022/23. Mae hyn yn golygu eu bod wedi colli o leiaf 10 y cant o'r ysgol. Mae hynny'n un diwrnod ysgol bob pythefnos.
- Dywedodd bron i hanner (48 y cant) y gofalwyr ifanc eu bod wedi cael eu bwlio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- Mae mwy na dau o bob pump (44 y cant) o ofalwyr ifanc yn aml yn ei chael hi'n anodd astudio ar gyfer profion neu arholiadau oherwydd gofynion eu sefyllfa ofalu.


Yn anffodus, nid yw'r data sylfaenol sy'n sail i'r canfyddiadau hyn ar gael yng Nghymru gan nad oes gennym ddata sy'n nodi pwy yw’r gofalwyr ifanc mewn addysg. Yn Lloegr, ychwanegwyd gofalwyr ifanc at y cyfrifiad ysgolion ar gyfer 2022-23, gan ein galluogi i ddeall yn well effeithiau addysgol posibl cyfrifoldebau gofal ar gyfer plant oed ysgol (ac, o ganlyniad, rhoi ymyriadau ar waith i helpu'r plant hyn i gyflawni eu potensial).

Rwy'n nodi bod adolygiad Estyn 2019 yn dweud bod "diffyg data dibynadwy i nodi faint o ofalwyr ifanc sydd mewn ysgolion, UCDau a cholegau ledled Cymru", a bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo wedi hynny i archwilio sut i gasglu data cenedlaethol am ofalwyr ifanc. Fodd bynnag, clywais nad oes llawer o gynnydd wedi cael ei wneud yn hyn o beth. Rwy'n deall, wrth gwrs, bod y pandemig yn anochel wedi achosi oedi o ran cynnydd gwaith o'r fath. Fodd bynnag, mae dros bum mlynedd bellach ers i'r ymrwymiad hwnnw gael ei wneud.

A allech chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni ynghylch y maes gwaith hwn? Byddem yn gwerthfawrogi gwybodaeth ynghylch pam y bu oedi cyn gweithredu'r newidiadau i'r cyfrifiad ysgol a chamau nesaf Llywodraeth Cymru, gan gynnwys yr amserlenni ar gyfer gweithredu unrhyw newidiadau arfaethedig.

Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn ateb erbyn 22 Tachwedd 2024 fan bellaf.

Yn gywir,



Buffy Williams AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English

Eitem 5.6

Prifysgolion Cymru Universities Wales

# Explainer: Welsh participation in higher education

August 2024

## What do we mean by participation, participation rate and application rate?

When referring to ***participation*** in higher education, we mean anyone who has secured a place at university.

The ***participation rate*** is the proportion of 18-year-olds going to university. The size of the population can vary year-on-year, which is why the participation rate is a more helpful indicator of trends over time, rather than the number of people going to university.

The ***application rate*** is the proportion of 18-year-olds applying for university. Not necessarily everyone who applies will eventually take up a place at university.

## What do the stats tell us?

Two key trends are cause for concern.

The participation rate in Wales has been dropping, and is lower than elsewhere in the UK. That means 18-year-olds in England, Scotland and Northern Ireland are more likely to go to university than their Welsh peers.

The latest UCAS data available demonstrates a continued drop in the proportion

| Domicile | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ⊟ UK | 36.0% | 37.0% | 37.5% | 37.8% | 38.9% | 40.5% | 43.3% | 44.1% | 42.1% | 41.9% |
| ⊞ England | 36.1% | 37.2% | 37.9% | 38.1% | 39.5% | 41.3% | 43.9% | 44.9% | 43.0% | 42.7% |
| ⊞ Northern Ireland | 48.2% | 48.2% | 47.7% | 47.6% | 46.9% | 48.2% | 52.3% | 52.8% | 51.1% | 50.1% |
| ⊞ Scotland | 32.5% | 32.8% | 33.0% | 32.8% | 32.7% | 32.3% | 36.1% | 35.8% | 33.9% | 33.9% |
| ⊞ Wales | 31.7% | 32.9% | 32.5% | 32.7% | 32.9% | 33.6% | 37.9% | 38.1% | 34.2% | 33.8% |
| Total | 36.0% | 37.0% | 37.5% | 37.8% | 38.9% | 40.5% | 43.3% | 44.1% | 42.1% | 41.9% |

of Welsh 18-year-olds applying to university.

The application rate is now **33.8%, the lowest rate in the UK.**

The gap between the rate in Wales and the rest of the UK has been increasing over time, and is now at its **widest point in 15 years.**





*Figure 1: Gap in application rate between Wales and the UK as a whole, UCAS 30 June data*

If we break it down to regions in England, only the North East of England (33.4%) has a lower participation rate than Wales (33.8%).




*Figure 2: Application rate for 2024-25 academic year, by nation and English regions. UCAS 30 June data.*

Furthermore, Wales has also seen a **drop in the application rate from quintile 1 of the Welsh Index of Multiple Deprivation** (i.e. the most disadvantaged), whereas England and Scotland have seen an increase in application rate in the equivalent cohort.





*Figure 3: Proportion of those in the most deprived areas (Quintile 1) who applied to university. UCAS 30 June data.*

## Why is this a problem?

This trend rings alarm bells for a few reasons.

The support package on offer to Welsh-domiciled students (i.e. those living in Wales when they apply to university, rather than those studying in Wales, who could come from the rest of the UK or be international students), is the most generous of all UK nations with a particular focus on maintenance support for living costs.

So, despite the availability of grants and loans designed to facilitate access to higher education, Welsh young people are not taking up the opportunity to do so at the same rate as their peers elsewhere in the UK.

The future of the economy depends upon the nation being sufficiently equipped to capitalise on industrial, digital and societal developments, with increasing demand for graduate-level skills. If Welsh people are not gaining these skills, Wales' economy will find itself at an economic disadvantage compared to the rest of the UK which the proportion of graduates in the workforce will be higher. Wales already has a lower proportion of graduates in the workforce than other parts of the UK.

But crucially, we must remember the implications that this would have on individuals, and the opportunities that they may miss out on. There is a real chance of a generation that is be less well-qualified than their predecessors.

## Why is this happening?

There could be a variety of factors at play, including a need to raise ambition or a lack of awareness of the availability of courses and financial support on offer.

Crucially, it's not just at 18 that young people are opting-out of education. Welsh Government figures indicate that an increasing proportion 16-year-olds are not progressing from Year 11 to education, training or work-based learning.

In 2017, 90% of school leavers were staying in education, training or work-based learning. That's fallen to 80% in 2022.

## What can be done to address the problem?

Universities Wales would like to see Medr, the Commission for Tertiary Education and Research, and the Welsh Government, commit to tackling this issue head-on, firstly by addressing the need for better data to understand where our young people are going after school and further work to understand what lies behind the choices young people are making.

## Are Welsh people going to university elsewhere?

These figures relate to people normally resident in Wales wherever they may be applying to, not just those who are applying to Welsh universities.

Welsh universities attract students from Wales, the rest of the UK, and international students. But for the resilience of the future Welsh economy, it would be beneficial to have more Welsh students entering higher education.

## Are Welsh young people doing apprenticeships instead?

The drop in applications to university is not explained by young people accessing other modes or types of provision.

Looking beyond the volatility in apprenticeship starts caused by the pandemic, 18- and 19-year-old apprenticeship numbers have been broadly steady over a five year period. In 2018-19, there were 6,065 apprentices aged 18 and 19 in Wales. In 2022-23, there were 5,605. The overall proportion of the 18-19 year old population entering work-based learning has slightly decreased over this period.

# Eitem 5.7

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lynne Neagle AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

Jeremy Miles AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health & Social Care

Dawn Bowden AS/MS
Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol
Minister for Children and Social Care

Eich cyf/MA/LN/10177-24

Buffy Williams AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

30 Medi 2024

Annwyl Buffy,

Wele ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion a wnaed gan adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: A oes gan blant a phobl ifanc anabl fynediad cyfartal at addysg a gofal plant?

Rydym yn gwerthfawrogi gwaith trylwyr y Pwyllgor yn ymchwilio i'r mater hwn ac yn ddiolchgar am yr argymhellion cynhwysfawr a wnaed.

Mae mynediad at addysg i bob dysgwr o bwys mawr inni, ac rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu plant a phobl ifanc anabl a'u teuluoedd ledled Cymru mewn modd ystyrlon a pharhaus.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddwn yn parhau i gydweithio ag awdurdodau lleol a'r holl randdeiliaid i sicrhau na chaiff hawl unrhyw blentyn yng Nghymru i addysg neu ofal plant,

na'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â hynny, ei gwadu.

Yn gywir

**Lynne Neagle AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

**Jeremy Miles AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd
a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health & Social Care

**Dawn Bowden AS/MS**
Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol
Minister for Children and Social Care

**Ymateb Llywodraeth Cymru i**
**Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg:**
**A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?**

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar y mater pwysig hwn, sef a yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant yng Nghymru. Rydym yn gwerthfawrogi gwaith trylwyr y Pwyllgor yn archwilio'r mater hwn ac yn ddiolchgar am yr argymhellion cynhwysfawr a wnaed.

Mae **Casgliad 1** yn nodi bod gormod o hawliau plant a phobl ifanc i addysg, fel yr amlinellir yn Erthyglau 28 a 29 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn cael eu torri yng Nghymru. Er ein bod wedi gwneud cynnydd mewn rhai meysydd, rydym yn cydnabod bod yn rhaid gwneud mwy i sicrhau bod yr hawliau hyn yn cael eu cynnal yn gyson ledled Cymru. Rydym yn benderfynol o weithio gydag ysgolion, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill i gael gwared ar rwystrau i addysg a sicrhau bod gan bob plentyn fynediad at yr amgylchedd dysgu sydd ei angen arnynt.

Cynlluniwyd y system ADY newydd i roi mwy o hawliau i blant a theuluoedd, ac i liniaru'r frwydr yr oeddent yn aml yn ei hwynebu wrth geisio cael cymorth o dan yr hen system AAA. Megis dechrau y mae'r broses o roi'r system hon ar waith a byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid cyflawni er mwyn mireinio'r broses ym mhob cwr o Gymru.

Yn ogystal â'r buddsoddiad o dros £107 miliwn a wnaed i gefnogi'r ymdrechion i roi'r system ADY ar waith ers 2020, mae buddsoddiad cyfalaf o dros £170 miliwn wedi gwella'r cyfleusterau i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn ystod y 5 mlynedd diwethaf. Mae'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn buddsoddi dros £750 miliwn dros y naw mlynedd nesaf er mwyn parhau i wella ac ehangu cyfleusterau presennol a chreu darpariaeth arbenigol newydd.

Mae Rhaglen Gyfalaf Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar 2022-25, sy'n werth £70 miliwn, yn cefnogi, yn cynnal ac yn gwella lleoliadau gofal plant presennol a rhai newydd. Mae dwy ffrwd waith wahanol: cyllid grantiau bach a chyllid cyfalaf mawr. Gall lleoliadau gofal plant sydd wedi'u cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru ddefnyddio elfen grantiau bach y Rhaglen i brynu cyfarpar ADY/Synhwyraidd er mwyn helpu i oresgyn y rhwystrau sy'n gysylltiedig â chynnig darpariaeth hygyrch. Fel rhan o'r broses asesu ar gyfer pob cynnig am gyllid cyfalaf mawr, caiff hygyrchedd yr adeilad / darpariaeth i blant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ei ystyried.

Mae **Casgliad 2** yn tynnu sylw at yr effaith sylweddol y gall bylchau mewn mynediad at addysg ei chael ar les emosiynol a meddyliol plant, yn ogystal ag ar eu canlyniadau addysgol. Rydym yn ymwybodol iawn o hyn, a thrwy ein rhaglen ddiwygio, rydym yn canolbwyntio ar greu system lle caiff hawliau pob plentyn, gan gynnwys plant anabl, eu parchu a'u cynnal yn gyfan gwbl, a lle caiff eu llesiant ei gefnogi'n llwyr.

Mewn achosion lle cafodd yr hawliau hyn eu gwadu, rydym yn cydnabod yr effaith y gall hyn ei chael nid yn unig ar eu llesiant emosiynol, meddyliol a chorfforol, ond hefyd ar eu cyrhaeddiad addysgol a'u potensial yn y dyfodol. Rydym hefyd yn cydnabod y straen y mae hyn yn ei roi ar deuluoedd a gofalwyr a'r angen am system fwy cadarn o ran cymorth i deuluoedd plant a phobl ifanc anabl.

Rydym wedi cymryd camau i wella dealltwriaeth ymarferwyr addysg ynghylch sut i gefnogi hawliau plant a phobl ifanc ym maes addysg drwy weithio gyda phartneriaid, gan gynnwys Comisiynydd Plant Cymru ac Anabledd Cymru, i greu pecyn dysgu proffesiynol ar-lein am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau.

Mae **Casgliad 3** yn tynnu sylw at y straen y mae'r heriau hyn yn ei achosi i deuluoedd. Rydym yn cydnabod y straen y mae teuluoedd yn ei wynebu wrth lywio system a all, ar adegau, fod yn anodd cael mynediad ati. Mae llawer o rieni a gofalwyr wedi gorfod eirioli'n ddiflino ar ran eu plant, ac rydym yn llwyr werthfawrogi'r baich y mae hyn yn ei greu. Rydym wedi ymrwymo i leddfu'r pwysau hyn drwy sicrhau bod cymorth yn haws ei gael ac nad oes rhaid i deuluoedd frwydro i gael gafael ar y gwasanaethau y mae eu plant yn eu haeddu. Mae sicrhau mwy o gydweithio amlasiantaethol ar draws gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig rhwng gwasanaethau iechyd ac addysg, yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

Rydym hefyd yn cymryd amrywiaeth o gamau i wella cysondeb wrth roi diwygiadau ADY ar waith a sicrhau bod y fframwaith deddfwriaethol yn glir ac yn ddealladwy. Rydym yn datblygu ein darpariaeth dysgu proffesiynol ar ddatblygiad plant a niwrowahaniaeth.

**Mae Casgliad 4** yn sôn am broblem darpariaeth anghyson ledled Cymru, gan gynnwys i'r rhai sy'n defnyddio darpariaeth cyfrwng Cymraeg, gan arwain at wahaniaethau o ran y gallu i gael gafael ar ofal plant ac addysg gynhwysol. Rydym wedi cydnabod hyn eisoes, ac rydym yn atgyfnerthu'r fframwaith gwella ysgolion i ganolbwyntio ar greu addysg gynhwysol, gan gynnwys sefydlu arweinydd cenedlaethol i roi ADY ar waith yn y Gymraeg, sy'n cymryd ymagwedd strategol ar gyfer Cymru gyfan, er mwyn gwella'r ffordd y caiff y ddarpariaeth ei chyflwyno. Rydym yn ymgorffori'r canllawiau galluogi dysgu. Mae'r canllawiau hyn yn helpu ymarferwyr i ddarparu cwricwlwm cynhwysol, eang a chytbwys sy'n adlewyrchu anghenion dysgwyr.

Er bod rhai ardaloedd wedi datblygu arferion cynhwysol da, rydym yn cydnabod bod hyn weithiau'n deillio o benderfyniad unigolion yn hytrach na dull gweithredu strwythurol cyson. Mae'r ffaith bod loteri cod post yn bodoli o ran mynediad at addysg a gofal plant cynhwysol, yn enwedig mewn perthynas â'r ddarpariaeth Gymraeg, yn annerbyniol. Rydym yn ymrwymedig i fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n arwain at yr anghysondeb hwn.

Mae **Casgliad 5** yn nodi'r rhwystrau cymhleth a rhyng-gysylltiedig i ddarparu addysg a gofal plant cynhwysol sy'n rhychwantu agweddau cymdeithasol cyffredinol tuag at anabledd a gwahaniaeth, yn ogystal â heriau ymarferol. Mae newid systemig yn cymryd amser ac rydym yn dal i weithredu dan gysgod COVID.

Rhaid peidio ag anghofio cyd-destun pandemig COVID, a roddodd bwysau sylweddol ar gyllid cyhoeddus ac a gafodd effaith anferth ar y gweithlu, ac yn arbennig ar blant anabl, ledled Cymru.

Rydym yn cydnabod bod darparwyr gofal plant ac addysg yn aml yn wynebu heriau wrth ddarparu gwasanaethau cynhwysol, ac rydym yn deall nad yw hynny'n adlewyrchu ymroddiad y staff, sy'n aml yn gweithio'n ddiflino i gefnogi'r holl blant a phobl ifanc sy'n cael gofal ganddynt.

Fodd bynnag, rydym yn benderfynol o fynd i'r afael â'r materion hyn ar bob lefel, gan weithio gyda'r holl randdeiliaid perthnasol i chwalu'r rhwystrau sy'n atal plant rhag cael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad i wella hyfforddiant staff, cynyddu cyllid, a chreu amgylcheddau mwy cynhwysol mewn lleoliadau gofal plant ac ysgolion.

Isod, rydym wedi amlinellu ein hymatebion i argymhellion y Pwyllgor, gan gynnwys y camau yr ydym yn eu cymryd a'r rhai yr ydym yn bwriadu eu cymryd mewn ymateb i'r materion a godwyd. Rydym yn awyddus i barhau i gydweithio â'r Pwyllgor, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid i sicrhau na chaiff hawl unrhyw blentyn yng Nghymru i'r addysg a'r gofal plant y maent yn eu haeddu, na'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â hynny, ei gwadu.

Rydym wedi amlinellu ein hymatebion i argymhellion y Pwyllgor isod, gan nodi'r camau gweithredu rydym yn eu cymryd ac yn eu cynllunio i ymdrin â'r materion hyn. Rydym yn edrych ymlaen at barhau i gydweithio â'r Pwyllgor, awdurdodau lleol a'r holl randdeiliaid wrth i ni weithio gyda'n gilydd i sicrhau na chaiff hawl unrhyw blentyn yng Nghymru i addysg neu ofal plant na'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â hynny ei gwadu.

**<u>Argymhelliad 1</u>**

**Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu ei barn ynghylch ein casgliadau allweddol, ac wrth ymateb i'r argymhellion dylai nodi'r camau penodol y bydd yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion pellgyrhaeddol yr ydym wedi'u nodi yn y casgliadau.**

Wrth ymateb i gasgliadau'r Pwyllgor, rydym yn cydnabod yn llwyr ddifrifoldeb y canfyddiadau yn yr adroddiad hwn a'r heriau sylweddol sy'n wynebu plant a phobl ifanc anabl a'u teuluoedd ledled Cymru. Mae'n amlwg bod materion brys sydd angen sylw yn ddiymdroi ac rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â nhw mewn modd ystyrlon a pharhaus.

Rydym wedi amlinellu ein hymatebion i argymhellion y Pwyllgor isod, gan nodi'r camau gweithredu rydym yn eu cymryd ac yn eu cynllunio i ymdrin â'r materion hyn. Rydym yn edrych ymlaen at barhau i gydweithio â'r Pwyllgor, awdurdodau lleol a'r holl randdeiliaid wrth i ni weithio gyda'n gilydd i sicrhau na chaiff hawl unrhyw blentyn yng Nghymru i addysg neu ofal plant na'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â hynny ei gwadu.

**Goblygiadau ariannol –** Dd/G, argymhelliad cyffredinol yw hwn

## Argymhelliad 2

**Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod mwy o ymchwil a data ar gael ar y bylchau yn y ddarpariaeth gofal plant, a all helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu darpariaeth gynhwysol. Fel rhan o hyn, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod awdurdodau lleol yn casglu data pan fydd plant a phobl ifanc yn gadael neu'n symud rhwng darpariaethau gofal plant ac addysg a'r rhesymau dros hynny. Dylid defnyddio'r data hyn wedyn fel sail i adolygiadau, hyfforddiant ac asesiadau yn y dyfodol ar gyfer darparwyr gofal plant ac addysg.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Rydym eisoes yn gweithio i wella'r sail dystiolaeth er mwyn deall mwy am ofal plant i blant yn y blynyddoedd cynnar a'u helpu i gael mynediad ato. Gall y fethodoleg ar gyfer y gwaith ymchwil a'r gwerthusiadau a gynlluniwyd gan Lywodraeth Cymru gynnwys gwaith ymchwil sylfaenol â grwpiau penodol o rieni plant anabl sydd wedi defnyddio gofal plant wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru er mwyn casglu tystiolaeth am eu profiadau.

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adolygiad o'r Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant (ADGPau) diweddaraf a gwaith ymchwil i'r Grant Cymorth Ychwanegol ar gyfer y Cynnig Gofal Plant i Gymru, sy'n darparu tystiolaeth mewn perthynas â mynediad at ddarpariaeth i blant anabl.

Mae gwasanaethau gofal plant cofrestredig yn cwblhau Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth blynyddol (Arolygiaeth Gofal Cymru) sy'n cynnwys data ar nifer y plant ag ADY sy'n defnyddio'r ddarpariaeth, a'r math o ADY a gefnogir. Mae Llywodraeth Cymru yn monitro nifer y plant ag ADY a gefnogir mewn lleoliadau cofrestredig er mwyn monitro'r duedd dros amser.

Gallwn archwilio dichonoldeb ymgymryd â gwaith ymchwil pellach i ymdrin ag unrhyw fylchau sy'n parhau yn y data ond byddai goblygiadau ariannol a goblygiadau staff yn gysylltiedig â hyn oherwydd cymhlethdodau'r gwaith.

**Goblygiadau ariannol** – Pe comisiynwyd gwaith ymchwil ychwanegol, byddai goblygiad ariannol, byddai angen ystyried neilltuo nifer digonol o staff a byddai cost cyfle mewn perthynas â dadflaenoriaethu prosiectau eraill. Byddai'r swm yn dibynnu ar gwmpas a chymhlethdod y gwaith ymchwil a byddai blaenoriaethu yn cael eu llunio ar sail eu cydnawsedd â'r cynllun tystiolaeth presennol sy'n sail i flaenoriaethau'r Cabinet. Byddai angen cyngor pellach yn hyn o beth.

## Argymhelliad 3

**Dylai Llywodraeth Cymru rannu ei hymateb i'r argymhellion a wneir yn yr Ymchwil i Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant gyda ni. Wrth ddarparu hyn, dylai Llywodraeth Cymru fanylu ar sut y mae'n sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu rhoi ar waith a sut y mae'r broses weithredu'n cael ei monitro.**

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn ystyried yr argymhellion a wnaed gan Ymchwil Arad, a gomisiynwyd i gynnal adolygiad o'r Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant (ADGPau), a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2024 (Ymchwil i Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant).

Byddwn yn cydweithio â'n rhanddeiliaid i ystyried sut y gallwn wella'r trefniadau ar gyfer ADGPau a sicrhau eu bod yn parhau'n addas at y diben yn y dyfodol, gan adeiladu ar yr argymhellion yn yr adolygiad. Byddwn yn:

- ystyried sut i wella'r broses ar gyfer asesiadau digonolrwydd gofal plant;
- adolygu'r gofynion rheoleiddio presennol gan gynnwys canllawiau statudol;
- ystyried sut i leihau'r baich gweinyddol ar awdurdodau lleol;
- adolygu fformat yr adroddiad ar ADGPau er mwyn sicrhau ei fod yn symlach ac yn cael mwy o effaith;
- ystyried adnoddau i helpu awdurdodau lleol i asesu a chynllunio trefniadau gofal plant ac i sicrhau bod data yn hygyrch ac yn addas at y diben.

Byddwn yn darparu ymateb ar unrhyw newidiadau sydd eu hangen o ganlyniad i'r adolygiad, gan gynnwys unrhyw newidiadau rheoleiddiol neu newidiadau i'r canllawiau statudol, a fydd ar waith er mwyn helpu i ddatblygu'r cylch nesaf o ADGPau ym mis Mehefin 2027. Byddwn yn darparu diweddariadau ysgrifenedig ar adegau allweddol wrth i ni fwrw ati â'r gwaith a byddwn yn sicrhau bod ein rhanddeiliaid yn gwbl ymwybodol o ddatblygiadau.

**Goblygiadau Ariannol** – dim gan ei fod yn cael ei ariannu o gyllidebau sy'n bodoli eisoes.

**Argymhelliad 4**

**Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y dylid llenwi bylchau yn y ddarpariaeth gofal plant ar gyfer gofal plant cynhwysol a hygyrch a nodir mewn ADGPau. Dylai hyn gynnwys amlinellu sut y gall Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol gydweithio a chefnogi ei gilydd i sicrhau bod camau cadarnhaol yn cael eu cymryd i ddarparu gofal plant cynaliadwy a chynhwysol ym mhob rhan o Gymru.**

**Ymateb: Gwrthod**

Er ein bod yn cydnabod pwysigrwydd y bwriad sydd tu ôl i'r argymhelliad hwn, cyfrifoldeb awdurdodau lleol, nid Llywodraeth Cymru, yw cyflawni'r ddyletswydd statudol i ymdrin â'r bylchau a nodir yn yr ADGPau. Er mwyn helpu awdurdodau lleol i ymdrin â bylchau yn y ddarpariaeth, mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid iddynt drwy elfen gofal plant a chwarae'r Grant Plant a Chymunedau. Wrth ddefnyddio'r cyllid hwn, anogir awdurdodau lleol i roi ystyriaeth arbennig i anghenion gofal plant a chwarae teuluoedd â phlant ag anghenion ychwanegol, er mwyn helpu i sicrhau bod y ddarpariaeth gofal plant yn gynhwysol ac yn hygyrch. Fodd bynnag, o gofio mai unigolion neu fusnesau preifat sydd i raddau helaeth yn darparu gofal plant, mae gallu awdurdodau lleol i sicrhau gofal plant cynaliadwy a chynhwysol ym mhob rhan o Gymru wedi'i gyfyngu gan y systemau.

Mae trefniadau effeithiol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn un o elfennau craidd yr asesiad digonolrwydd gofal plant. O dan y ddyletswydd i sicrhau darpariaeth gofal plant ddigonol, mae awdurdodau lleol yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu Cynlluniau Gweithredu Digonolrwydd Gofal Plant sy'n cael gwared ar y diffygion ac yn cynnal y cryfderau a nodwyd yn yr Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant, ac i roi'r cynlluniau hynny ar waith.

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau cyfraniad digonol gan amrywiaeth o bartneriaid a sefydliadau wrth gyflawni eu dyletswydd i asesu, cynllunio a sicrhau digonolrwydd y ddarpariaeth gofal plant yn eu hardal. Mae gan Sefydliadau Ambarél Gofal Plant Cenedlaethol a Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd gyfraniad allweddol i'w wneud wrth helpu awdurdodau lleol i gynllunio a diogelu digonolrwydd y ddarpariaeth gofal plant yn eu hardal.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau statudol er mwyn helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswydd i sicrhau bod gofal plant digonol ar gael, cynnal asesiadau digonolrwydd gofal plant, a rhoi gwybodaeth, cyngor a chymorth mewn perthynas â gofal plant i rieni, darpar rieni a'r rhai hynny â chyfrifoldeb rhiant neu sy'n gofalu am blentyn.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim.

**Argymhelliad 5**

**Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y gall geisio symleiddio'r amrywiol ffrydiau ariannu sydd ar gael i ddarparwyr gofal plant er mwyn sicrhau ei bod yn haws i ddarparwyr gofal plant wybod pa gymorth y gallant ei gael a'r ffordd orau o gael gafael arno.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Er mwyn sicrhau bod elfen gofal plant y Cynnig i blant tair a phedair oed yn cynnwys plant cymwys y mae angen cymorth ychwanegol arnynt, mae help ar gael drwy ffrwd ariannu ar wahân, sef Grant Cymorth Ychwanegol Cynnig Gofal Plant Cymru. Gall awdurdodau lleol ddefnyddio'r cyllid hwn i helpu i sicrhau bod plant cymwys ag anghenion ychwanegol yn gallu manteisio ar elfen gofal plant y Cynnig yn yr un ffordd â phlant cymwys eraill.

Cynhaliwyd adolygiad annibynnol o'r Grant Cymorth Ychwanegol yn ystod 2023/2024. Un o'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad oedd y gallai Llywodraeth Cymru o bosibl ystyried gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu ymgyrchoedd gwybodaeth a chyfathrebu ar y cyd i ddarparwyr a theuluoedd er mwyn sicrhau y gall pawb sy'n gymwys i gael cymorth gan y Grant Cymorth Ychwanegol ac y mae angen y cymorth hwnnw arnynt ei gael. Bydd swyddogion yn ystyried yr argymhelliad a wnaed yn yr adolygiad annibynnol o'r Grant Cymorth Ychwanegol ac yn datblygu ymgyrchoedd penodol i gyd-fynd â chanfyddiadau'r gwaith ymchwil ac i wella'r gofynion monitro ac adrodd.

Mae darparwyr gofal plant sydd wedi'u comisiynu gan Dechrau'n Deg yn cael cymorth uniongyrchol gan eu timau Cynghori Gofal Plant Dechrau'n Deg lleol er mwyn diwallu anghenion plant unigol. Fodd bynnag, nid oes ffrwd ariannu benodedig i gefnogi plant tair oed nad ydynt yn gymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant na'r rhai hynny o adeg eu geni hyd at dair oed nad ydynt yn gymwys ar gyfer Dechrau'n Deg ond sy'n mynychu lleoliadau gofal plant yn y sector nas cynhelir. Mae awdurdodau lleol wedi mabwysiadu gwahanol ddulliau gweithredu er mwyn diwallu anghenion a gallant fanteisio ar y Grant Plant a Chymunedau i'w helpu i wneud hynny.
Bydd swyddogion, gan weithio'n agos gyda'n partneriaid cyflawni, yn parhau i ystyried y rhwystrau posibl sy'n codi wrth geisio cael gafael ar gyllid a sut i ymdrin â'r rhwystrau hyn.
Byddwn hefyd yn parhau i ystyried dichonoldeb symleiddio ffrydiau ariannu presennol o fewn yr adnoddau presennol.

**Goblygiadau Ariannol** – Caiff gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd i fapio ffrydiau ariannu ac i adolygu'r argymhellion a wnaed fel rhan o'r adolygiad annibynnol o Grant Cymorth Ychwanegol Cynnig Gofal Plant Cymru ei gynnwys o fewn cyllidebau presennol.

**Argymhelliad 6**

**Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y cymorth ariannol ar gyfer gofal plant yn seiliedig ar anghenion y plentyn a'r lleoliad ac nid ar gymhwystra'r rhieni. Yn unol ag Argymhelliad 16, dylai Llywodraeth Cymru ystyried clustnodi cyllid er mwyn sicrhau bod cyllid sydd wedi'i anelu at gefnogi darpariaeth gynhwysol yn cael ei ddefnyddio at y diben penodol hwn.**

**Ymateb: Gwrthod**

Er mai ein huchelgais tymor hwy yw sicrhau bod cymorth ariannol ar gyfer gofal plant yn seiliedig ar anghenion y plentyn a'r lleoliad, yn hytrach na chymhwystra'r rhieni, rydym eisoes wedi amlinellu ein rhaglen gymorth bresennol o fewn cyfyngiadau'r gyllideb bresennol.

Mae gwasanaethau Allgymorth Dechrau'n Deg yn cynnig dull integredig o ddarparu gwasanaethau cymorth i deuluoedd gan ddefnyddio'r strwythurau a'r systemau a ddarperir gan y rhaglen. Mae'r gwasanaethau Allgymorth yn cynnig yr hyblygrwydd i ddarparu rhai o'r elfennau craidd neu bob un o'r elfennau craidd sy'n gysylltiedig â rhaglen Dechrau'n Deg (gan gynnwys gofal plant i blant dwy oed) i blant a'u teuluoedd y nodwyd eu bod mewn angen ond sy'n byw y tu allan i ardal Dechrau'n Deg. Gall pob awdurdod lleol ddyrannu hyd at 25% o nifer y plant y maent yn cael cyllid ar eu cyfer.

Mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol Baneli Blynyddoedd Cynnar sy'n derbyn atgyfeiriadau gan Ymwelwyr Iechyd neu gan Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer plant y nodwyd bod ganddynt anghenion sy'n dod i'r amlwg a'r plant hynny ag ADY sy'n byw y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg. Gall plant dwy i dair oed ag ADY y mae angen gofal plant arnynt er mwyn diwallu eu hanghenion datblygiadol gael cymorth drwy Dechrau'n Deg (yn amodol ar adnoddau).

Mae'r Grant Plant a Chymunedau yn galluogi awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd hyblyg er mwyn hybu trefniadau cynllunio a chomisiynu gwasanaethau ar y cyd i liniaru a dileu'r anfantais i blant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed.

Mae Cynnig Gofal Plant Cymru yn cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu 30 awr o addysg gynnar a gofal plant wedi'u hariannu gan y Llywodraeth i blant 3 a 4 oed rhieni cymwys am hyd at 48 wythnos y flwyddyn.

Mae'r Cynnig wedi'i gynllunio mewn ffordd sy'n ystyried y rhwystrau y gall rhieni cymwys eu hwynebu wrth fanteisio ar yr elfen gofal plant, yn enwedig y rheini sydd â phlant ag anghenion cymorth ychwanegol, gan gynnwys anableddau dysgu, corfforol a synhwyraidd. Er mwyn sicrhau bod elfen gofal plant y Cynnig yn cynnwys plant cymwys y mae angen cymorth ychwanegol arnynt, mae help ar gael drwy Grant Cymorth Ychwanegol Cynnig Gofal Plant Cymru. Gall awdurdodau lleol ddefnyddio'r cyllid hwn i helpu i sicrhau bod plant cymwys ag anghenion ychwanegol yn gallu manteisio ar elfen gofal plant y Cynnig yn yr un ffordd â phlant cymwys eraill.

Yn 2023/24, dyrannwyd £2m ar draws awdurdodau lleol er mwyn ymateb i'r anghenion hyn. Fodd bynnag, mae'r grant hwn yn seiliedig ar alw ac rydym yn ymrwymedig i roi cymorth i rieni a lleoliadau gofal plant lle bo angen. 2023/24 oedd y flwyddyn gyntaf lle roedd y galw yn uwch na'r lefel a ragwelwyd. Ar gyfer 2024/25, dyrannwyd £500,000 ychwanegol er mwyn ymdrin â'r pwysau parhaus a ragwelir.

Cynhaliwyd adolygiad annibynnol o'r Grant Cymorth Ychwanegol a chyhoeddwyd canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad ym mis Mai 2024. Dosbarthodd tîm yr adolygiad arolwg i bob un o'r 2,500+ o ddarparwyr gofal plant sydd wedi'u cofrestru i ddarparu'r Cynnig er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o bryderon darparwyr mewn perthynas â chael gafael ar gymorth a cyllid ar gyfer y plant hynny ag anghenion cymorth ychwanegol sy'n defnyddio eu gwasanaethau. Gofynnwyd hefyd am farn rhieni sy'n defnyddio'r Cynnig, gan gynnwys y rhai hynny sydd wedi cael cymorth drwy'r Grant Cymorth Ychwanegol, er mwyn deall yn well sut y gellid hyrwyddo, defnyddio a chydgysylltu'r cymorth hwn. Mae swyddogion wrthi'n adolygu argymhellion yr adroddiad a byddant yn rhoi cyngor ar y camau nesaf i Weinidogion Cymru ei ystyried.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Bydd angen i unrhyw benderfyniadau sydd naill ai'n deillio o'r adolygiad annibynnol neu y mae angen eu gwneud o safbwynt ehangach gael eu hystyried gan Weinidogion Cymru a'u neilltuo drwy'r broses gyllidebu arferol. Byddai angen cyngor pellach yn hyn o beth.

**Argymhelliad 7**

**Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau cwmpas yr adolygiad o’r Ddeddf a’r Cod ADY, ac amlinellu’r amserlen ar gyfer cwblhau’r adolygiad hwn, a ph’un a fydd canfyddiadau’r adolygiad yn cael eu cyhoeddi ai peidio.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi datgan ymrwymiad Llywodraeth Cymru i adolygu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer ADY i sicrhau ei fod yn glir ac yn cael ei ddeall, a'i fod yn cyflawni ei fwriad ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i edrych ar y fframwaith deddfwriaethol i ystyried eglurder a hygyrchedd y Ddeddf a'r canllawiau statudol i nodi'r camau nesaf ar gyfer sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei gweithredu'n fwy cyson ledled Cymru.

Caiff cwmpas yr adolygiad ei gwblhau erbyn mis Tachwedd 2024 a'r disgwyl yw y caiff diweddariad ar gynnydd a chanfyddiadau'r adolygiad ei gyflwyno i'r Senedd erbyn haf 2025.

**Goblygiadau Ariannol –** Caiff yr adolygiad ei reoli a'i gyllido gan ddefnyddio adnoddau presennol.

**Argymhelliad 8**

**Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i ddichonoldeb datblygu pecyn o hyfforddiant, canllawiau ac adnoddau ar y Ddeddf a'r Cod ADY ar gyfer lleoliadau gofal plant. Fel rhan o'r gwaith dichonoldeb, dylai Llywodraeth Cymru roi ystyriaeth benodol i sut y byddai darparwyr gofal plant yn gallu cael mynediad at hyfforddiant o'r fath a'i ariannu.**

**Ymateb: Derbyn**

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried dichonoldeb datblygu pecyn o hyfforddiant, canllawiau ac adnoddau ar y Ddeddf a'r Cod ADY ar gyfer lleoliadau gofal plant. Byddwn yn gweithio'n agos gyda Swyddogion Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar mewn awdurdodau lleol a Cwlwm i ystyried y trefniadau presennol ac unrhyw ganllawiau, hyfforddiant neu adnoddau ychwanegol y gall fod eu hangen. Nodir y trefniadau presennol isod:

- Mae dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i benodi swyddog arweiniol ADY ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar a ddylai wneud trefniadau, os yw'n briodol, i roi hyfforddiant i unigolion yn ei ardal leol ar y blynyddoedd cynnar ac ADY.

- Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i Cwlwm a Chwarae Cymru er mwyn iddynt gefnogi eu haelodau yn y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaeth Cwlwm i helpu'r sector gofal plant i ddeall ei rolau a'i gyfrifoldebau mewn perthynas â'r Cod ADY.

- Mae partneriaid Cwlwm yn darparu hyfforddiant, gwybodaeth, cyngor a chanllawiau i leoliadau i gefnogi newidiadau ADY a'u rhoi ar waith. Er enghraifft, mae blog ar gael ar wefan Cwlwm sy'n darparu gwybodaeth a chanllawiau ar y cod a'r Ddeddf ADY. Mae'r Mudiad Meithrin wedi datblygu fideo ar y system ADY a fydd yn galluogi ei aelodau i ddeall eu rhwymedigaethau o dan y Cod ADY. Mae Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA) Cymru wedi trefnu gweminar am ddim, sef 'Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Nghymru' i'w chyflwyno yn ystod haf 2024, a fydd yn ystyried y Ddeddf a'r cod ADY, beth maent yn ei olygu i leoliadau a sut i roi arferion effeithiol ar waith.

- Mae Swyddogion Arweiniol ADY ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar yn gyfrifol am wneud trefniadau i roi canllawiau i ddarparwyr gofal plant, gan gynnwys y rhai hynny sy'n darparu addysg feithrin a ariennir mewn lleoliadau meithrin nas cynhelir, ar ddiwallu anghenion plant sy'n mynychu eu lleoliadau.

- Mae awdurdodau lleol yn cael cyllid drwy'r Grant Plant a Chymunedau i gefnogi amrywiaeth o hyfforddiant ar gyfer lleoliadau gofal plant, o hyfforddiant gorfodol i hyfforddiant ar arferion effeithiol, i'w bennu gan awdurdodau lleol ac ar sail anghenion lleol. Gall hyn gynnwys hyfforddiant neu gyrsiau ADY.

- Mae cymwysterau gofal plant a Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan yn cynnwys ffocws ar ddeall anghenion plant anabl neu anghenion ychwanegol eraill a sicrhau cymorth drwy gyngor neu addasiadau ychwanegol. Mae cymwysterau gofal plant yn asesu'r elfennau hyn yn ogystal â dealltwriaeth o'r fframweithiau cyfreithiol sy'n gymwys wrth ddarparu gwasanaethau i blant ag anghenion ychwanegol.

- Mae'r cymhwyster Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol mewn Gofal, Chwarae, Dysgu, a Datblygiad Plant yn anelu at feithrin yr wybodaeth, y ddealltwriaeth, yr ymddygiad a'r sgiliau sy'n sail i Ymarfer Proffesiynol yn y sector gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. Er mwyn ennill y cymhwyster, rhaid i ddysgwyr ymgymryd ag un o dri llwybr, sy'n cynnwys 'Adnabod a chefnogi plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol'.

- Yn ogystal ag unrhyw ofynion hyfforddi a amlinellir yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol, rhaid i bob aelod o staff gofal plant mewn lleoliadau Dechrau'n Deg ymgymryd ag o leiaf bum diwrnod o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) neu ddysgu proffesiynol bob blwyddyn, fel y dynodir gan eu Timau Cynghori Gofal Plant a, chyhyd ag y bo'n bosibl, roi'r strategaethau a argymhellir gan y Tîm Cynghori Gofal Plant ar waith.

**Goblygiadau Ariannol** – darperir yr hyfforddiant, y canllawiau a'r adnoddau presennol i gefnogi lleoliadau gofal plant o gyllidebau presennol, ond os cytunir ar waith pellach o ganlyniad i'r astudiaeth ddichonoldeb, byddai goblygiadau ariannol yn deillio o hynny. Byddai'r goblygiadau hynny yn cael eu hystyried ar y pryd a cheir cyngor pellach wedi hynny.

**<u>Argymhelliad 9</u>**

**Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau i'r holl ddarparwyr gofal plant ynghylch yr hyn y disgwylir iddynt ei wneud i gefnogi awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf a'r Cod ADY. Dylai'r canllawiau hyn roi enghreifftiau pendant o'r hyn y disgwylir i ddarparwyr ei wneud. Dylid diweddaru'r canllawiau hyn yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau'n gyfredol, yn berthnasol ac yn ddefnyddiol.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn mewn egwyddor yr argymhelliad i gyhoeddi canllawiau i'r holl ddarparwyr gofal plant ynghylch yr hyn y disgwylir iddynt ei wneud i gefnogi awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf a'r Cod ADY. Byddwn yn ailystyried yr argymhelliad unwaith y caiff yr astudiaeth ddichonoldeb sy'n rhan o argymhelliad 8 ei chwblhau.

Mae dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddynodi swyddog arweiniol ADY ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar a fydd yn gyfrifol am gydlynu'r swyddogaethau o dan y Ddeddf a'r Cod ADY yn eu hardal ar gyfer plant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgolion a gynhelir. Dylai'r rôl hon annog cydweithrediad â darparwyr gofal plant a gwneud trefniadau ar gyfer rhoi arweiniad a gwybodaeth i ddarparwyr mewn perthynas â diwallu anghenion plant ag ADY yn eu lleoliadau.

**Goblygiadau Ariannol –** Caiff unrhyw waith yn y maes hwn ei reoli gan ddefnyddio adnoddau presennol.

**<u>Argymhelliad 10</u>**

**Dylai Llywodraeth Cymru ystyried adolygu strategaethau a chynlluniau hygyrchedd ledled Cymru, gyda'r bwriad o roi cyfarwyddiadau i unrhyw awdurdod lleol neu ysgol sy'n methu â chyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.**

**Ymateb: Gwrthod**

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i greu Cymru a fydd yn darparu mynediad teg at wasanaethau i bawb ac yn cyflawni canlyniadau tecach i'n pobl a'n cymunedau amrywiol ledled Cymru. Mae ein Hamcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol a'n cynlluniau cydraddoldeb, fel Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn darparu fframwaith cadarn, gan helpu i leihau cymhlethdod a sicrhau ymhellach bod cydraddoldeb yn rhan annatod o'n hystyriaethau wrth lunio polisïau.

Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am baratoi strategaethau hygyrchedd, ac mae'n ofynnol wedyn i ysgolion sicrhau bod cynlluniau hygyrchedd cyfredol ar waith. Mae Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC) wedi datgan ei bod wedi cyhoeddi polisïau enghreifftiol i ysgolion a chyrff llywodraethu ac y bydd yn cynnal hyfforddiant pellach i ysgolion ar eu cyfrifoldebau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Byddwn yn gweithio gyda CCAC i sicrhau y caiff pob ysgol ei hatgoffa o'i chyfrifoldebau yn hyn o beth, ac o'r angen i adolygu a diweddaru ei chynlluniau drwy ymgynghori â phlant a theuluoedd.

Byddwn yn adolygu ein canllawiau, 'Cynllunio ar gyfer cynyddu mynediad i ysgolion i ddisgyblion ag anableddau', â'r bwriad o ystyried a ellir eu hatgyfnerthu ymhellach ac a oes cyfleoedd i'w cysoni ymhellach â gofynion Safonau Adeiladu Cymru.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim goblygiadau ariannol oherwydd caiff yr argymhelliad hwn ei gynnwys o fewn 'busnes fel arfer' a'i gyllido gan ddefnyddio cyllidebau presennol.

**<u>Argymhelliad 11</u>**

**Gan weithio gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu canllawiau ymarferol i ysgolion er mwyn eu helpu i ddeall y model cymdeithasol o anabledd a sut i fabwysiadu'r dull hwn ar draws pob agwedd ar fywyd yr ysgol. Dylai'r canllawiau hyn fod mor ymarferol â phosibl, a dylid eu datblygu ar y cyd â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd, yn ogystal â sefydliadau anabledd. Dylid diweddaru'r canllawiau'n rheolaidd er mwyn ystyried datblygiadau. Dylai Estyn ymgymryd â gwaith monitro a gwerthuso rheolaidd i weld sut y mae ysgolion yn rhoi'r canllawiau hyn ar waith, a'r effeithiau a gânt ar brofiadau plant a phobl ifanc.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae deall y model cymdeithasol o anabledd yn hanfodol er mwyn helpu i ddarparu gwasanaethau addysg cynhwysol. Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i drafod y syniad o ganllawiau ar y cyd a chaiff trafodaethau pellach ar gwmpas ac amserlenni eu cynnal yn ystod yr hydref.

Dylid nodi ein bod yn derbyn yr agweddau ar yr argymhelliad sydd wedi'u cyfeirio at Lywodraeth Cymru. Ni allwn wneud sylwadau ar yr agweddau sydd wedi'u hanelu at Estyn na derbyn y rhan hon o'r argymhelliad ar ei ran oherwydd ei fod yn gorff annibynnol. Fodd bynnag, byddwn yn trafod sut y bydd Estyn yn ystyried y materion hyn a phryd fyddai'n amser priodol i nodi hyn i'w ystyried ar gyfer un o'i adolygiadau thematig.

**Goblygiadau Ariannol** – Ni ddylai fod fawr ddim goblygiadau, os o gwbl, mewn perthynas â datblygu'r canllawiau a'u cynnal wedi hynny. Mae'n bosibl y bydd rhai costau lefel isel yn gysylltiedig ag ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys plant a phobl ifanc, ysgolion a rhieni, ond gellir eu talu gan ddefnyddio cyllidebau presennol.

**Argymhelliad 12**

**Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r ffordd orau y gall staff nad ydynt yn staff addysgu mewn ysgolion ac awdurdodau lleol gefnogi darpariaeth gynhwysol ledled Cymru. Dylai hyn gynnwys nodi enghreifftiau o arferion gorau o bob rhan o Gymru. Dylai gwaith o'r fath hefyd ystyried y goblygiadau cyllido sy'n gysylltiedig ag arferion gorau, a'r ffordd orau o gefnogi awdurdodau lleol ac ysgolion i gyflawni hyn.**

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn cydnabod bod staff nad ydynt yn staff addysgu mewn ysgolion ac awdurdodau lleol yn darparu amrywiaeth o gymorth er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth gynhwysol yng Nghymru. Er mai cyfrifoldeb awdurdodau lleol a / neu ysgolion yw'r trefniadau ar gyfer cyflogi cynorthwywyr addysgu ac aelodau eraill o staff nad ydynt yn addysgu, rydym yn bwriadu gweithio gyda nhw i ddeall arfer gorau mewn perthynas â chefnogi darpariaeth gynhwysol. Mae'r Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol ar gyfer Ysgolion (SSPF) yn ystyried y maes hwn.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim.

**Argymhelliad 13**

**Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil i'r defnydd o amserlenni â llai o oriau, sy'n cynnwys hyd yr amser y mae plant a phobl ifanc yn eu dilyn, y rhesymau dros eu defnyddio, a'r camau a gymerir i ddychwelyd plant a phobl ifanc i amserlen lawn. Dylai'r ymchwil hwn hefyd adolygu'r mecanweithiau a ddefnyddir pan na fydd y canllawiau'n cael eu dilyn, er mwyn sicrhau mai dim ond pan fo hynny'n briodol y defnyddir amserlenni â llai o oriau, a bod dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn cael ei fabwysiadu wrth wneud penderfyniadau ar sut i'w defnyddio.**

**Ymateb: Derbyn**

Ym mis Hydref 2023, gwnaethom gyhoeddi canllawiau ar ddefnyddio amserlenni rhan-amser. Er ei bod hi'n rhy gynnar i werthuso effaith y canllawiau hyn, rydym yn cydnabod nad ydym ar hyn o bryd yn casglu data am nifer y dysgwyr sy'n dilyn amserlen ran-amser.

Er mwyn ymdrin â hyn, rydym yn ystyried sut y gallwn gasglu data am nifer y dysgwyr sy'n dilyn amserlen ran-amser, drwy CYBLD a'r Cyfrifiad Addysg Heblaw yn yr Ysgol. Mae cyflwyno newidiadau o'r fath yn broses hir ac, fel y cyfryw, i ddechrau byddwn yn cynnal dadansoddiad o ddata presenoldeb er mwyn amcangyfrif nifer y dysgwyr sy'n dilyn amserlen ran-amser.

Yn y tymor hwy, byddwn yn ystyried cyfleoedd i werthuso effaith ac effeithiolrwydd y canllawiau ar amserlenni rhan-amser o ran a yw'r trefniadau hyn yn cael eu defnyddio'n briodol.

**Goblygiadau Ariannol** – Ni ddylai fod fawr ddim goblygiadau, os o gwbl, mewn perthynas â'r gwaith i adolygu'r data presennol ac ystyried sut y gellir casglu data ychwanegol. Gellir talu unrhyw gostau o'r fath gan ddefnyddio cyllidebau presennol. Caiff cyngor ar gostau casglu data ychwanegol, ar gyfer Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid, ei roi i Ysgrifennydd y Cabinet unwaith y bydd y gwaith hwnnw wedi'i gwblhau. Os bydd angen gwaith ymchwil ychwanegol, byddai angen pennu costau'r gwaith hwnnw ar y pryd, a rhoi cyngor i Ysgrifennydd y Cabinet. Byddai angen ystyried costau ychwanegol yng nghyd-destun y Prif Grŵp Gwariant Addysg a chyllideb ehangach Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 14**

**Wrth ymateb i ganfyddiadau'r adolygiad o gyllid ysgolion, dylai Llywodraeth Cymru amlinellu'n gyhoeddus sut y bydd yn bwrw ymlaen ag unrhyw argymhellion neu gamau gweithredu sy'n deillio ohono, a nodi amserlen glir ar gyfer cyflawni'r camau hyn. Yn benodol, dylai amlinellu sut y bydd gwell cysondeb yn helpu i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt mewn ysgolion.**

**Ymateb: Derbyn**

Tynnodd yr Adolygiad annibynnol o Wariant Ysgolion yng Nghymru sylw at gymhlethdod y system ariannu. Rydym eisoes wedi cyhoeddi diweddariad ar gynnydd i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Rydym wrthi ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad o fformiwlâu ariannu ysgolion awdurdodau lleol. Drwy'r dadansoddiad hwn, rydym yn bwriadu meithrin dealltwriaeth well o'r cymhlethdodau a'r prosesau gwneud penderfyniadau sy'n gysylltiedig â'r fformiwlâu hyn ledled Cymru. Bydd yr adolygiad hwn yn ein helpu i ystyried sut y gellir gwella'r system.

Yn ystod yr hydref, byddwn yn rhoi diweddariad pellach i'r Pwyllgor yn nodi unrhyw gynnydd pellach a wnaed gan Lywodraeth Cymru wrth fwrw ymlaen ag argymhellion yr adolygiad. Byddwn hefyd yn nodi llinell amser ar gyfer gwaith sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y dyfodol yn y maes hwn.

**Goblygiadau Ariannol** – Ni ddylai fod fawr ddim goblygiadau, os o gwbl, mewn perthynas â darparu diweddariad ar gynnydd wrth fwrw ymlaen ag argymhellion yr adolygiad a chaiff y gwaith ei ariannu gan ddefnyddio cyllidebau presennol.

**Argymhelliad 15**

**Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r cyflyrau mwyaf cyffredin, megis dyslecsia, a fyddai'n elwa o ddatblygu darpariaeth gyffredinol a chymorth a'u darparu i bob ysgol. Dylid gwneud hyn drwy ymgynghori â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd, yn ogystal â gweithwyr addysg proffesiynol, awdurdodau lleol, a gweithwyr iechyd proffesiynol. Ar ôl i'r gwaith hwn gael ei wneud, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu amserlen glir ar gyfer cyflwyno'r ddarpariaeth gyffredinol hon. Dylai'r ddarpariaeth hon fod ar gael am ddim i bob ysgol.**

**Ymateb: Gwrthod**

Gwrthodir yr argymhelliad hwn gan fod gwaith eisoes yn mynd rhagddo i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru a ddatblygwyd i fod yn hygyrch ac yn gynhwysol i bawb, gan alluogi pob ysgol a lleoliad i ddatblygu cwricwlwm sy'n adlewyrchu eu cyd-destun a'u dysgwyr.

Yn benodol, mae adran 'Galluogi dysgu' canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru wedi'i datblygu i helpu ymarferwyr i gynllunio, dylunio a gweithredu cwricwlwm sy'n briodol o safbwynt datblygiadol ac addysgegol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Mae'n darparu'r sail gadarn sydd ei hangen ar bob dysgwr i'w helpu i ddatblygu, ar ei gyflymder ei hun, gan anelu at wireddu pedwar diben y cwricwlwm. Mae'r canllawiau yn canolbwyntio ar yr egwyddorion allweddol sy'n hanfodol er mwyn sicrhau dysgu cyfannol ac ystyrlon i bob dysgwr. Mae hyn yn cynnwys datblygiad plant, sy'n hanfodol i addysgu a dysgu, a chaiff ei fynegi ar ffurf pum llwybr datblygiadol: perthyn, cyfathrebu, archwilio, datblygiad corfforol a lles. Rydym yn cydnabod y gall gweithredu mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y dysgwr a chydweithio â theuluoedd a phartneriaid gefnogi datblygiad cyfannol. Byddwn yn parhau i roi'r canllawiau hyn ar waith mewn ysgolion a lleoliadau gan weithio gydag uwch-arweinwyr ac ymarferwyr i godi ymwybyddiaeth.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda sefydliadau'r trydydd sector, rhieni ac ymarferwyr i ddatblygu adnoddau defnyddiol i gefnogi dysgwyr ac ymarferwyr. Er enghraifft, eleni cafodd set o fodiwlau dysgu ei datblygu a'i chyhoeddi ar y cyd â Chynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector (TSANA). Mae'r modiwlau hyn yn anelu at helpu ymarferwyr i wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o amrywiaeth o anawsterau dysgu, fel dyslecsia, ac anableddau. Maent hefyd yn cynnig strategaethau ar gyfer cefnogi dysgwyr ag anghenion penodol. Mae'r modiwlau ar gael ar dudalen Hwb Llywodraeth Cymru.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim

**<u>Argymhelliad 16</u>**

**Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau sy'n nodi'n glir gyfrifoldebau a dyletswyddau awdurdodau lleol ac ysgolion i sicrhau eu bod yn darparu'r cymorth angenrheidiol fel bod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu manteisio ar ei hawl i addysg. Dylai hefyd ystyried a fyddai clustnodi cyllid yn ffordd effeithiol a phriodol o sicrhau bod arian y bwriedir iddo gael ei ddefnyddio i gefnogi'r grwpiau hyn o blant a phobl ifanc yn cael ei wario yn y ffordd honno.**

**Ymateb: Derbyn**

Nododd y ddeddfwriaeth ADY a'r Cod ADY y cyfrifoldeb a'r dyletswyddau sydd ar awdurdodau lleol ac ysgolion i sicrhau eu bod yn darparu cymorth angenrheidiol i blant a phobl ifanc ag ADY. Fel rhan o'r adolygiad o'r ddeddfwriaeth hon, caiff y camau nesaf a chamau gweithredu eu nodi er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth a'r Cod yn glir ac yn ddealladwy.

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau drwy'r canllaw i'r gyfraith i lywodraethwyr ysgolion sy'n nodi cyfrifoldeb ysgolion mewn perthynas â deddfwriaeth cydraddoldeb. Mae hyn yn cynnwys y ddyletswydd addasiadau rhesymol, sicrhau y caiff rhwystrau i addysg i ddysgwyr ag anableddau eu rhagweld ac y caiff camau eu cymryd i ddileu'r rhwystrau hyn cyn belled ag y bo'n rhesymol bosibl.

Wrth fwrw ati â'r gwaith ar argymhellion 11 a 31, byddwn yn ystyried a ddylid cynnwys gwybodaeth ychwanegol yn y canllaw i lywodraethwyr ysgolion ai peidio.

Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod darpariaeth addysg addas ar gael yn eu hardal. Wrth ystyried clustnodi arian, mae'n bwysig nodi bod Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i awdurdodau lleol i'w helpu i gyllido darpariaeth cyn 16 oed mewn ysgolion yng Nghymru drwy'r setliad refeniw llywodraeth leol yn bennaf. Nid yw'r setliad wedi'i glustnodi; mae'r cyllid a ddyrennir i bob awdurdod ar gael i'r awdurdod hwnnw i'w wario fel y gwêl yn dda ar yr amrywiaeth o wasanaethau y mae'n gyfrifol amdanynt, gan gynnwys ysgolion. Mae hyn yn cyd-fynd â pholisi Llywodraeth Cymru mai awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i asesu anghenion ac amgylchiadau lleol a chyllido ysgolion yn unol â hynny.

Er y caiff cyllid ar gyfer ysgolion yng Nghymru ei ddarparu'n bennaf drwy'r setliad llywodraeth leol, mae cyllideb addysg Llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi gwariant o fewn ysgolion a gwariant ar ysgolion, athrawon a rhaglenni addysg ehangach.

**Goblygiadau Ariannol** – Ni ddylai fod fawr ddim goblygiadau, os o gwbl, mewn perthynas â'r gwaith i adolygu'r canllawiau presennol, na'r gwaith i ystyried rheolaethau ariannol, a chaiff y gwaith ei ariannu gan ddefnyddio cyllidebau presennol.

**Argymhelliad 17**

**Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r meini prawf ar gyfer AGA i gryfhau'r gofynion ynghylch anabledd ac anghenion dysgu ychwanegol. Dylai hyn sicrhau bod gan bob athro, ar ddiwedd ei AGA, lefel sylfaenol o sgiliau a dealltwriaeth o faterion yn ymwneud ag anabledd ac ADY a bod ganddo'r hyder i gefnogi'r holl blant a phobl ifanc y mae'n eu haddysgu. Dylid hefyd sicrhau bod AGA yn cynnwys y wybodaeth glinigol ddiweddaraf fel bod gan athrawon sydd newydd gymhwyso y wybodaeth ddiweddaraf i fod yn sail i'w hymarfer.**

**Ymateb: Derbyn**

Rydym wedi diweddaru'r Meini Prawf ar gyfer Achredu rhaglenni AGA yng Nghymru ar gyfer cyrsiau a fydd yn gweithredu o fis Medi 2024. Mae'r meini prawf diwygiedig hyn wedi atgyfnerthu'r gofynion i raglenni AGA sicrhau bod pob athro dan hyfforddiant yn meddu ar ddealltwriaeth o anghenion dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae adrannau 5.7, 5.8 a 5.9 yn ymwneud yn benodol â'r gofynion i athrawon dan hyfforddiant allu nodi anghenion dysgwyr ag ADY a'u diwallu.

Yn ogystal â'r adrannau penodol hyn, mae gofynion ym mhob rhan o'r Meini Prawf sy'n nodi'r ddealltwriaeth y mae'n rhaid i bob athro dan hyfforddiant feddu arni mewn perthynas â chydraddoldeb, cynwysoldeb, diogelu a lles pob dysgwr.

Mae'n ofynnol i bob rhaglen AGA sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant yn ymwybodol o waith ymchwil a'u bod yn parhau i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau yn seiliedig ar y gwaith ymchwil diweddaraf.

Yn benodol, rydym wedi ychwanegu Atodiad 4: Darpariaeth AGA arbenigol yn y cyfnod cynradd ar gyfer ADY at y Meini Prawf, sy'n galluogi Partneriaethau AGA i gyflwyno rhaglen TAR Cynradd beilot â Statws Athro Cymwysedig (SAC) sy'n cynnwys arbenigedd ADY i gael ei hachredu. O dan yr Atodiad hwn, mae Partneriaeth AGA Caban ym Mhrifysgol Bangor wedi llwyddo i gael achrediad yn ddiweddar ar gyfer rhaglen TAR Cynradd â SAC ag arbenigedd mewn Niwroamrywiaeth. Rydym yn gweithio gyda'r bartneriaeth i fonitro a gwerthuso'r rhaglen. Bydd hyn yn cynnwys cyfraddau cofrestru, cyrchfannau'r unigolion hynny sy'n ymgymryd â'r rhaglen ac asesiad i benderfynu a yw'r rhaglen yn cyrraedd y safonau ansawdd a'r safonau proffesiynol sy'n ofynnol ar gyfer dyfarnu SAC.

Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i drefnu gweithdy gyda phob rhanddeiliad er mwyn nodi'r rhwystrau i ymgysylltu rhwng AGA ac ysgolion arbennig ac i ddeall y rhwystrau hynny'n well. Bydd hyn yn darparu mwy o dystiolaeth empirig ar gyfer unrhyw newidiadau y gellir eu gwneud er mwyn diwallu anghenion y sector.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim oherwydd caiff ei reoli gan ddefnyddio cyllidebau presennol.

**Argymhelliad 18**

**Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad ar ei gwaith ar ddarpariaeth AGA ar gyfer y sector ysgolion arbennig.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r sector Ysgolion Arbennig eisoes yn gallu ymuno â Phartneriaethau AGA a darparu cyfnodau o ymarfer clinigol ar raglenni. Gall lleoliadau profiad mewn ysgol gael eu trefnu mewn ysgol arbennig neu uned ADY. Yn yr achosion hyn, dylai Partneriaethau sicrhau nad oes mwy na 30% o'r profiad mewn ysgol yn digwydd y tu allan i amgylchedd dysgu prif ffrwd er mwyn sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant yn barod i addysgu mewn amgylcheddau prif ffrwd ac ADY. Rydym yn parhau i ymgysylltu â Phartneriaethau AGA ac Ysgolion Arbennig er mwyn nodi sut y gallwn ymgysylltu mwy â'r sector gan sicrhau ar yr un pryd bod gofynion craidd y ddarpariaeth AGA yn parhau i gael eu bodloni. Caiff hyn ei lywio gan y gwerthusiad o'r rhaglen TAR Cynradd ag ADY sy'n cael ei threialu gan Bartneriaeth AGA Caban.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim oherwydd caiff ei reoli gan ddefnyddio cyllidebau presennol.

**Argymhelliad 19**

**Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu modiwl hyfforddiant gorfodol ar ymwybyddiaeth o anabledd i holl staff ysgolion. Dylai hyn gynnwys y model cymdeithasol o anabledd, a sicrhau bod gan bob aelod o staff yr ysgol lefel sylfaenol o ymwybyddiaeth, yn ogystal â'u cyfeirio at adnoddau eraill os ydynt am ddatblygu eu sgiliau a'u harbenigedd. Dylai hefyd gyd-fynd â'r ymchwil a'r wybodaeth glinigol ddiweddaraf, a chael ei ddiweddaru i adlewyrchu unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau dilynol.**

**Ymateb: Gwrthod**

Nid yw Llywodraeth Cymru yn pennu gofynion dysgu proffesiynol gorfodol mewn perthynas â meysydd penodol o ymarfer proffesiynol. Mae'r unig eithriadau yn ymwneud â chymwysterau proffesiynol, er enghraifft llwybrau at addysgu a hyfforddiant penodol sy'n ofynnol gan gyflogwyr e.e. GDPR. Mae tystiolaeth ymchwil yn dangos mai penderfyniadau gwirfoddol i ymgymryd â chyfleoedd dysgu proffesiynol a dysgu ar sail ymholi yw'r ffordd fwyaf effeithiol o feithrin gwybodaeth ymarferwyr a gwella deilliannau dysgwyr.

Mae ein hymrwymiad fel rhan o genhadaeth ein cenedl yn nodi y byddwn yn meithrin diwylliant o gyfrifoldeb ar y cyd mewn perthynas â dysgu proffesiynol, drwy'r Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol. Dylid teilwra cyfleoedd dysgu proffesiynol wedi'u harwain yn effeithiol at ymarferwyr, a dylai'r cyfleoedd hynny gael eu llywio ganddynt, a hynny yng nghyd-destun blaenoriaethau ysgolion a blaenoriaethau cenedlaethol a blaenoriaethau proffesiynol a phersonol ehangach.

Rydym yn canolbwyntio ar sicrhau bod y broses o ddatblygu ymarferwyr addysg yn cynnig profiad parhaus, cydweithredol a gwerthusol, yn hytrach na phrofiad unigol, ynysig a rhagnodol. Nid oes unrhyw bwerau uniongyrchol i bennu cyfleoedd dysgu proffesiynol gorfodol penodedig i bob gweithiwr proffesiynol ym maes addysg. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio dulliau ysgogi sy'n bodoli eisoes i hyrwyddo cyfleoedd dysgu proffesiynol mewn meysydd blaenoriaeth e.e. y safonau proffesiynol, HMS a'r Grant Dysgu Proffesiynol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda chonsortia addysg a phartneriaethau rhanbarthol, a gweithwyr cyfranogiad awdurdodau lleol, gyda chymorth gan Gomisiynydd Plant Cymru ac Anabledd Cymru, i greu pecyn dysgu proffesiynol ar-lein ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau.

Mae'r adnodd dysgu proffesiynol cenedlaethol hwn yn helpu ymarferwyr, penaethiaid, cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol i ddatblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r ddau gonfensiwn. Roedd angen darpariaeth dysgu proffesiynol gyson er mwyn helpu ysgolion i fodloni gofynion Adran 64 Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021. Cyhoeddwyd y ddau fodiwl cyntaf yn 2023 drwy lwyfan dysgu Hwb.

Mae'r modiwl cyntaf yn darparu cyflwyniad cyffredinol i hawliau dynol plant, gan gynnwys adnodd defnyddiol i bob sefydliad yn y sector cyhoeddus ei ddefnyddio i wella eu dealltwriaeth o'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau. Mae'r modiwl hwn hefyd yn cynnwys fideo byr sy'n cynnig esboniad syml o'r model cymdeithasol o anabledd a'i berthnasedd o fewn Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau.

Mae'r ail fodiwl yn darparu archwiliad manylach o sut y gall penaethiaid, cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol gynnwys y ddau Gonfensiwn fel rhan o'u cwricwla newydd. Hyd yn hyn, bu dros 2,600 o ymweliadau â thudalennau'r modiwlau ac maent hefyd yn cynnig dolenni i adnoddau ychwanegol wedi'u llunio gan Anabledd Cymru, Comisiynydd Plant Cymru, UNICEF a sefydliadau priodol eraill.

Mae trydydd modiwl wrthi'n cael ei ddatblygu a bydd yn helpu ymarferwyr i ddeall sut i gynllunio, dylunio ac adolygu eu cwricwlwm ysgol mewn perthynas â'r ddau Gonfensiwn, drwy ddarparu enghreifftiau ymarferol o astudiaethau achos. Caiff y modiwl newydd hwn ei gyhoeddi'n ddiweddarach yn ystod y flwyddyn.

Rydym hefyd yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cyfleoedd dysgu proffesiynol er mwyn helpu i roi'r Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin â Llesiant Emosiynol a Meddyliol ar waith a fydd yn cynnwys cyfleoedd dysgu proffesiynol ar ddatblygiad plant a niwrowahaniaeth.

Sefydlodd Llywodraeth Cymru y Tasglu Hawliau Pobl Anabl er mwyn dod â phobl â phrofiad bywyd, sefydliadau cynrychioliadol a swyddogion polisi Llywodraeth Cymru ynghyd i ystyried yr argymhellion sydd eu hangen i gyflawni gwelliannau i bobl anabl yng Nghymru, y bydd Llywodraeth Cymru, gwasanaethau cyhoeddus ehangach a phobl anabl yn gweithio gyda'i gilydd i'w rhoi ar waith. Bydd canfyddiadau allweddol y Tasglu yn llywio'r broses o ddatblygu'r Cynllun Gweithredu ar Hawliau Anabledd.

Un o flaenoriaethau allweddol y Tasglu hwn oedd ystyried argymhellion ar gyfer plant a phobl ifanc. Er mwyn gwneud hyn, cynhaliodd gweithgor Plant a Phobl ifanc y Tasglu ymgynghoriad â rhieni, plant anabl, a'u lleoliadau addysgol. Mae argymhellion y grŵp yn seiliedig ar hyrwyddo'r model cymdeithasol o anabledd a'i roi ar waith ac ymdrin â'r heriau sy'n effeithio ar allu plant anabl i gyfranogi'n llawn mewn addysg, mewn meysydd fel chwarae.

**Goblygiadau Ariannol**: Dim

**<u>Argymhelliad 20</u>**

**Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau i ysgolion ac awdurdodau lleol i sicrhau bod adeiladau newydd, neu newidiadau i ystadau ysgolion presennol, yn seiliedig ar brofiadau a thystiolaeth plant, pobl ifanc, teuluoedd a staff sydd â phrofiad bywyd o anabledd. Dylai'r gwaith ymgysylltu hwn hefyd sicrhau bod anghenion y dyfodol yn cael eu hystyried fel bod adeiladau'n gwbl hygyrch i bawb a allai eu defnyddio yn y dyfodol.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae'n rhaid i unrhyw waith i adeiladu ysgol newydd neu i wneud newidiadau sylweddol i ysgol ddilyn rheoliadau a chanllawiau. Mae Rhan M y Rheoliadau Adeiladu yn set o reoliadau sy'n nodi'r gofynion o ran mynediad i adeiladau a'r defnydd a wneir ohonynt. Nod Rhan M yw sicrhau bod adeiladau yn hygyrch i bawb, ni waeth unrhyw anabledd neu amhariad o ran symudedd. Mae canllawiau pellach ar ofynion dylunio a gofod wrthi'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd, a chaiff dogfen newydd, sef Canllawiau Adeiladu Cymru – Canllawiau Ardal i Ysgolion yng Nghymru, ei chyhoeddi yn ystod yr hydref i ddisodli Bwletin Adeiladu 98, 99 a 104. Disgwyliad Llywodraeth Cymru pan fydd unrhyw gyfleuster newydd yn cael ei ddylunio yw y dylid ymgynghori â'r holl randdeiliaid perthnasol gan gynnwys staff, disgyblion a'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu, ac mae'n arfer da gwneud hynny. Caiff hyn ei gynnwys yn y canllaw hwn ac fel rhan o'r Canllawiau Achos Busnes ehangach ar gyfer Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim goblygiadau ariannol oherwydd caiff yr argymhelliad hwn ei gynnwys o fewn 'busnes fel arfer'.

**<u>Argymhelliad 21</u>**

**Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu rhagor o fecanweithiau i sicrhau bod mwy o gyfleoedd i rannu a lledaenu arferion da ac arloesol mewn perthynas â theithio gan ddysgwyr. Gallai hyn gynnwys uwchgynhadledd flynyddol gyda'r Ysgrifennydd Cabinet neu'r Gweinidog perthnasol.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r Gymdeithas Swyddogion Cydgysylltu Trafnidiaeth (ATCO) eisoes yn cynnal is-grwpiau cludiant i'r ysgol i drafod materion ac i rannu arferion mewn perthynas â chludiant i'r ysgol.  Fodd bynnag, fel yr amlinellwyd yn yr Adroddiad Argymhellion Teithio gan Ddysgwyr a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2024, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod rhai arferion ardderchog ar waith ledled Cymru er mwyn cefnogi amrywiaeth eang o opsiynau teithio i blant a phobl ifanc. Daeth yr Adroddiad Argymhellion i'r casgliad y dylid llunio llwyfan addas i hyrwyddo arferion teithio arloesol gan ddysgwyr ac i helpu i rannu adnoddau arferion gorau, mewn partneriaeth â phartneriaid cyflawni. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag ATCO i sefydlu fforwm lle gall awdurdodau lleol gyfarfod yn rheolaidd i ddatblygu'r rhwydwaith arferion da hwn ac i rannu adnoddau.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim oherwydd caiff ei reoli gan ddefnyddio adnoddau presennol.

**<u>Argymhelliad 22</u>**

**Dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu'r gwaith o adolygu a chyhoeddi'r pecyn o ganllawiau teithio statudol i ddysgwyr. Wrth ymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu amserlen glir ar gyfer adolygu'r canllawiau a dyddiad cyhoeddi pendant, gan nodi pryd y daw'r canllawiau diwygiedig i rym. Dylai hefyd nodi sut y bydd yn sicrhau bod y canllawiau'n cael eu cymhwyso'n gyson ledled Cymru.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae gwaith wedi dechrau i ddiweddaru'r canllawiau gweithredol statudol ar deithio gan ddysgwyr a Chod Ymddygiad Wrth Deithio Cymru Gyfan.

Cynhelir ymgynghoriad ar y canllawiau diwygiedig cyn diwedd 2024 gyda'r bwriad o gyhoeddi'r canllawiau erbyn haf 2025, gan roi digon o amser i'r awdurdodau lleol ddiweddaru eu canllawiau er mwyn iddynt ddod i rym erbyn haf 2026.

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r cysyniad sy'n sail i'r argymhelliad, sef bod angen gwella cysondeb trefniadau ar draws awdurdodau lleol gan gydnabod ar yr un pryd bod gan awdurdodau lleol wahanol anghenion, daearyddiaeth a blaenoriaethau ac felly y gall fod amrywiadau o ganlyniad i'r gofynion lleol hyn. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau o'r farn mai awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i wneud penderfyniadau sy'n adlewyrchu anghenion eu cymunedau o fewn fframwaith y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) a'r canllawiau ategol.

Bydd gwaith parhaus ATCO yn ogystal â sefydlu'r Fforwm Teithio gan Ddysgwyr yn cynnig ffordd o sicrhau cysondeb wrth gymhwyso'r canllawiau ledled Cymru.

**Goblygiadau Ariannol** – dyrannwyd £10,000 er mwyn helpu i ymgysylltu ac i ddatblygu'r canllawiau.

**Argymhelliad 23**

**Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i ffyrdd o sicrhau bod cyfleoedd hyfforddi priodol ar gael i gwmnïau cludiant a'u staff er mwyn meithrin hyder a sgiliau wrth gefnogi plant a phobl ifanc. Fel rhan o hyn, dylid ystyried datblygu achrediad ar gyfer staff.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Fel y nodwyd yn Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i drawsnewid profiad cwsmeriaid o drafnidiaeth gyhoeddus gan gynnwys dibynadwyedd, prydlondeb a hyfforddi staff a gyrwyr, er mwyn sicrhau bod pobl yn fwy hyderus wrth ddefnyddio gwasanaethau.

Mae Trafnidiaeth Cymru eisoes wedi dechrau'r broses hon drwy ddatblygu amrywiaeth o fentrau i helpu i ddarparu gwasanaeth rheilffordd cynhwysol a hygyrch, gan gynnwys cyflwyno Cymdeithion Teithio hyfforddedig a medrus, sefydlu'r Rhaglen Teithwyr Hyderus a grwpiau cynrychioliadol er mwyn sicrhau y caiff llais teithwyr ei glywed fel rhan o ddatblygiadau Trafnidiaeth Cymru, gan gynnwys y Panel Hygyrchedd a Chynhwysiant a'r Grŵp Cynghori Plant a Phobl Ifanc.

Mae sawl her yn gysylltiedig â darparu hyfforddiant i yrwyr bysiau ac mae gofynion sylweddol yn cystadlu am amser ac adnoddau fel rhan o'r model cyflenwi presennol.

Mae ein cynlluniau ar gyfer darparu gwasanaethau bws a thacsi yng Nghymru yn y dyfodol yn cynnig cyfleoedd posibl i ystyried pa hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd a sut, ac i'w wella er budd y gweithlu a defnyddwyr.

Yn y cyfamser, bydd y Fforwm Teithio gan Ddysgwyr yn cynnig cyfle i awdurdodau lleol rannu dealltwriaeth gyffredin ac arferion gorau mewn perthynas â chynnwys gofynion sgiliau a hyfforddiant fel rhan o'r ddarpariaeth a osodir ar gontract ar gyfer cludiant rhwng y cartref a'r ysgol.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim ar hyn o bryd

**Argymhelliad 24**

**Dylai Llywodraeth Cymru wneud rhagor o waith i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu symleiddio er mwyn mabwysiadu dull dim drws anghywir yn llawn ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus, ond gan ganolbwyntio'n benodol ar y rhyngweithio rhwng gwasanaethau iechyd ac addysg. Dylai'r gwaith hwn nodi'r rhwystrau i gydgysylltu gwasanaethau'n effeithiol, yn ogystal â nodi arferion gorau, a mecanweithiau ar gyfer rhannu'r arferion gorau hyn.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae sicrhau mwy o gydweithio amlasiantaethol ar draws gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig rhwng gwasanaethau iechyd ac addysg yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

Mae gwaith pellach yn cael ei wneud drwy'r Gweithgor Cydweithio Amlasiantaethol ADY sy'n cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau iechyd, sefydliadau addysg a sefydliadau eraill, er mwyn datblygu atebion a safbwyntiau y cytunwyd arnynt i faterion sy'n dod i'r amlwg yn sgil rhoi'r diwygiadau ADY ar waith. Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu consensws cenedlaethol ar atgyfeiriadau adran 20, datblygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPAau) er mwyn i Fyrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau fonitro cynnydd yn erbyn cydymffurfiaeth â dyletswyddau statudol o dan y Ddeddf ADY a'r Tribiwnlys Addysg, datblygu canllawiau a rhannu arferion effeithiol, a diwygio'r canllawiau statudol ar gyfer Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd. Mae'r camau gweithredu hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod byrddau iechyd yn cyflawni eu dyletswyddau statudol o dan y Ddeddf ADY a'r Tribiwnlys Addysg gan gynnwys data ar atgyfeiriadau ac amserlenni, yn ogystal â darparu data er mwyn nodi meysydd lle ceir amrywiadau neu bryderon.

Ein huchelgais yw i bob ysgol yng Nghymru fod yn Ysgol Fro – gan ymateb i anghenion ei chymuned, meithrin partneriaeth gref â theuluoedd a chydweithio'n effeithiol â gwasanaethau eraill.

Fel rhan o ddull Ysgolion Bro, mae gwaith ymgysylltu amlasiantaethol yn cynnwys:

- Cydweithio'n effeithiol â gwasanaethau ac asiantaethau allweddol eraill er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn ffynnu ac yn dysgu.
- Rhannu gwybodaeth er mwyn sicrhau y gall plant a phobl ifanc a'u teuluoedd gael gafael ar y cymorth priodol ar yr adeg briodol.
- Cefnogi mynediad at wasanaethau ehangach a fydd o bosibl wedi'u cydleoli ar safle'r ysgol neu wedi'u lleoli rywle arall yn y gymuned.

**Goblygiadau Ariannol** – Ni ragwelir unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol mewn perthynas â pharhau â'r gwaith sy'n mynd rhagddo yn y maes hwn.

**<u>Argymhelliad 25</u>**

**Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gwasanaethau'n cysoni ac yn addasu eu hamserlenni wrth weithio ar draws gwahanol wasanaethau a phroffesiynau er mwyn sicrhau cymorth cyfannol sy'n cefnogi mynediad at ofal plant ac addysg yn y ffordd orau.**

**Ymateb: Derbyn**

Byddwn yn parhau i weithio ar sail drawslywodraethol ac mewn ffordd gydadeiladol â'n partneriaid i sicrhau cysondeb wrth ddarparu gwahanol wasanaethau er mwyn gwneud yn siŵr bod cymorth ar gael i blant a phobl ifanc anabl gael mynediad at ofal plant ac addysg.

Mae'r Gweithgor Cydweithio Amlasiantaethol ADY yn gwneud gwaith penodol i ddatblygu consensws cenedlaethol ar atgyfeiriadau adran 20 a fydd yn anelu at gysoni amserlenni ar draws gwasanaethau.

Bydd Llywodraeth Cymru yn mynd ati i weithio â'r Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg i ganfod ac adolygu data sy'n deillio o ddangosyddion perfformiad allweddol, ac unrhyw argymhelliad o'r adolygiad o'r Ddeddf a'r Cod ADY, er mwyn ystyried sut mae Byrddau Iechyd yn cyflawni eu dyletswyddau statudol o dan y Ddeddf ADY a'r Tribiwnlys Addysg.

Cyhoeddwyd ein Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru ar 15 Mawrth 2024. Mae'n gynllun traws-sector sy'n dod â'r holl bolisïau a rhaglenni sy'n ymwneud â chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar sydd ar waith ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru ynghyd am y tro cyntaf.

Mae ein cynllun yn sicrhau bod y plentyn a datblygiad plant wrth wraidd popeth a wnawn. Mae Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn ymwneud â datblygu a chyflawni dull cyson o feithrin, dysgu a datblygu, drwy gynnig cyfleoedd gofal plant ac addysg seiliedig ar chwarae o ansawdd uchel i bob baban a phlentyn bach 0-5 oed.

Mae Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn cefnogi ein polisïau a'n huchelgeisiau ehangach ar gyfer y blynyddoedd cynnar yng Nghymru ac mae'n ymwneud yn bennaf â hyrwyddo partneriaethau, cysondeb a chydlyniant rhwng ysgolion a lleoliadau yn ogystal â rhieni/gofalwyr, er budd y plentyn a'i deulu.

Mae ein Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar yn rhaglen beilot dan gyfyngiad amser, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu system fwy cydgysylltiedig ac ymatebol ar gyfer y blynyddoedd cynnar sy'n rhoi ystyriaeth greiddiol i anghenion unigryw pob plentyn, o'r adeg cyn geni hyd at saith oed.

Ers 2017, mae'r rhan fwyaf o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) ledled Cymru wedi ymuno â'r rhaglen ar sail raddol fel byrddau braenaru ac mae'r cymorth rydym wedi'i roi wedi eu galluogi i ystyried gwahanol ffyrdd o ddarparu gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar mewn ffordd fwy systematig, gan gymhwyso'r gwersi a ddysgwyd o raglenni sy'n bodoli eisoes fel Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf.

Daeth y cyllid ar gyfer y rhaglen i ben ym mis Mawrth 2024 a bydd y rhaglen yn dod i ben yn ffurfiol ar ddiwedd mis Mawrth 2025. Rydym yn gweithio gyda'r BGCau, yn ystod 2024-25, i roi'r gwersi a ddysgwyd ac arferion da ar waith, wrth iddynt ystyried sut i brif-ffrydio gweithgarwch y rhaglen beilot i'w harferion busnes fel arfer, ar ôl gadael y rhaglen yn ffurfiol.

Bydd y gwersi a ddysgwyd a'r arferion da o'r rhaglen yn ein helpu i feddwl yn strategol am y ffordd orau o helpu i integreiddio a thrawsnewid gwasanaethau mamolaeth a gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar yn y tymor canolig a'r tymor hwy a byddant yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer rhoi ein holl raglenni a pholisïau ar gyfer y blynyddoedd cynnar ar waith yn y dyfodol.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim

**Argymhelliad 26**

**Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r niferoedd presennol o weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd allweddol, nodi ble mae'r bylchau ar hyn o bryd, sut y bwriedir llenwi'r bylchau hyn a'r niferoedd sydd eu hangen i gefnogi lefel debygol yr angen yn y dyfodol, gan gynnwys nifer y lleoedd hyfforddi sydd eu hangen. Dylai hyn wedyn gael ei ategu gan gynllun cyflawni clir.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r Cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer y gweithlu: mynd i'r afael â heriau gweithlu GIG Cymru yn nodi cam gweithredu i adolygu'r gweithlu Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd. Bydd yn ofynnol i Addysg a Gwella Iechyd Cymru adolygu'r proffesiynau perthynol i iechyd er mwyn deall y sefyllfa bresennol ac anghenion yn y dyfodol wrth ddarparu ein gwasanaethau, gan arwain at gynllun cadw ar gyfer gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd. Mae gwaith cwmpasu data yn mynd rhagddo ar gyfer yr adolygiad a fydd yn llywio'r adolygiad ehangach a dealltwriaeth o'r bylchau.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim

**Argymhelliad 27**

**Dylai Llywodraeth Cymru edrych yn fanylach ar yr arfer da yng Nghastell-nedd Port Talbot ble mae ysgolion yn gallu cael cymorth gan Therapyddion Galwedigaethol a ariennir gan yr awdurdod lleol, ac ystyried a fyddai'n elwa o dreialu dulliau o'r fath mewn rhannau eraill o Gymru. Yna dylid gwerthuso cynllun peilot o'r fath yn llawn, ac os bydd yn llwyddiannus, dylid ystyried cyflwyno'r model hwn ledled Cymru.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae trefniadau yn mynd rhagddynt i gynnal digwyddiad cenedlaethol ar gyfer rhannu arferion effeithiol ar draws y sector addysg a'r sector iechyd. Mae nifer o fodelau arferion da ar gyfer therapi galwedigaethol i blant y gellid eu rhannu yn ystod y digwyddiad. Caiff cynllun peilot Castell-nedd Port Talbot ei ystyried fel un enghraifft i'w harddangos yn ystod y digwyddiad. Caiff y modelau hefyd eu cyflwyno i'r Grŵp Amlasiantaethol ADY, a chaiff trafodaethau cynnar ar y modelau eu defnyddio fel astudiaeth achos i'w rhannu â phartneriaid cyflawni. Unwaith y bydd adolygiad wedi'i gynnal i werthuso'r model ac ystyried modelau eraill sydd ar waith yn bresennol, yna byddwn yn ystyried beth yw'r model mwyaf effeithiol i'w gyflwyno.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim

**Argymhelliad 28**

**Dylai Llywodraeth Cymru annog pob awdurdod lleol i wneud cytundebau partneriaeth i gefnogi prynu ac ailgylchu cyfarpar arbenigol ac addasiadau a all helpu plant a phobl ifanc i gael mynediad at ofal plant ac addysg.**

**Ymateb: Derbyn**

Bydd swyddogion yn gweithio gydag awdurdodau lleol i nodi a rhannu arferion da yn y maes hwn.

Mae Canllawiau Gofal Parhaus i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru yn disgrifio'r broses ryngasiantaeth, o dan arweiniad y byrddau iechyd, y dylai pob sefydliad ei rhoi ar waith wrth asesu anghenion ac wrth lunio pecynnau gofal parhaus wedi'u teilwra'n benodol a all gynnwys darparu cyfarpar. Mae'r cysyniad o rannu ac ailgylchu cyfarpar yn agwedd bwysig ar reoli adnoddau mewn ffordd effeithlon a chynaliadwy. Gall y dull hwn helpu i leihau costau a sicrhau bod cyfarpar hanfodol ar gael i'r rhai hynny sydd ei angen.

Os nodir bod plentyn neu berson ifanc yn gymwys i gael gofal parhaus, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i asiantaethau gydweithio i sicrhau nad oes unrhyw fylchau wrth ddiwallu anghenion yr unigolyn hwnnw a aseswyd. Dylai unrhyw wasanaeth a ddarperir ac a drefnir gan y Bwrdd Iechyd Lleol, awdurdodau lleol a'u partneriaid alluogi'r plentyn neu'r person ifanc i weithredu hyd eithaf ei allu o fewn ei deulu, ei gymuned, ei leoliad addysg neu ei leoliad gofal.

**Goblygiadau Ariannol** – Caiff unrhyw waith yn y maes hwn ei reoli gan ddefnyddio adnoddau presennol.

**<u>Argymhelliad 29</u>**

**Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob awdurdod lleol yn datblygu llwybrau clir sydd ar gael yn eang sy'n amlinellu pa gymorth sydd ar gael, a phwy sy'n gyfrifol am ddarparu'r cymorth hwn. Dylid diweddaru llwybrau o'r fath yn rheolaidd fel bod y wybodaeth yn parhau i fod yn amserol ac yn berthnasol. Dylai'r rhain fod ar gael yn hawdd ar wefannau awdurdodau lleol a dylent hefyd fod ar gael yn rhagweithiol i deuluoedd pan fyddant yn cysylltu â'r awdurdod lleol i ofyn am gymorth.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Rydym yn cefnogi'r egwyddor sy'n sail i'r argymhelliad hwn, fodd bynnag mater i'r awdurdodau lleol yw hwn. Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod gwybodaeth i deuluoedd yn eglur ac ar gael yn eang.

Ar hyn o bryd, mae'r Ddeddf a'r Cod ADY yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu gwybodaeth a chyngor diduedd am ADY a'r system ADY. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gwybodaeth ar gael ar eu gwefannau. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro darpariaeth awdurdodau lleol drwy'r systemau sy'n bodoli eisoes.

Byddai rhieni plant o adeg eu geni hyd at bump oed yn cael cyngor a gwybodaeth gan eu Hymwelydd Iechyd a Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar eu hawdurdod lleol.

Mae gan bob awdurdod lleol yng Nghymru Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd – porth yr awdurdod i rieni a theuluoedd sy'n edrych am gyngor a gwybodaeth ac sydd am gael eu cyfeirio at amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael yn eu hardal leol. Mae ganddynt brofiad o gyfeirio rhieni at wasanaethau a all eu helpu i ymdrin ag amrywiaeth o faterion yn dibynnu ar eu hamgylchiadau teuluol, gan gynnwys gofal plant, costau gofal plant, hyfforddiant, rhaglenni teuluoedd, iechyd, materion ariannol a hamdden.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim

**Argymhelliad 30**

**Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol yn nodi egwyddorion craidd ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth am ofal plant. Dylai'r canllawiau hyn nodi y dylai gwybodaeth gael ei chydgynhyrchu gyda theuluoedd, y dylai fod ar gael yn hawdd ac yn gyfleus, mewn sawl fformat, y dylid ei diweddaru, ac y dylid darparu lefel sylfaenol o gysondeb ledled Cymru. Wrth lunio'r canllawiau hyn, dylai Llywodraeth Cymru gynnwys teuluoedd o bob rhan o Gymru sydd â phrofiadau perthnasol er mwyn sicrhau mai anghenion teuluoedd sydd wrth wraidd y canllawiau.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae ein Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn nodi'r camau gweithredu penodol y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd neu y mae'n bwriadu eu cymryd i gefnogi rhieni wrth ddatblygu a chael gafael ar wybodaeth berthnasol am ofal plant.

Mae Deddf Plant 2006 (Deddf 2006) yn egluro ac yn ymhelaethu ar y rhan hanfodol y mae awdurdodau lleol yn ei chwarae fel arweinwyr strategol wrth ddarparu gofal plant yn lleol. Mae Deddf 2006 yn atgyfnerthu'r fframwaith y mae awdurdodau lleol eisoes yn gweithio o'i fewn – mewn partneriaeth â'r sector preifat, y sector gwirfoddol, y sector annibynnol, y sector cymunedol a'r sector a gynhelir – er mwyn llywio a gwarantu gwasanaethau plant ac yn canolbwyntio'n benodol ar ddarparu'r canlynol:

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau statudol i awdurdodau lleol (Canllawiau Statudol Gofal Plant, diweddarwyd mis Awst 2016, sy'n nodi sut y dylid darparu gwybodaeth i rieni a darpar rieni am ofal plant drwy eu Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.

Mae'r canllawiau yn nodi egwyddorion cyffredinol ar gyfer darparu gwybodaeth er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth a gaiff ei darparu'n lleol:

- Yn hawdd ei defnyddio, gan adlewyrchu canfyddiadau ac anghenion rhieni
- Ar gael drwy amrywiaeth o leoliadau, allfeydd a sianeli
- Ar gael mewn amrywiaeth o fformatau er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb a safonau'r Gymraeg

Mae gan bob awdurdod lleol yng Nghymru Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd – porth yr awdurdod i rieni a theuluoedd sy'n edrych am gyngor a gwybodaeth ac sydd am gael eu cyfeirio at amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael yn eu hardal leol. Mae ganddynt brofiad o gyfeirio rhieni at wasanaethau a all eu helpu i ymdrin ag amrywiaeth o faterion yn dibynnu ar eu hamgylchiadau teuluol, gan gynnwys gofal plant, costau gofal plant, hyfforddiant, rhaglenni i deuluoedd, iechyd, materion ariannol a hamdden.  Gellir defnyddio'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd drwy Teulu Cymru hefyd, a sefydlwyd ar gyfer rhieni, gofalwyr a theuluoedd plant 0-18 oed, i'w cyfeirio i'r man cywir ar gyfer gwahanol ffynonellau o gymorth ymarferol ac ariannol gan Lywodraeth Cymru.

Ei nod yw rhoi cymorth uniongyrchol i rieni gael gafael ar wybodaeth a chyllid. Byddwn yn adolygu Teulu Cymru yn rheolaidd ac yn gweithio'n barhaus gyda rhieni er mwyn sicrhau ei fod yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt.

Mae ein partneriaid allweddol (Cwlwm) hefyd wedi datblygu ac wedi cyhoeddi llyfryn ‘Dewis Gofal Plant’, a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, sy'n helpu teuluoedd i ddewis gofal plant.

**Goblygiadau Ariannol –** Caiff yr holl weithgarwch sydd wedi'i gynllunio neu sy'n mynd rhagddo ei gyflawni gan ddefnyddio adnoddau presennol.

**Argymhelliad 31**

**Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd am hawliau mewn addysg, gan sicrhau ei bod ar gael yn eang, mewn amrywiaeth o fformatau, ac yn cefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i ddeall beth yw eu hawliau, a sut i geisio unioni cam os bydd eu hawliau wedi cael eu torri.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae gwybodaeth am hawliau plant ar gael ar hyn o bryd gan nifer o sefydliadau, gan gynnwys yr hawl gyffredinol i addysg. Rydym yn cydnabod y gall yr amrywiaeth hon o ffynonellau ei gwneud hi'n heriol i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd gael gafael ar wybodaeth ddiffiniol am eu hawliau. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid gan gynnwys awdurdodau lleol, sefydliadau anabledd a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, ymhlith eraill, er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru mor ddiffiniol â phosibl a'i bod yn hygyrch. Fodd bynnag, ni allwn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau eraill ddiwygio'r wybodaeth a ddarperir ganddynt na thynnu'r wybodaeth honno yn ôl.

Ym mis Ebrill 2024, fel rhan o'n cyfres o Adnoddau Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru daflen Hawliau Plant i ymarferwyr a phedair taflen Hawliau Plant i rieni plant 0-5 oed i'w helpu i ddeall hawliau babanod a phlant bach.

**Goblygiadau Ariannol** – Ni ddylai fod fawr ddim goblygiadau, os o gwbl, mewn perthynas â'r gwaith hwn. Fodd bynnag, gall fod rhai costau lefel isel mewn perthynas ag ymgysylltu â rhanddeiliaid gan gynnwys plant, pobl ifanc a'u teuluoedd a datblygu dogfennaeth hygyrch. Caiff y costau hyn eu talu gan ddefnyddio cyllidebau presennol.

**Argymhelliad 32**

**Dylai Llywodraeth Cymru lunio cynllun cyflawni clir ar gyfer mynd i'r afael â bylchau mewn swyddi addysgu arbenigol, ar gyfer Athrawon Plant Byddar, ac Athrawon Plant ag Amhariad ar eu Golwg, er mwyn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu cael mynediad at y cymorth hwn pan fydd ei angen arnynt. Dylai'r cynllun cyflawni hwn gynnwys targedau, amcanion ac amserlenni clir fel y gellir ei fonitro a chraffu arno.**

**Ymateb: Gwrthod**

Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am gynllunio eu gweithlu er mwyn sicrhau bod digon o staff wedi'u hyfforddi'n briodol ar gael. O dan y Ddeddf ADY, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol adolygu eu trefniadau ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY, a threfniadau eu hysgolion a gynhelir, yn barhaus. Rhaid i'r adolygiad hwn ystyried maint a gallu'r gweithlu sydd ar gael. Mae hyn yn cyd-fynd â barn Llywodraeth Cymru mai awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i asesu anghenion ac amgylchiadau lleol. Felly nid yw Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad ar gyfer cynllun cyflawni sy'n mynd i'r afael yn benodol â swyddi addysgu arbenigol, ar gyfer Athrawon Plant Byddar ac Athrawon Plant ag Amhariad ar eu Golwg.

Er mwyn helpu awdurdodau lleol, darparodd Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol ar gyfer cymorth hyfforddi i athrawon plant ag amhariad ar y synhwyrau drwy gydol 2018-21 fel rhan o'r rhaglen Trawsnewid ADY ac rydym yn parhau i dynnu sylw awdurdodau lleol at y ffaith y gellir defnyddio cyllid LAEG ar gyfer ADY i roi hyfforddiant proffesiynol i athrawon arbenigol lle bo hynny'n ymdrin â phwysau ychwanegol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar ymyriadau effeithiol i ddysgwyr ag amhariadau ar y synhwyrau mewn lleoliadau addysg ac yn ogystal â datblygu llwybr dysgu proffesiynol cenedlaethol ar gyfer ADY er mwyn helpu Cydlynwyr ADY ac ymarferwyr eraill i feithrin eu sgiliau i helpu pob dysgwr ag ADY, rydym wedi gweithio gyda'r trydydd sector i ddatblygu unedau e-ddysgu i athrawon ar gefnogi dysgwyr byddar a dysgwyr ag amhariad ar eu golwg.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
—
**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Jane Hutt AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros
Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol,
y Trefnydd a'r Prif Chwip

Annwyl Jane,

2 Hydref 2024

# Anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, yr uwchgynhadledd, a'r system cyfiawnder ieuenctid

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Awst ac am rannu copi o ganfyddiadau'r uwchgynhadledd â ni. Gan mai dyma'r unig gofnod ffurfiol o'r uwchgynhadledd, bydd y ddogfen hon yn werthfawr i'r holl randdeiliaid a oedd yn bresennol.[1] Roedd bob amser yn fwriad gennym ymateb, ond mae'r pryderon a nodwyd yn yr ohebiaeth ddilynol gan Goleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith wedi rhoi hwb arall inni wneud hynny.[2] Er enghraifft, mae Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith yn nodi nad yw wedi cael unrhyw adborth o'r uwchgynhadledd na gweld y canfyddiadau. Siom hefyd oedd clywed bod ei geisiadau blaenorol am gyfarfod wedi cael eu gwrthod.

Byddem felly'n eich annog i gyfarfod â Choleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith i sicrhau ei fod yn cael adborth priodol, ac i rannu copi o'r canfyddiadau â'r Coleg a'r rhanddeiliaid eraill a oedd yn bresennol yn yr uwchgynhadledd cyn gynted â phosibl. Hoffem hefyd ofyn ichi ddarparu diweddariad am gynnydd o ran y camau gweithredu a nodir yn nogfen canfyddiadau'r uwchgynhadledd.

Yn ei bapur briffio, mae Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith yn tynnu sylw at yr ystadegau diweddaraf sy'n ategu prif ganfyddiad ein hadroddiad, sef bod pobl ifanc sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu (y 60% y cyfeirir atynt yn nheitl ein hadroddiad) yn cael eu gorgynrychioli'n sylweddol yn y system cyfiawnder troseddol. Mewn gwirionedd, mae'n awgrymu nad yw ein hadroddiad ni'n adlewyrchu'r gwir raddau. Mae'r Coleg hefyd yn cadarnhau bod anghenion lleferydd ac iaith yn cael eu hystyried yn fwyfwy pwysig mewn arolygiadau ar gyfer gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid. Ategwn ein galwadau i therapyddion

[1] Gwybodaeth ychwanegol ynglyn â'r llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant, Cyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip ynghylch yr Uwchgynhadledd Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu, 31 Awst 2024 (Saesneg yn unig)

[2] Papur i'w nodi 4.1 Gohebiaeth gan Goleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith at y Cadeirydd ynghylch adroddiad y Pwyllgor: "60%: – Rhoi llais iddyn nhw", 13 Medi 2024

lleferydd ac iaith gael eu hymgorffori mewn gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid ledled Cymru yn unol â'n hargymhellion.

## Darparu therapyddion lleferydd, iaith a chyfathrebu

O ran darparu therapyddion anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ac i ba raddau y gall y system cyfiawnder ieuenctid gael gafael ar ddarpariaeth o'r fath, mae gennym bryderon parhaus. Rydym yn croesawu'r cynnydd bach yn nifer y lleoedd hyfforddi ar gyfer therapyddion lleferydd ac iaith[3] o ran addysg a hyfforddiant blynyddol Addysg a Gwella Iechyd Cymru ar gyfer 2024-25. Gobeithiwn y gellir cynnal y cynnydd hwn yn y dyfodol a byddem yn croesawu cadarnhad y bydd hynny'n digwydd.

Roedd yn rhwystredig gweld y sabwynt a nododd eich rhagflaenydd yn ei llythyr (dyddiedig 30 Mai 2024):

> *It is for Local Health Boards (LHBs) to determine their health needs and how best to meet them with the resources available, including for children in contact with the justice system or those at risk of coming into contact with it.*

Yn eich llythyr dyddiedig 30 Awst 2024, gwnaethoch nodi eto fod Llywodraeth Cymru "yn annog Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid lleol i drafod yr opsiynau sydd ar gael iddynt gyda'u Byrddau Iechyd Lleol priodol". Fodd bynnag, sut y gallwn fod yn hyderus y bydd Byrddau Iechyd Lleol yn blaenoriaethu'r buddsoddiad sydd ei angen i ddiwallu anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu o ystyried y methiant i ddarparu adnoddau digonol mewn rhai rhannau o Gymru hyd yn hyn? Mae digon o dystiolaeth o'r angen, ond mae'r trefniadau presennol sy'n caniatáu i Fyrddau Iechyd Lleol benderfynu sut i ddiwallu anghenion yn lleol wedi creu loteri cod post annheg, ac mae ofn arnom y bydd hyn yn parhau os na chymerir camau gweithredu. O ganlyniad, bydd bywydau yn parhau i gael eu difetha mewn ffyrdd sydd, yn y pen draw, yn wrthgynhyrchiol, ac yn niweidiol i gymdeithas a'r pwrs cyhoeddus yn yr hirdymor.

Y tro cyntaf i bwyllgor seneddol godi pryderon polisi cyhoeddus mewn perthynas â darparu therapi lleferydd ac iaith yng Nghymru oedd yn 2010. Nid yw'r materion hyn yn newydd, ac eto mewn sawl rhan o Gymru ni chafwyd ymateb. Felly, rydym yn eich gwahodd chi ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd i ystyried a yw'r dull presennol yn addas i'r diben ac i edrych yn ofalus i weld a oes angen i Lywodraeth Cymru gyfarwyddo'r Byrddau Iechyd Lleol i gymryd camau lle nad oes darpariaeth ddigonol.

## Gweithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder

At hynny, o ystyried bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn parhau i fod yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r system cyfiawnder troseddol, pa sgyrsiau a gafwyd â'r Gweinidog Carchardai newydd, yr Arglwydd Timpson am y gwaith o sicrhau bod mwy o fewnbwn gan therapyddion lleferydd, iaith a chyfathrebu ar gael er mwyn nodi anghenion troseddwyr a allai fel arall gael dedfryd amhriodol o garchar?

Yn benodol, beth yw dyfodol cyllid rhaglen Turnaround y tu hwnt i'r terfyn disgwyliedig ym mis Mawrth 2025? Mae gwybodaeth gan Goleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith yn dangos bod nifer o therapyddion lleferydd, iaith a chyfathrebu wedi cael eu cyflogi ledled Cymru yn rhannol oherwydd cyllid rhaglen Turnaround, ond ni chafwyd unrhyw gyhoeddiad ar gyfer y trefniadau cyllid ar ôl mis Mawrth 2025. Fe'ch anogwn i dynnu sylw at effaith gadarnhaol y cyllid hwn ac i ofyn i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder roi sicrwydd y gwneir trefniadau addas ar gyfer cyllid olynol, a sicrwydd yn ddelfrydol y caiff cyllid ei ddarparu dros amserlen amlflwydd.

---

[3] Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Cynllun Addysg a Hyfforddiant 2024-25, tudalen 12

Rydym yn ddiolchgar i chi am barhau i ymgysylltu â ni ynghylch y mater pwysig hwn o ran cyfiawnder cymdeithasol, a byddem yn croesawu ymateb gennych erbyn: 30 Hydref 2024.

Byddaf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Buffy Williams AS, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg; a Pippa Cotterill, o Goleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith.

Yn gywir,

**Jenny Rathbone AS**

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Senedd Cymru

Buffy Williams MS
Buffy.Williams@senedd.wales
Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

3rd October 2024

**Thank you for the Committee's work on the 'Children and Young People on the Margins' inquiry.**

Dear Buffy Williams MS,

I hope this finds you well.

On behalf of NYAS Cymru, I would like to thank you and the Children, Young People and Education's Committee for the continued work into the 'Children and Young People on the Margins' inquiry.

We were thrilled that the Committee held a scrutiny session with the Minister for Children and Social Care and the Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip on September 19th. It was welcomed that Committee members raised several issues regarding data collection in Wales, the status of return interviews, progress of the Corporate Parenting Charter and devolution of the youth justice system. We would like to thank you for considering the questions we had submitted to the Committee in support of the scrutiny session.

<u>The offer of a return interview</u>

NYAS Cymru recognise that for return interviews to be truly effective in keeping children safe after missing incidents, they must be child-led. We believe there has been some confusion regarding the process of return interviews and we wanted to clarify that we believe children should have a choice as to whether they participate in a return interview or not, and they should be able to decide who completes this interview. NYAS Cymru believe that it should be a statutory right for every missing child or young person to have an offer of an independent return interview and that right is taken up with the voluntary agreement of the child or young person, rather than it being "mandatory". I really welcomed you clarifying this within the scrutiny session and would like to thank you for doing so.


We know that across Wales access to return interviews remains unequal and not every child can access these services. This is why we believe making the offer of a return interview a statutory right is important, so all care-experienced children across Wales have an equal opportunity to decide whether they wish to participate in a return interview.

<u>Inquiry next steps</u>

Please would you be able to confirm the next steps the Committee will take on this important work. NYAS Cymru would like to offer the Committee our full support with the next steps of this inquiry, including helping to shape any recommendations the Committee may make to the Welsh

Government. Please do not hesitate to reach out if there is anything we can do in the coming months to support this. Once again, thank you Buffy for all the work you and the Committee have undertaken as part of this inquiry.

Best regards,



Sharon Lovell MBE
Chief Executive
NYAS Cymru

**Additional information from the NASUWT Cymru following the evidence session on 2 October 2024**

Please find evidence re.  additional questions:

**•What are your views on the language categories that will be applied to schools under the Bill? Do you see any big difference from the current arrangements set out in non-statutory guidance?**

The proposed system is simpler.  These will be clearer and easier to understand providing enough information is shared with parents and the public on their meaning.  The categories do not stand alone, schools are based in communities, and the demographic nature of those communities will impact on the appropriate categories.  In terms of transition, Welsh Government needs to ensure it has provided enough support to the communities, and resources and training for teachers and other education staff, to support an increased use of Welsh language. The Welsh Government must also recognise that schools can only successfully transition whilst also transitioning the workforce of that school. Re-training, redeployment and recruiting will not happen overnight and possibly will not happen in the transition timescales proposed.

**•How important and necessary are the provisions in the Bill for Primarily English Language, partly Welsh schools to apply for a maximum of two periods of exemption from the requirement to deliver 10% Welsh language education? Are you content with these arrangements?**

Each school is required to prepare a Welsh language delivery plan and under this new Bill/Act would be monitored against their achievements and outcomes.  Schools do not exist in isolation, and may reflect that linguistic demographics which surround the school in the local community.  Some pupils will hear Welsh spoken in other locations outside of school, and at home.  Other pupils will not hear Welsh spoken unless in school.  Another factor impacting on the achievement of the objective of 10% Welsh language provision is the availability of Welsh medium teachers – there is crisis in Wales in recruitment of Welsh medium teachers.   Welsh Government needs to ensure there has been a mapping of teachers able to speak through the medium of Welsh, work to increase the numbers being recruited, ensure the Welsh medium of ITE is increased, and ensure that proper provision for teachers to improve their Welsh language skills are also protected e.g. through sabbaticals.  Without this Primarily English language provision schools are being pressured to deliver on a target that is

outside of their control. The continuum should be implemented at a pace that reflects local circumstances.

Reports from UNESCO on promoting of minority indigenous languages focus on the need for promoting and encouraging an increase of the language within the community as well as the school. Welsh Language Commission reported in 2016 that Welsh learning had moved form the home to school, and in in 2016 4 out of 5 children aged 5-15 mainly learn Welsh at school.

In relation to all pupils achieving the B2 level, the Welsh Government needs to take account of this particularised location of Welsh language usage in schools, rather than community and home, when assessing the probability of this goal in the Bill being achieved, as well as the needs of ALN students. The definition of CEFR B2 is 'At this level, students can function independently in a variety of academic and professional environments in English, although with a limited range of nuance and precision' (it has been compared to A level). ESTYN 2018/19 report on student take up of A level Welsh first language noted a drop in uptake. Estyn notes that whilst attitudes to Welsh remain positive, desire and confidence of a minority of learners fade, and many choose to study their courses through English at KS 5. There needs to be more research on the achievability of CEFR B2 in a pupils career.

It is clear from the ESTYN report that the previous non-statutory guidance linked to WESPs has failed to achieve an increase in Welsh language use in Primarily English schools. The failure has been linked to a lack of resources in terms of funding and in successfully enabling Welsh medium teachers to be trained either in ITE or through release form their teaching duties.

Without good resources, and proper planning, to support the implementation of the objectives within the Bill – this could well result in another failed Welsh language policy initiative.

**•Do you believe is it is clear enough what will happen if a school does not provide at least the minimum amount of Welsh language education in accordance with its category? Should the Bill provide for any mechanisms or sanctions to be taken?**

This is not clear. If the Bill is to be taken seriously some indication of support should be made, which would enable any school to achieve the minimum within it's category. The Union is concerned that the Bill should be able to sanction schools for any lag in attainment – not least when a school's ability to meet any category requirements is dependant on its staff resources. Schools that struggle to employ

Welsh-medium teachers or are unable to fund immersive training for staff to meet the demands of its category should not be sanctioned but rather should be adequately supported.

**•To what extent do you agree with the creation of a National Institute for Learning Welsh and the role that the Bill sets out for it?**

How much of a role do you believe it should have in terms of statutory education and how would you like to see it working with existing organisations such as schools

It is logical for one body to hold an overarching view on the development of Welsh language in Wales. The relationships would be most successful if based on co-operation and co-production, with collegiate working on drawing up of objectives and implementation pathways. Any creation of monitoring roles needs to be carefully scrutinised for impact on workload and extra pressure on teachers. Any scrutiny should be collegial and with the purpose of identifying support needs, and not to feed into any sanction mechanisms.

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Mark Drakeford AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg

10 Hydref 2024

**Bil y Gymraed ac Addysg (Cymru)**

Annwyl Mark,

Byddem yn gwerthfawrogi cael eglurhad o'r geiriad yn adran 23(3) o Fil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) (y Bil).


Mae adran 23(3) o'r Bil yn nodi bod rhaid i'r Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg nodi, yn benodol, y camau y bydd Gweinidogion Cymru yn eu cymryd i hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg. Yn y fersiwn Saesneg o'r Bil, yn adran 23(3)(e), mae'n ymddangos bod gwall drafftio, gan nad yw 'to facilitate' yn llifo o'r geiriau rhagarweiniol yn is-adran (3). I roi hyn yn ei gyd-destun, os darllenir geiriau rhagarweiniol is-adran (3) a pharagraff (e) gyda'i gilydd, mae'n nodi 'The National Framework for Welsh Language Education and Learning Welsh must, in particular, set out the steps the Welsh Ministers will take to promote and facilitate the use of Welsh by to facilitate progression in teaching Welsh and education through the medium of Welsh…'.

Mater arall a nodwyd yn adran 23(3) yw bod paragraff (e) yn y fersiwn Gymraeg o'r Bil yn nodi 'annog dilyniant' a bod y fersiwn Saesneg yn nodi 'to facilitate progression'. Ar wahân i'r un enghraifft hon, bob tro y defnyddir 'facilitate' neu 'facilitating' yn y fersiwn Saesneg o'r Bil, defnyddir 'hwyluso' yn hytrach nag 'annog' yn y fersiwn Gymraeg. Pan ddefnyddir 'annog' mewn mannau eraill o'r fersiwn Gymraeg o'r Bil, sef adrannau 1(1)(d) a 22(2)(a), y gair a ddefnyddir yn y fersiwn Saesneg yw 'encourage'. Ymddengys i ni nad yw'r mater a nodir ym mharagraff blaenorol y llythyr hwn ynglŷn â llif y geiriau yn y fersiwn Saesneg yn effeithio ar y fersiwn Gymraeg o'r Bil.

Gofynnwn i chi gadarnhau'r geiriad cywir ar gyfer adran 23(3)(e) o'r Bil, yn y ddwy iaith. Os oes angen unrhyw ddiwygiadau, gofynnwn i chi gadarnhau a fydd y rhain yn cael eu gwneud yng Nghyfnod 2.

Byddai'n ddefnyddiol pe gallem gael ymateb cyn ein sesiwn graffu nesaf ddydd Iau 17 Hydref, gan ei fod yn berthnasol i dystiolaeth yr ydym wedi'i chael gan randdeiliaid.

Yr gywir,



Buffy Williams AS
Caerdydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English